# CYNLLUN RHEOLI
# PARC CENEDLAETHOL
# BANNAU BRYCHEINIOG

## 2000-2005

BRECON BEACONS
NATIONAL PARK

---

**CYNNWYS** ***Tudalen***


| | | |
|---|---|---|
| Rhagair | | 2 |
| 1. | Cyflwyniad | 3 |
| 2. | Gweledigaeth | 6 |
| 3. | Tirlun a phriodoleddau arbennig | 7 |
| 4. | Treftadaeth daear | 11 |
| 5. | Bioamrywiaeth | 14 |
| 6. | Archeoleg a thirluniau hanesyddol | 18 |
| 7. | Amgylchedd adeiledig | 21 |
| 8. | Diwylliant a thraddodiad | 24 |
| 9. | Mynediad a hawliau tramwy | 26 |
| 10. | Hamdden | 30 |
| 11. | Dehongli a gwybodaeth | 36 |
| 12. | Addysg | 39 |
| 13. | Twristiaeth | 41 |
| 14. | Trafnidiaeth | 45 |
| | Hierarchaeth ffyrdd | 48 |
| 15. | Ffermio a choedwigaeth | 50 |
| 16 | Defnydd milwrol o'r Parc | 53 |
| 17. | Meithrin ffyniant economaidd a chymdeithasol y gymuned leol | 55 |
| 18. | Blaen-gynllunio a rheoli datblygiad | 58 |
| 19. | Cynlluniau Rheoli Ardal | 61 |
| Byrfoddau | | 64 |


***MAPIAU (yng nghanol y llyfr)***


1. Ardaloedd y Cynlluniau Rheoli Ardal
2. Hierarchaeth ffyrdd y Parc Cenedlaethol
3. Ardaloedd dan bwysau a bregus
4. Amgylchedd hanesyddol ac adeiledig
5. SDdGA a gwarchodfeydd natur
6. Map Cadwraeth Adran 3
7. Perchenogaeth tir
8. Defnydd tir
9. Daeareg
10. Tirwedd
11. Lleoliad rhanbarthol



Martin Fitton
Swyddog y Parc Cenedlaethol
7 Heol Morgannwg
Aberhonddu, Powys LD3 7DP

# Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol newydd, sy'n nodi ein gweledigaeth tuag at y dyfodol, a'n hamcanion dros y pum mlynedd nesaf. Mae'n seiliedig ar ymgynghori eang gyda mudiadau eraill, ymwelwyr a phobl leol. Cafodd pawb sy'n byw oddi mewn i ffiniau'r Parc gyfle i gyfrannu tuag at y broses o

Mae'r pwyslais yn y Cynllun yma ar bartneriaeth. Byddai'n anodd cyflawni llawer iawn o amcanion y Parc ar ein pen ein hunain. Mae'r Cynllun yn dangos pa fudiadau ac unigolion y byddwn yn gweithio gyda hwy yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Mae sawl her yn ein hwynebu yn y Mileniwm newydd. Mae'r argyfwng yng nghefn gwlad wedi canolbwyntio ein sylw ar sut i gyflawni ein pwrpasau statudol er lles yr economi leol, gan gynorthwyo i drosglwyddo grym i gymunedau'r Parc. Mae hon ynddi'i hun yn un agwedd ar gynaladwyedd, ac rydym i gyd yn gweithio tuag at hynny.

Wrth i ni fynd i'r wasg, rydym yn dechrau herio ein dulliau gweithredu fel rhan o'r broses Gwerth Gorau. Mae ysgrifennu'r Cynllun yma wedi'n cynorthwyo ni i ganolbwyntio ar beth yr ydym yn ei wneud a pham, a chredaf y

Cynghorydd E T Morgan, Cadeirydd, Awdurdod y Parc Cenedlaethol

Mawrth 2000

© Awdurdod y Parc Cenedlaethol 2000

Cyfieithiad gan Testun

Llun y clawr gan David Brinn, lluniadau gan Jon Dixon © APCBB

Argraffwyd gan The Astec Press Limited, Caerdydd

# 1 CYFLWYNIAD

## PARCIAU CENEDLAETHOL

1.1 Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn un o deulu o Barciau Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr, a bennwyd gan y Senedd ym 1949. Eu diben, yn ôl diwygiad 1995, yw cadw a gwella prydferthwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol, a hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau priodoleddau arbennig eu hardaloedd. Mae ganddynt hefyd ddyletswydd i feithrin ffyniant y gymuned leol. Mae'r Parciau'n bwysig yn genedlaethol fel tirluniau wedi'u diogelu, ac mae'r cyllid a dderbyniant a'u staff arbenigol yn helpu'r Parciau i weithredu fel ardaloedd i arbrofi ym meysydd datblygu a rheoli cynaliadwy a dyfeisgar. Gall eu gwaith lleol, felly, fod o fudd byd-eang.

1.2 Awdurdodau'r Parc Cenedlaethol sy'n rhedeg y Parciau. Mae APC yn gweithio gyda'i gilydd drwy Gymdeithas Awdurdodau'r Parc Cenedlaethol (CAPC) er mwyn cryfhau llais y Parciau yn genedlaethol, gwella ymwybyddiaeth o faterion arbennig, mynd i'r afael â phroblemau cyffredinol a rhannu gwybodaeth. Cefnogir y gwaith hwn gan Gymdeithas Staff y Parc Cenedlaethol, a hefyd gan Gyngor y Parciau Cenedlaethol, corff ymbarél ar gyfer mudiadau gwirfoddol sydd â diddordeb yn y maes hwn. Mae APC hefyd yn perthyn i'r Ffederasiwn Natur a Pharciau Cenedlaethol Ewrop.

1.3 Nid APC Bannau Brycheiniog yw'r unig un sy'n gwneud penderfyniadau ar sut i reoli'r Parc Cenedlaethol. Mae'r ardal yn dod o dan naw Awdurdod Unedol. Mae pawb sy'n byw eu bywydau ac yn gweithio neu'n mwynhau eu hunain yn y parc yn chwarae rhan bwysig yn ei reolaeth – yn drigolion, yn ymwelwyr, y rheiny sy'n chwilio am hamdden, yn ffermwyr ac yn bobl masnach a busnes a chyrff mwy. Mae llawer o waith APC felly'n cynnwys partneriaethau. Mae nifer o gyrff cyhoeddus a gwirfoddol ac ymgymerwyr statudol yn gwneud eu gwaith o fewn y Parc. O dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995, mae gan gyrff cyhoeddus a chyrff statudol ddyletswydd i barchu pwrpasau statudol pennu'r ardal yn Barc Cenedlaethol, a'r gobaith yw y bydd hyn yn cael

## CYNALADWYEDD AC AGENDA LEOL 21

1.4 Egwyddor allweddol gwaith APC yw cynaladwyedd. Mae datblygu cynaliadwy yn ddatblygu sy'n cwrdd â'r anghenion presennol heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion eu hunain. Mae'n cynnwys ansawdd bywyd yn y meysydd cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd, ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol. Mae gan APC gyfrifoldeb am yr holl agweddau hyn, ac mae wedi ymrwymo i gynaladwyedd, wrth gyflawni'i bwrpasau statudol ac yn ei rôl fel awdurdod cynllunio lleol. Wrth eu drafftio, gwerthusir yr amcanion a'r dulliau gweithredu a nodir yn y Cynllun hwn am eu heffaith debygol ar yr amgylchedd.

1.5 Mae APC hefyd yn anelu am fwy o gynaladwyedd yn ei arferion mewnol ac yn ei ddefnydd o adnoddau ac ynni.

1.6 Mae Agenda Leol 21 (AL21) yn dod â chynaladwyedd i lefel leol, gan annog pobl fel unigolion ac fel cymunedau i sefydlu cynlluniau gweithredu i'r 21ain ganrif a chyflwyno egwyddorion cynaladwyedd i'w bywydau bob dydd. Mae llawer o waith APC eisoes yn cyfrannu'n uniongyrchol i nodau AL21, gan gynnwys y broses o gynhyrchu'r Cynllun Rheoli hwn a'r mentrau newydd niferus a gynhwysir ynddo. Bydd APC hefyd yn hybu'r broses AL21 o fewn cymunedau lleol, fel yr amlinellir ym mhennod 17.

## CYNLLUN RHEOLI'R PARC CENEDLAETHOL

1.7 Yn ôl Deddf yr Amgylchedd 1995, disgwylir i APC adolygu a chyhoeddi Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol (CRhPC) bob pum mlynedd. Mae gan y Cynllun hwn dair swyddogaeth.

i) Mae'n gosod **gweledigaeth** a chynllun **rheoli** i'r **Parc cyfan**, sydd wedi'u paratoi mewn ymgynghoriaeth â'r cyhoedd gyda sêl bendith nifer o'r cyrff sydd â gwaith sy'n gorgyffwrdd â gwaith APC; ac mae nod a

ii) Mae'n gosod **nod ac amcanion APC** ar gyfer pob agwedd ar ei waith am y pum mlynedd nesaf a thu hwnt. Bydd modd adeiladu strategaethau manylach, ceisiadau am gyllid a rhaglenni gwaith ar sail y rhain.

iii) Mae hefyd yn dangos sut mae APC yn cymryd rhan yn **Agenda Leol 21** ac yn gweithio tuag at **ddatblygu cynaliadwy**. Mae llawer o waith APC eisoes yn cyfrannu'n uniongyrchol i'r rhain.

1.8 Mae dwy ran i CRhPC.

i) Mae'r adran gyntaf yn cynnwys **nod, amcanion a dulliau gweithredu** ar gyfer pob un o'r pynciau sy'n berthnasol i waith APC. Cyflawnir y rhain gan APC ei hun, gan un neu fwy o gyrff eraill, neu, gan amlaf, gan nifer o sefydliadau ar y cyd.

ii) Bydd yr ail adran yn cynnwys **Cynlluniau Rheoli Ardal** (CRhA) ar gyfer pob un o'r 11 rhan wahanol sydd i'r Parc. Ymhob CRhA, ystyrir yr amcanion ar gyfer y pynciau gwahanol yn unol â hunaniaeth arbennig pob ardal, fel y gellir gweld bywyd a rheolaeth yr ardal fel cyfanwaith. Mae hon yn dasg o bwys a fydd yn cael ei gweithredu drwy gyfnod y Cynllun a thu hwnt, gydag ymgynghori eang â'r cyhoedd.

**GRÐP CYNLLUNIAU APC**

1.9 Mae Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol ar frig cyfres o ddogfennau a gynhyrchwyd gan APC.


i) Yn deillio'n uniongyrchol ohono, mae cynigion cyllidol sydd wedi eu cynnwys yn y **Cynllun Cyllidol Corfforaethol** a rhaglenni gwaith blynyddol yn y **Cynllun Corfforaethol.**

ii) Yn ategol i'r rhain mae **strategaethau** ar gyfer bioamrywiaeth (y **Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol**), cyfathrebu, addysg, twristiaeth, trafnidiaeth, beicio a chynnal a chadw hawliau tramwy cyhoeddus. Mae'r rhain yn cael eu datblygu i osod allan agweddau ar waith APC mewn mwy o fanylder.

iii) **Cynllun Datblygu'r Parc** yw'r ddogfen arall fwyaf arwyddocaol yn y gyfres, ac mae hon yn cynnwys y **Cynllun Lleol,** a fabwysiadwyd ym 1999, a'r **Cynllun Datblygu Unedol** (CDU) y mae APC yn ei gynhyrchu yn rhinwedd ei rôl fel yr awdurdod cynllunio lleol. Mae'r Cynllun hwn yn cynnwys polisïau cynllunio defnydd tir, ond daw'r weledigaeth o CRhPC, a bydd yn cael ei fabwysiadu yn 2001. Yn gyffredin i'r CRhPC a'r Cynllun Lleol/CDU mae'r Map Cadwraeth Adran 3, hierarchaeth ffyrdd ac ardaloedd 'dan bwysau' a 'bregus', sy'n cael eu hystyried

1.10 Yn ystod cyfnod Cynllun Rheoli'r Parc, 2000-2005, bydd APC yn cyhoeddi'r rownd gyntaf o **Gynlluniau Perfformio Gwerth Gorau,** yn cynnwys y mesurau perfformio perthnasol ar gyfer adolygu'r holl waith. Bydd y rhain yn dangos lefel perfformiad y gwasanaethau a ddarperir a'r gost, gan arwain at gyfres o gynlluniau gweithredu i wella safon, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd pob gwasanaeth. Defnyddir y rhain wrth adolygu CRhPC yn y dyfodol.

*Diagram 1 Grðp cynlluniau APC*




1.11 Bydd y CRhPC a'r Cynlluniau Rheoli Ardal yn rhoi sail ar gyfer adnabod dangosyddion gogyfer datblygu **Adroddiad ar Gyflwr y Parc.**

**CYNLLUNIAU CYRFF ERAILL**

1.12 Nid yw CRhPC a'r CDU yn cael eu paratoi ar wahân. Mae grwpiau cydlynu strategol rhanbarthol yn cysylltu awdurdodau sy'n paratoi CDU yng Nghymru, ac mae awdurdodau sy'n ffinio yn ymgynghori â'i gilydd i sicrhau cysondeb traws-ffiniol. Nid yw strategaethau cefn gwlad yr awdurdodau unedol yn cynnwys y Parc, ond mae'r naill a'r llall yn ymgynghori â'i gilydd. Mae cynlluniau cyrff eraill fel Asiantaeth yr Amgylchedd yn cwmpasu tir o fewn y Parc. Mae APC wedi cynnwys y cyrff hyn wrth baratoi CRhPC, ac ymgynghorir â'r Parc wrth drefnu Cynlluniau Lleol Asiantaeth yr Amgylchedd.

**CYLLIDO'R PARC CENEDLAETHOL**

1.13 Mae APC yn derbyn gan y Swyddfa Gymreig 75% o wariant cyllid wedi'i gymeradwyo yn flynyddol mewn Grant Parc Cenedlaethol. Daw'r 25% arall oddi wrth saith Awdurdod Unedol rhanbarthol, yn unol â maint eu hardaloedd o fewn y Parc. Penderfynir ar y gyllideb ariannol yn flynyddol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, sy'n rhoi grant 100%. £2,296,361 oedd cytundeb refeniw APC am 1999/2000, gyda lwfans ariannol o £220,000. O eleni ymlaen, y Cynulliad Cenedlaethol fydd yn pennu'r Grant Parc Cenedlaethol.

1.14 Mae APC hefyd yn manteisio ar grantiau gan gyrff fel Cronfa Dreftadaeth y Loteri ac, wrth gwrs, yr Undeb Ewropeaidd. Bydd cyllid Amcan 1 a 2 yn bwysig drwy gydol cyfnod y Cynllun, gyda gorllewin a de'r Parc yn gymwys i hawlio cyfradd gymorth uwch. Bydd y grant Parciau Cynaliadwy hefyd yn sicrhau £0.25m ychwanegol am y tair blynedd o 2000, er mwyn cynnal prosiectau sydd eisoes ar y gweill ynghyd â rhai newydd.

# 2 GWELEDIGAETH AR GYFER Y PARC CENEDLAETHOL

Mae gan Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog dirlun hardd ac amrywiol gyda sawl agwedd wahanol yn creu un cyfanwaith. **Y weledigaeth** yw bod cymeriad y tirlun hwn yn cael ei warchod a'i wella.

Esgeiriau noethion, llyfn a chopaon gwastad yw'r llinell derfyn. Mae sgarpiau o dywodfaen a chalchfaen ar y llethrau sy'n wynebu'r gogledd, gyda chribau hir a gweundir eang yn disgyn i gyfeiriad y de, a henebion cyntefig yma ac acw. **Y weledigaeth** yn bod y mynyddoedd a'r gweundiroedd comin hyn yn parhau'n agored, gan gadw'u hehangder a'u heddwch, yn cael eu rheoli mewn modd sy'n gwella'r amrywiaeth o gynefinoedd llystyfiant a bywyd gwyllt ac yn gwarchod archeoleg yr ardal tra'n parhau i gynnal tir pori a mynediad i'r cyhoedd.

Mae yna goedydd deri ac ynn ar y bryniau, ceunentydd coediog dyfnion a dyffrynnoedd fforestiog a llwyfandiroedd. **Y weledigaeth** yw bod y coetiroedd llydanddail brodorol yn cael eu hymestyn, a phob coedydd yn cael eu hamrywio a'u rheoli'n dda er mwyn diogelu eu gwerth tirluniol ac ecolegol, ac fel sylfaen i ddatblygu diwydiant cynnyrch pren.

Mae yna ddyffrynnoedd llydain a bryniau, tirlun wedi'i amaethu'n hanesyddol gyda chloddiau a waliau a hawl tramwy gan y cyhoedd ar draws y tir. **Y weledigaeth** yw bod y cynefinoedd bywyd gwyllt amrywiol a'r nodweddion hanesyddol a thraddodiadol yn cael eu diogelu a'u gwella a hawl tramwy'r cyhoedd yn cael eu cynnal, a hynny law yn llaw gydag economi amaethyddol llewyrchus sy'n cadw'n fyw yr hen sgiliau traddodiadol.

Mae yna afonydd a nentydd, camlas, llynnoedd a chronfeydd. **Y weledigaeth** yw dŵr o ansawdd uchel a chynefinoedd sy'n cael eu diogelu ar y glannau, gyda phob un ohonynt yn cynnal cyfoeth o fywyd gwyllt amrywiol tra'n rhoi mwynhad

Mae i drefi, pentrefi a ffermydd gwasgaredig y Parc hen, hen hanes. **Y weledigaeth** yw patrwm o hen aneddiadau, adeiladau'n cael eu diogelu a rhai newydd wedi eu cynllunio'n dda. Mae'r Parc yn gartref i 32,000 o bobl, ac mae iddo dreftadaeth Gymreig ac economi, bywyd cymdeithasol a diwylliannol cyfoethog. **Y weledigaeth** yw gweld y rhain yn parhau i ffynnu, yn cynnal y gymuned ac yn estyn croeso i ymwelwyr.

Yn olaf, fel y dengys nifer o'r ymgynghoriadau, **mae'r weledigaeth** yn un sy'n cael ei rhannu gan bawb sy'n byw yn yr ardal arbennig hon, neu sy'n ymweld â hi. Yn gryno, gellir crynhoi'r weledigaeth ar ddyfodol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog fel a ganlyn:

> **Partneriaeth o bawb sy'n byw ac yn gweithio, yn mwynhau ac yn edrych ar ôl y Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog er mwyn diogelu ei brydferthwch, ei gymeriad a'i heddwch, ei dreftadaeth naturiol a diwylliannol a'i ffordd o fyw, er eu lles eu hunain er mwyn i'r Parc barhau i fod yn ffynhonnell ysbrydoliaeth a mwynhad i bawb.**

Yn ystod cyfnod nesaf Cynllun Rheoli'r Parc, nod APC fydd gwireddu'r weledigaeth hon drwy weithio tuag at y canlynol:

- Tir comin a gweundir i barhau'n agored a helaeth o ran cymeriad, wedi'i reoli i gynnal pori, gwella amrywiaeth cynefinoedd llystyfiant a bywyd gwyllt a rhoi mynediad.
- Coetiroedd llydanddail brodorol i'w rheoli'n dda, eu hamrywio a'u hymestyn fel sail i ddatblygu diwydiant cynnyrch coed.
- Cynnal y patrwm tir ffermio traddodiadol – ei gymeriad, ei nodweddion hanesyddol a'i gynefinoedd amrywiol – fel sail i economi amaethyddol ffyniannus.
- Rhoi mwy o gyfleoedd i bobl o wahanol alluoedd a chefndiroedd cymdeithasol i fwynhau gweithgareddau yn y Parc a dysgu am gynaladwyedd y Parc, heb niweidio ei briodoleddau arbennig.
- Meithrin diwydiant twristaidd cynaliadwy, gan gyfrannu at fwynhad y cyhoedd a'r economi lleol.
- Lleihau'r angen i ddibynnu ar geir preifat wrth deithio i'r Parc ac o fewn y Parc.
- Cymunedau iach, cymdeithasol-gynhwysol sydd â mynediad i waith cynaliadwy a chyfleusterau modern, lle mae'r
- Ardal ac Awdurdod Parc Cenedlaethol sy'n fodelau o gynaladwyedd.

# 3 TIRLUN A PHRIODOLEDDAU ARBENNIG

3.1 Mae harddwch naturiol y Parc i'w weld yn amrywiaeth ei wahanol dirluniau. At ddibenion y Cynllun Rheoli hwn, mae'r Parc wedi ei rannu'n 11 o ardaloedd nodweddion tirlun, gyda nodweddion gweledol, naturiol ac amgylcheddol tebyg sy'n cael eu rheoli. Disgrifir y rheiny'n fanylach ym mhennod 19 a'r Cynlluniau Rheoli Ardal.

3.2 Mae nifer o haenau yng nghymeriad tirlun - creigiau, llystyfiant, patrymau caeau ac aneddiadau, adeiladau a chysylltiadau hanesyddol a diwylliannol. Wedi ei osod ar y ffurfiau tir sylfaenol, amaethyddiaeth yw'r allwedd i'r tirlun: ei orffennol a'r presennol a'r ffordd y gallai newid. Ymhlith y dylanwadau eraill mae coedwigaeth, rheoli coetiroedd, hamdden a thwristiaeth, adeiladu cronfeydd dŵr, camlesi a ffyrdd, chwarela a datblygiadau eraill. Mae'r tirlun a'i amrywiol elfennau'n newid yn gyson, yn naturiol neu dan ddylanwad dyn. Bydd y newid hwnnw'n parhau, ac mewn llawer achos mae'n iawn iddo wneud hynny - nid amgueddfa yw Parc Cenedlaethol. Ond, mae'r Llywodraeth yn ystyried bod pennu parc yn Barc Cenedlaethol yn rhoi iddo'r statws uchaf o ran gwarchodaeth cyn belled ag y mae tirlun a harddwch golygfeydd yn y cwestiwn (*Canllawiau cynllunio (Cymru) Polisi cynllunio Diwygiad cyntaf* para 5.3.6).

3.3 Er na chyfeiriwyd at dirlun fel y cyfryw yn Natganiad Rio 1992 nac yn Agenda 21, mae'r targedau a osodwyd ar gyfer hinsawdd, bioamrywiaeth, coedwigoedd a dŵr croyw, a mater cynaladwyedd, i gyd yn dylanwadu ar dirlun. Mae ansawdd tirlun y Parc yn cyfrannu at ansawdd bywyd trigolion ac ymwelwyr, ac felly'n cyfrannu at AL21. Mae hefyd yn ffactor sy'n denu ac yn cadw diwydiant yn Ne Cymru, gan gyfrannu at economi'r rhanbarth cyfan.

3.4 Mae CCGC wedi datblygu methodoleg asesu tirlun a gwneud penderfyniadau a elwir LANDMAP, i'w ddefnyddio fel offeryn rheolaeth ac wrth baratoi cynlluniau datblygu unedol. Mae'n cynnwys gwerthuso a mapio hanes, cymdeithasau diwylliannol ac agweddau gweledol a synhwyraidd, yn ogystal â daeareg a ffurfiau tir, llystyfiant a chynefinoedd. Bydd APC yn ystyried gweithredu LANDMAP yn y Parc yn ystod cyfnod y Cynllun hwn.

3.5 Mae'n ddyletswydd ar APC i hybu cyfleoedd i ddeall a mwynhau nodweddion arbennig y Parc, ac er mwyn gwneud hynny rhaid diogelu'r priodoleddau hyn. At ddibenion y Cynllun hwn, mae APC wedi mabwysiadu fel priodoleddau arbennig y rheiny y sonnir amdanynt amlaf wrth ymgynghori â thrigolion y Parc ac ymwelwyr, sef: y tirlun a harddwch naturiol, tawelwch a llonyddwch, cyfleoedd i gerdded a chael mynediad i wlad agored, mannau agored a'r teimlad o unigedd, tir amaethyddol sy'n cael ei ffermio'n draddodiadol, a bywyd gwyllt. Cafwyd nifer o sylwadau manylach am rannau penodol o'r Parc a'u priodoleddau, ac ymgorfforwyd y rheiny yn CRhA.

3.6 Rhan o weledigaeth APC yw i fynyddoedd a gweundir barhau'n agored, yn helaeth ac yn llonydd, i goedydd gadw'u harddwch, ac i batrwm traddodiadol y tirlun ffermio a'r nodweddion sydd iddo gael eu diogelu.

**PYNCIAU**

I. **LANDMAP**. Mae CCGC yn ystyried y bydd hyn yn gyfraniad sylweddol i ddiogelu tirlun a gwaith rheolaeth ac i CDU yng Nghymru, a bwriada i 50% o Awdurdodau Unedol fod wedi ei fabwysiadu erbyn 2000. Mae'n annhebygol y bydd gan APC ddigon o adnoddau i ddatblygu LANDMAP yn ystod cyfnod y Cynllun hwn, ond bydd yn gweithio mewn partneriaeth â Sir Gaerfyrddin i fesur ei ddefnyddioldeb o'i gymharu â'r systemau presennol sy'n seiliedig ar GIS (system mapio are y cyfrifiadur).

II. **Beth ddylai APC geisio ei ddiogelu a'i wella**. Mae cysylltiadau rhwng tirlun, bioamrywiaeth, hanes a diwylliant yn bwysig, ond mae tirlun yn fwy na'r rhannau hynny gyda'i gilydd, felly, rhaid gwarchod ei elfennau mewn ffordd holistaidd. Gall yr hyn sy'n bwysig amrywio rhwng gwahanol ardaloedd yn y Parc, felly, caiff ffyrdd i sicrhau hyn eu datblygu yn CRhA. Hwyrach mai ychydig ddiogelwch cyfreithiol sydd i rai nodweddion sylweddol fel cloddiau cerrig. Cynhwysir nifer o elfennau tirluniol mewn penodau eraill.

III. **Rheoli newid tirlun** i warchod cymeriad ac amrywiaeth. Mae newidiadau tirlun yn gysylltiedig â newidiadau mewn

meysydd eraill, yn enwedig mewn amaethyddiaeth a rheoli coetiroedd. Dylai newid gael ei reoli i warchod tirlun a phriodoleddau arbennig y Parc heb ei droi'n amgueddfa. Ymhlith y cyfleoedd i ddylanwadu mae Tir Gofal, perchenogi tir gan APC neu gyrff sy'n atebol i'r cyhoedd: CCGC, CC, DC-WW, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

IV. **Map Ad3**. O dan y Deddfau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad, paratôdd APC Fap Cadwraeth Adran 3 o fynydd-dir, gweundir, rhostir a choetir yr ystyriai ei bod yn arbennig o bwysig eu diogelu. Yn ystod cyfnod y Cynllun hwn mae APC yn gweithio i sicrhau bod tir comin a gweundir yn parhau'n agored ac yn helaeth eu cymeriad. Bydd y Map a'i werth i ddiogelu'r tirlun yn cael ei arolygu yn CRhA.

V. **Gwella tirlun**. Gall tirlun gael ei ddiraddio oherwydd tir diffaith, sbwriel a gadael gwastraff yn anghyfreithlon, erydu llwybrau'r ucheldir (gweler y bennod Mynediad), ac weithiau gan waith ffordd (Trafnidiaeth) a datblygiad (gweler y bennod Cynllunio). Ond, ni ddylid gwneud gwaith gwella ar draul bywyd gwyllt na buddiannau archeoleg ddiwydiannol.

VI. **Priodoleddau arbennig y Parc.** Mae angen diogelu'r priodoleddau a nodwyd ym mhara 3.5 er mwyn i'r cyhoedd allu eu mwynhau. Felly, rhaid eu cymryd i ystyriaeth drwy gydol y Cynllun hwn. Gall y priodoleddau arbennig gael eu gloywi wrth ymgynghori ar y Cynllun hwn ac CRhA.

**MONITRO**

3.7 Bydd monitro tirlun yn cael ei ymgorffori yn y CRhA. Nodir nifer o olygfeydd sy'n nodweddiadol o bob ardal, a thynnir lluniau ohonynt ar yr un adeg bob blwyddyn. Gellir nodi hefyd priodoleddau fel synau ac arogleuon na ellir eu gweld. Felly, gellir asesu newidiadau yn y tirlun yn ei gyfanrwydd, a chael "ciplun" o gyflwr nodweddion y tirlun, fel waliau a chloddiau a darparu data ar gyfer adroddiad am "gyflwr y Parc" yn y dyfodol.

3.8 Cafodd terfynau caeau eu monitro yn adroddiad Coleg Silsoe *Monitoring landscape change in National Parks,* a oedd yn cymharu lluniau awyr o 1975 a 1985. Gwnaeth APC arolwg o waliau cerrig ym 1998. Bydd monitro'r rheiny a nodweddion eraill yn y tirlun sydd wedi eu nodi yn cael ei ymgorffori yn y CRhA, os bydd adnoddau ar gael. Byddai ailadrodd yr ymarfer Silsoe a oedd yn ddrud iawn, yn bennaf er mwyn monitro defnyddio tir a mathau o gynefinoedd, yn gofyn am set newydd o luniau awyr o'r Parc.

3.9 O briodoleddau arbennig y Parc sydd wedi eu nodi, cynhwysir tirlun a harddwch naturiol uchod. Delir â monitro bywyd gwyllt yn y bennod ar fioamrywiaeth, a chyfleoedd ar gyfer cerdded a chael mynediad i'r wlad agored yn y bennod ar Fynediad. Bydd monitro tir ffermio traddodiadol yn cael ei gynnwys fel rhan o'r tirlun (uchod), ac yn y bennod ar Ffermio a choedwigaeth.

3.10 Mae tawelwch a llonyddwch ac unigedd yn fwy anodd eu monitro. Defnyddir CRhA i nodi lefelau'r nodweddion hyn ym mhob ardal, a dangosyddion i helpu monitro yn y dyfodol.

**NODAU, AMCANION A GWEITHREDU**

**Nod A: Gwarchod a gwella harddwch nodweddiadol tirluniau'r Parc**

| AMCAN | GWEITHREDU/TARGED | GWEITHREDU GAN: |
|---|---|---|
| 1. Cynhyrchu a gweithredu dull safonol o ddisgrifio ac asesu tirluniau. | i) Datblygu LANDMAP i'w ddefnyddio wrth reoli a gwneud penderfyniadau os yw'n briodol, pan fydd anoddau'n caniatáu | CCGC, Grðp Partneriaeth Tirlun Cymru, UA, APC, AA, YA, ADC |
| 2. Gwarchod a gwella cymeriad yr ardaloedd nodweddion tirlun | i) Diffinio cymeriad ardaloedd CRhA a datblygu strategaethau tirlun manwl ar eu cyfer | APC, CCGC, AA, AFfCG, CC, DC-WW, YG, undebau ffermwyr, tirfeddianwyr, cominwyr |
| | ii) Adolygu Map Ad3 wrth baratoi CRhA | APC, CCGC, partneriaid |
| | iii) Defnyddio Tir Gofal i gael yr effaith orau ar dirlun | CCGC, AFfCG, CC, AA, Cadw, APC, tirfeddianwyr a rheolwyr |
| | iv) Datblygu a defnyddio polisïau CDU | APC |
| | v) Cynghori'r cyhoedd | APC, CCGC |
| | vi) Ystyried prynu eiddo sydd ar gael os dyna fyddai'r ffordd fwyaf effeithiol o warchod ei harddwch naturiol, ei fywyd gwyllt neu ei dreftadaeth | APC, YG, YC, YN |
| | *vii) Gweler hefyd y penodau ar Drafnidiaeth a Chynllunio* | |
| 3. Gwella tirlun, gwarchod natur, gwerth hanesyddol ac amaethyddol tir comin drwy reolaeth gynaliadwy, gan sicrhau mynediad i'r cyhoedd | i) Mynd ar ôl cynigion Meithrin Mynydd | APC, cominwyr, CCGC, grwpiau MM |
| | ii) Cymhwyso gwersi Meithrin Mynydd i dir comin arall sy'n eiddo i APC yn ystod cyfnod y Cynllun | APC, cominwyr, undebau ffermwyr, CCGC, grwpiau defnyddwyr |
| | *iii) Gweler hefyd y bennod Mynediad* | |
| 4. Gwarchod, gwella ac ailosod cloddiau terfyn traddodiadol a nodweddion eraill fydd o werth i dirlun | i) Defnyddio'r gyfraith i ddiogelu cloddiau | APC, tirfeddianwyr |
| | ii) Gwneud cais am arian yr UE i ddiogelu waliau a chloddiau sy'n werthfawr iawn i dirlun ac amaethyddiaeth | APC, tirfeddianwyr |

| | | |
|---|---|---|
| | iii) Lobïo am ddiogelwch deddfwriaethol i gloddiau terfyn traddodiadol | CCGC, CAPC |
| | iv) Defnyddio CRhA i nodi a diogelu perllannau traddodiadol | APC, partneriaid |
| | v) Defnyddio CRhA i nodi nodweddion a gollwyd a photensial eu hadfer | APC, CCGC, MC, DC-WW, YG, undebau ffermwyr, tirfeddianwyr, cominwyr |
| | *vi) Gweler hefyd y penodau Bioamrywiaeth, Archeoleg a Diwylliant* | |
| 5. Gwella tir diffaith | i) Defnyddio CRhA i nodi tir diffaith a gosod targedau | ADC, AU, APC, CC, AA, tirfeddianwyr |
| 6. Atal anharddu'r Parc gan sbwriel, gadael gwastraff yn anghyfreithlon a thaflu hen | i) Rhoi cyhoeddusrwydd i'r gyfraith a chyfleusterau, gorfodi'r gyfraith ar droseddwyr | AU, APC, AA, Cadw Cymru'n Daclus, yr heddlu |
| gerbydau | ii) Clirio sbwirel a thomenni; gosod targedau mewn CRhA | AU, APC, cyrff a mudiadau |
| 7. Nodi'r angen am welliannau eraill | i) Nodi'r rhain wrth baratoi CRhA | APC, CCGC, CC, tirfeddianwyr, y cyhoedd |
| 8. Datblygu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth am y tirlun | *i) Gweler y penodau Dehongli a gwybodaeth ac Addysg* | |
| 9. Monitro newid yn y tirlun | i) Sefydlu system fonitro mewn CRhA | APC |
| | ii) Prynu lluniau awyr o'r Parc cyfan yng nghyfnod y Cynllun | APC |

**Nod B: Gwarchod a gwella nodweddion arbennig y Parc**

| AMCAN | GWEITHREDU/TARGED | GWEITHREDU GAN: |
|---|---|---|
| 1. Gwarchod a gwella tirlun a harddwch naturiol y Parc | *i) Gweler Nod A uchod* | |
| 2. Gwarchod a gwella tawelwch a llonyddwch y Parc | i) Defnyddio CRhA i nodi'r angen am weithredu | APC, partneriaid |
| | ii) Datblygu a defnyddio polisïau CDU | APC |
| | *iii) Gweler y penodau Hamdden a Defnydd milwrol* | |
| 3. Gwarchod a gwella'r cyfleoedd yn y Parc i gerdded a chael mynediad i'r | i) Defnyddio CRhA i nodi problemau a chyfleoedd | APC, partneriaid |
| wlad agored | *ii) Gweler y bennod Mynediad* | |
| 4. Gwarchod a gwella'r mannau agored yn y Parc a'u priodoleddau anghysbell | i) Defnyddio arolwg o Fap Ad3 a ADBaB yn y CRhA i nodi'r rhain a'u diogelu | APC, partneriaid |
| | *ii) Gweler y penodau ar Fynediad a Hamdden* | |
| 5. Gwarchod a gwella tir amaethyddol | i) Nodi a diogelu hyn yn y CRhA | APC, partneriaid |
| yn y Parc sy'n cael ei reoli'n draddodiadol | *ii) Gweler Nod A uchod a'r penodau Bioamrywiaeth a Ffermio a choedwigaeth* | |
| 6. Gwarchod a gwella bywyd gwyllt y Parc | i) Defnyddio CRhA i nodi problemau a chyfleoedd | APC, partneriaid |
| | *ii) Gweler y bennod Bioamrywiaeth* | |
| 7. Hybu ymwybyddiaeth am nodweddion arbennig y Parc | *i) Gweler y penodau Dehongli a Gwybodaeth ac Addysg* | |
| 8. Monitro nodweddion arbennig y | i) Sefydlu systemau monitro yn CRhA | APC |
| Parc | *ii) Gweler penodau eraill* | |

# 4 TREFTADAETH DAEAR

4.1 Mae treftadaeth daear yn cyfeirio at ddaeareg, geomorffoleg a phridd. Creigiau Hen Dywodfaen Coch o’r cyfnod Defonaidd gan mwyaf yw’r rhan fwyaf o’r Parc, ac maent yn ymestyn ar draws y parc ac yn cwmpasu ei begynau yn y gogledd-ddwyrain a’r de-ddwyrain. Hwy sy’n ffurfio tarenni gogleddol y Mynydd Du, y Fforest Fawr, Bannau Brycheiniog a’r Mynyddoedd Duon, lle mae copaon uchaf y Parc, a hefyd y llwyfandiroedd i’r gogledd a’r de o’r sgarpiau.

4.2 Ar hyd terfyn y gogledd-orllewin mae creigiau Ordofigaidd a Silwraidd hþn Canolbarth Cymru yn croesi i Parc. Nhw sy’n creu tirlun y de-orllewin – yr esgeiriau a’r dyffrynnoedd tua’r gogledd-ddwyrain, ac mewn mannau maen nhw’n gyfoethog o ffosilau. Yn gorchuddio’r Hen Dywodfaen Coch tua’r de, yn is i lawr oherwydd pant yr haenau, mae creigiau Carbonifferaidd ymyl ogleddol maes glo De Cymru. Y mwyaf amlwg yw haen o galchfaen, sydd mewn mannau’n creu tarren amlwg. I’r de mae sgarpiau a llwyfandiroedd Grut Melinfaen, ac mae Gwythiennau Glo’n brigo i’r wyneb mewn mannau ar hyd terfyn deheuol y Parc. Yn gyffredinol, mae’r patrwm traenio o’r gogledd i’r de neu i’r gwrthwyneb, gan adlewyrchu’r pant yn yr haenau, gydag eithriadau’n gysylltiedig â’r prif ffawtiau a chwrs gorllewin-de arosodedig Afon Wysg.

4.3 Ymhlith y nodweddion geomorffolegol pwysig eraill mae tarenni, rhaeadrau a cheunentydd, yn aml yn gysylltiedig â’r ddaeareg waelodol. Mae yma ddigon o dystiolaeth o rewlifiant, gan gynnwys sitenni o glog-glai, creigiau rhychiog moel, clogfeini crwydr a mariannau o rewlifau bach wedi datblygu yng nghysgod llwyfandiroedd golethrau. Ymhlith y nodweddion ôl-rewlifol mae llwyfandiroedd a golethrau wedi eu gorchuddio gan fawn, gorlifdir afonydd, a bwâu bach o lifwaddod. Yng nghalchfeini’r Parc gwelir nodweddion carst sy’n bwysig ar raddfa Ewropeaidd, yn cynnwys palmentydd calchfaen a rhai o’r systemau ogofâu hwyaf ym Mhrydain. Mae rhai o’r ogofâu’n bwysig yn archeolegol ac yn hanesyddol, a chaiff nifer ohonynt, ynghyd â nodweddion daearegol a geomorffolegol eraill, eu gwarchod fel SDdGA oherwydd eu pwysigrwydd biolegol a/neu o ran treftadaeth Daear.

4.4 Mae pridd o wahanol fathau yn adnodd amaethyddol pwysig a dyma yw sail y rhan fwyaf o gynefinoedd. Mae hefyd yn llyncdwll carbon ac felly’n ffactor pwysig wrth reoli newid yn yr hinsawdd. Mae asideiddio a llosgi’n niweidio mawn, ac mae llawer iawn o orchudd mawn y Parc wedi dirywio’n fawr.

4.5 Er bod peth o dreftadaeth Daear y Parc yn ddigon cadarn, mae rhannau eraill yn fwy agored i niwed, er enghraifft, oherwydd erydu neu bwysau hamdden, mwyngloddio neu fathau eraill o ddatblygiad. Bydd CRhA yn galluogi rheoli holl nodweddion a gweithgareddau’r Parc mewn ffordd holistaidd, gan ddefnyddio’r egwyddor ddiogelu lle nad oes gwybodaeth ddigonol ar gael. Er na chyfeiriwyd at dreftadaeth Daear yn Natganiad Rio 1992 nac yn Agenda 21, mae’n ffactor ym mioamrywiaeth y Parc, ac yn nhirlun ac amaethyddiaeth y Parc sydd eu hunain yn cyfrannu at ansawdd bywyd trigolion ac ymwelwyr. Felly, mae treftadaeth Daear yn cyfrannu at AL21.

**NODAU, AMCANION A GWEITHREDU**

| **Nod: Gwarchod a gwella treftadaeth Daear y Parc fel cyfraniad i amrywiaeth leol, genedlaethol a byd-eang** | | |
|---|---|---|
| **AMCAN** | **GWEITHREDU/TARGED** | **GWEITHREDU GAN:** |
| 1. Gwarchod safleoedd treftadaeth Daear penodedig | i) Creu cynlluniau rheolaeth SDdGA | CCGC |
| | ii) Cynnwys polisïau mewn CDU | APC |
| | iii) Gweithredu Tir Gofal i ddiogelu safleoedd treftadaeth daear | CCGC, AFfCG, CC, AA, Cadw, APC, tirfeddianwyr a rheolwyr |
| | iv) Cynnwys mesurau yn y CRhA | APC, AFfCG, CCGC, YC, AA, CC, YG, YC, DC-WW, RSPB, undebau ffermwyr |
| 2. Nodi a diogelu safleoedd treftadaeth Daear ail haen | i) Cynnal arolygon | APC, CCGC, YN, RSPB, grwpiau SDGBRh, Cymdeithasau Daeargwyr |
| | ii) Gweithredu Tir Gofal i ddiogelu safleoedd treftadaeth daear | CCGC, AFfCG, CC, AA, Cadw, APC, tirfeddianwyr a rheolwyr |

| | | |
|---|---|---|
| | iii) Cynnwys yn y CllAA | AA |
| | iv) Cynnwys polisïau mewn CDU | APC |
| | v) Cynlluniau Rheolaeth Ardal | APC, AFfCG, CCGC, YN, AA, CC, YG, YC, DC-WW, RSPB, undebau ffermwyr |
| 3. Diogelu ogofâu | i) Paratoi a chynnal cofrestr o ogofâu, a rhoi gwybod am eu bodolaeth | CCGC, CCC, Cofrestr Ogofâu Cambria, APC |
| | ii) Cefnogi ymchwil ac archwilio priodol i ogofâu | APC, CCGC, CCOC, clybiau ogofa |
| | iii) Cyfeirio at ogofâu yn y CDU fel sy'n berthnasol | APC |
| | iv) Datblygu cynlluniau rheolaeth a grwpiau cynghori ar gyfer ogofâu | CCGC, APC (CRhA), tirfeddianwyr, Cadw, CCOC, grwpiau ystlumod, clybiau ogofa |
| 4. Diogelu a gwella gwerth palmentydd calchfaen o ran gwarchod natur | i) Nodi palmentydd calchfaen sy'n agored i niwed; gwneud Gorchmynion os bydd angen | CCGC, APC |
| | ii) Defnyddio Tir Gofal | CCGC, AFfCG, CC, AA, Cadw, APC, tirfeddianwyr a rheolwyr |
| | iii) Cynghori ffermwyr | CCGC, AFfCG, APC, AA, undebau ffermwyr, tirfeddianwyr a rheolwyr |
| 5. Diogelu ffosilau a mwynau | i) Cytuno ar bolisïau ar gasglu ffosilau a mwynau mewn CRhA | APC, CCGC, YC, grwpiau SDGBRh, Cymdeithasau Daearegwyr, colegau |
| 6. Diogelu priddoedd y Parc | i) Datblygu a defnyddio polisïau'r CDU | APC |
| | *ii) Gweler y penodau Bioamrywiaeth, Mynediad, a Ffermio a choedwigaeth* | |
| 7. Gwneud pobl yn fwy ymwybodol o dreftadaeth Daear | *i) Gweler y penodau Dehongli a gwybodaeth,, ac Addysg* | |
| 8. Monitro treftadaeth Daear y Parc | i) Datblygu cynlluniau monitro yn ystod cyfnod y Cynllun | CCGC, AFfCG, APC |

**PYNCIAU**

I. **Nodi safleoedd ail lefel.** Mae yma rai Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SDdGA) daearegol/geomorffolegol, ond ym Mhowys yn unig y nodwyd safleoedd ail lefel, gan gynnwys safleoedd SDGBRh.

II. **Nodweddion calchfaen**. Mae'r rhain yn werthfawr am resymau treftadaeth Daear a bioamrywiaeth, ac mae'n debyg mai'r rhain yw'r nodweddion treftadaeth Daear yn y Parc sydd fwyaf agored i niwed. Er enghraifft, gall palmentydd ac ogofâu calchfaen gael eu niweidio oherwydd anrhaith, chwarela, llygredd a phwysau hamdden, a chaiff llyncdyllau eu defnyddio i dderbyn sbwriel. Gweler hefyd y penodau Bioamrywiaeth a Hamdden.

III. **Mwyngloddio**. Mae hyn o reidrwydd yn niweidio treftadaeth Daear y Parc, er y gall weithiau ddatgelu nodweddion o ddiddordeb a all gael eu bygwth gan dirlenwi wrth fwyngloddio. Gweler y bennod Cynllunio.

IV. **Casglu ffosilau a mwynau**. Gall hyn niweidio ffurfiannau a pheri colli adnoddau gwyddonol. Gwneir hyn weithiau er mwyn elw masnachol. Ond, gall fod o werth gwyddonol ac addysgol, ac mae yna godau arfer. Defnyddir CRhA i asesu unrhyw broblemau a'r strategaethau sy'n ofynnol i'w lleihau.

V. **Pridd**. Mae erydiad pridd yn peri gofid mawr yn y Parc, gan fod y tywydd, pwysau pori a rhai arferion ffermio ac amaethyddiaeth yn effeithio ar hyn (gweler y bennod Ffermio a choedwigaeth). Gellir lleihau erydiad pridd a mawn drwy gael mwy o lystyfiant, a bydd hynny'n un o amcanion y Cynllun Lleol Gweithredu ar Fiomarywiaeth (gweler y bennod Bioamrywiaeth). Mae'n hawdd i lystyfiant gael ei wisgo oddi ar bridd tenau'r mynyddoedd a'r mawn ar lwybrau poblogaidd, gan achosi erydiad (gweler y bennod Mynediad). Gall codi tyweirch, sy'n cynnwys yr haen uchaf, niweidio pridd; mae'r Cynllun Lleol yn cynnwys polisi i reoli hyn.

**MONITRO**

4.6 Hyd yn hyn, nid yw treftadaeth Daear y Parc wedi ei fonitro mewn ffordd drefnus. Mae datblygu system a'i defnyddio yn un o'r amcanion ar gyfer cyfnod y Cynllun hwn. Bydd angen data sylfaenol a dangosyddion ar gyfer adroddiad ar Gyflwr y Parc, a bydd angen monitro'n benodol nodweddion fel palmentydd clachfaen. Y partneriaid a fydd yn monitro fydd CCGC, Partneriaeth Safleoedd Bywyd Gwyllt Brycheiniog, a grwpiau SDGBRh.

# 5 BIOAMRYWIAETH

5.1 Yn ôl y Cytundeb Bioamrywiaeth, a ddeilliodd o Uwch-Gynhadledd y Ddaear yn Rio 1922, mae'n ofynnol i lywodraethau weithredu ar lefel genedlaethol a rhyngwladol i atal colled gyson o fioamrywiaeth fyd-eang fel rhan o Agenda 21. Mae llywodraeth Prydain, fel un o'r rhai a lofnododd y Cytundeb, wedi cynhyrchu strategaeth, sef *UK Action Plan for Biodiversity*, i gwmpasu pynciau fel ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd, darparu gwybodaeth, a gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau. Er mwyn cyrraedd targedau cenedlaethol, mae Cynlluniau Lleol Gweithredu ar Fioamrywiaeth (CLlGF) yn cael eu cynhyrchu i lywio gweithredu ar lefel leol. Mae gan APC ran allweddol yn y gwaith o gynhyrchu CLlGF ar gyfer ardal y parc, a bydd hwnnw'n rhan o'r broses AL21 ac yn gynhorthwy wrth baratoi CDU.

5.2 Mae yn y Parc amrywiaeth eang o gynefinoedd. Bygythir y cynefinoedd hyn a'r rhywogaethau a gynhelir ganddynt gan amrywiol ffactorau sy'n cael eu crynhoi isod.

*Tabl 5.1 Mathau o gynefinoedd a'r bygythion posibl*

| MATH O GYNEFIN | BYGYTHION POSIBL I GADWRAETH NATUR |
|---|---|
| Coetiroedd llydanddail, coetir porfaog, parciau | Pori, diffyg rheolaeth, diffyg adnewyddu coed, chwilfriwio a diffyg maint |
| Coetiroedd conifferaidd | Rheolaeth ddwys yn cael effaith ar safleoedd a rhywogaethau sensitif |
| Prysgwydd a rhedyn | Pori, clirio, plannu coed conifferaidd neu lydanddail estron |
| Tir âr | Newid o gnydau a heuir yn y gwanwyn i rai a heuir yn y gaeaf, troi at borfa barhaol: yn effeithio ar adar sy'n nythu |
| Tir porfa, gweirgloddiau, tir pori heb eu gwella ar yr ucheldir a'r iseldir | Amaethu'n ddwys, coedwigaeth, troi at gynhyrchu silwair |
| Tir porfa clachaidd heb ei wella | Pori a theilio gormodol |
| Rhostir yr iseldir a'r ucheldir | Pori, rheoli llosgi diffygiol, coedwigaeth, amaethu dwysach, datblygiad |
| Cymunedau gorgorsydd a siglenni, llaca, llaid, corsydd a ffeniau | Pori, rheoli llosgi diffygiol, traenio, diffyg rheolaeth, asideiddio, hamdden |
| Camlesi, llynnoedd, pyllau a dŵr rhedegog | Llygredd, hamdden, pori llystyfiant ar hyd y glannau, tynnu dŵr |
| Palmentydd calchfaen, ogofâu | Pori, chwarela, tarfu, gwaredu gwastraff |
| Cynefinoedd clogwyni | Pori, hamdden |
| Yr amgylchedd adeiledig | Datblygiad |

5.3 Mae yna nifer o gyfyngiadau ar reolaeth y cynefinoedd hyn, ac yn anad dim yr angen i ddeiliaid wneud bywoliaeth o'u tir. Ond, gall APC ac asiantaethau eraill fanteisio ar gyfleoedd, wrth roi cyngor neu gymorth grantiau, i leihau effeithiau a all fod yn niweidiol i fioamrywiaeth, gan ddefnyddio'r egwyddor ddiogelwch lle nad oes digon o wybodaeth. Bydd y CRhA yn galluogi rheoli bioamrywiaeth ac adnoddau a nodweddion pwysig eraill gyda'i gilydd mewn ffordd fwy holistaidd, gan wneud y gorau o'r buddiannau i holl amcanion APC.

5.4 Bydd yr elfen fioamrywiaeth yn strategaeth gwarchod natur APC ar ffurf CLlGF. Bydd y cynllun yn nodi ffyrdd i wneud y cyhoedd yn fwy ymwybodol o bynciau bioamrywiaeth, gwella mynediad i wybodaeth, a gwarchod

cynefinoedd allweddol a rhywogaethau sy'n cael blaenoriaeth yn y DU yn ogystal â chynefinoedd a rhywogaethau lleol sy'n arbennig. Caiff yr amcanion a'r targedau eu hymgorffori yn y CRhA.

5.5 Bydd coetiroedd yn cael eu cynnwys yn CLlGF, a chaiff rhaglenni presennol fel Cytundeb Coetiroedd Brodorol APC/CC a Her Coetiroedd Brodorol mewn Parciau Cenedlaethol gan CC eu gweithredu o fewn y fframwaith CLlGF. Targed y cyntaf yw dyblu arwynebedd coetiroedd llydanddail brodorol yn y Parc erbyn 2050 drwy sefydlu 100ha o goetiroedd newydd bob blwyddyn, a thrwy ddod â'r un faint o dan reolaeth bob blwyddyn. Gall y cyd-destun ar gyfer hwn gael ei osod gan Strategaeth Coedwigaeth Cymru wedi ei llunio gan y Cynulliad Cenedlaethol.

5.6 Mae *Cynllun Gweithredu Cadwraeth Natur mewn Parciau Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr* yn tynnu sylw at bynciau allweddol ac yn darparu fframwaith ar gyfer mentrau ar y cyd rhwng APC ac asiantaethau cadwraeth y llywodraeth. Mae'n gweld CRhPC a'r broses LANDMAP fel mecanweithiau i ddatblygu gweledigaeth a'i gweithredu. Dylai fod yn ffordd i integreiddio bioamrywiaeth a rheolaeth ffactorau pwysig eraill, fel treftadaeth archeolegol a gweithgareddau hamdden.

5.7 Rhan o weledigaeth APC yw ymestyn coetiroedd llydanddail brodorol, rheoli cynefinoedd a bywyd gwyllt amrywiol y Parc er mwyn cynyddu eu hamrywiaeth, a gwella ansawdd dŵr.

**PYNCIAU**

I. **Bioamrywiaeth**. Nod y llywodraeth yw diogelu cynefinoedd a rhywogaethau allweddol a chynyddu ymwybyddiaeth a chyfranogiad drwy gynhyrchu CLlGF gan bartneriaethau lleol, yn cael eu hwyluso gan awdurdodau lleol. Mae APC yn cydlynu datblygiad CLlGF ar gyfer ardal y Parc.

II. **Cyrraedd targedau bioamrywiaeth drwy gyfrwng cynlluniau amaeth-amgylcheddol.** Gobeithir y bydd Tir Gofal yn adeiladu ar lwyddiant Tir Cymen i ddarparu atebion ar gyfer rheoli ac adfer cynefinoedd a rhywogaethau allweddol.

III. **Nodi Safleoedd Bywyd Gwyllt ail lefel**. Mae safleoedd statudol fel ACA (SAC) ac SDdGA yn cael eu nodi a'u diogelu i ryw raddau, ond prin yw'r wybodaeth am y niferoedd llawer mwy o safleoedd eraill sy'n cyfrannu at fioamrywiaeth y Parc. Caiff meini prawf ar gyfer nodi safleoedd sydd wedi eu datblygu gan Bartneriaeth Safleoedd Bywyd Gwyllt Brycheiniog eu defnyddio yng ngweddill y Parc erbyn diwedd 2000.

IV. **Rheoli tir comin**. Mae'r prosiect Meithrin Mynydd wedi dangos potensial rheolaeth wedi ei chytuno, sy'n fuddiol i bob diddordeb. Dylai'r gwaith hwn barhau a dylid defnyddio'r dull mewn mannau eraill. Gall fod angen rheoli rhedyn mewn rhai mannau, i ddiogelu tirlun a chynefinoedd.

V. **Rheoli coetiroedd**. Mae'r Map Cadwraeth Adran 3 yn dangos coetiroedd yr ystyria APC ei bod yn arbennig o bwysig eu gwarchod, gan gynnwys coedydd llydanddail y Parc. Mae nifer yn dioddef oherwydd gorbori neu ddiffyg adnewyddu neu reolaeth, ond mae eu gwarchod a'u hadnewyddu'n hollbwysig i warchod tirlun a bioamrywiaeth y Parc. Caiff y Map ei hun ei arolygu gan CRhA yng ngoleuni nodau ac amcanion presennol APC.

VI. **Clystyrau coetirol**. Caiff nod y llywodraeth o gynyddu clystyrau coetirol ei gefnogi lle byddai hynny'n briodol i'r Parc Cenedlaethol, a bydd yna fannau lle byddai plannu sylweddol yn llesol. Fodd bynnag, gallai plannu cynyddol mewn mannau amhriodol gael effaith andwyol ar dirlun a bioamrywiaeth. Rhaid i APC gael rhan yn y broses o wneud penderfyniadau.

VII. **Ansawdd dŵr a lefelau dŵr**. Gall cemegau a defnyddir i drochi defaid, slyri ffermydd ac elifiant diwydiannol achosi llygredd, gan beryglu ansawdd y dŵr a'r bywyd yn y dŵr, gan gynnwys pysgod. Mae lefelau dŵr is oherwydd tynnu mwy o ddŵr a phatrymau tywydd sy'n newid hefyd yn bygwth bioamrywiaeth.

VIII. **Llygredd awyr**. Mae ocsidiau nitraidd a sylffyraidd yn dal i gael eu gollwng yng Nghanolbarth Cymru, gan effeithio'n andwyol ar fawn a llystyfiant yr ucheldir. Gallai hynny gynyddu os caiff gorsafoedd pŵer newydd eu codi i losgi glo, olew, nwy neu goed. Sonnir am effeithiau traffig ym mhennod 14.

IX. **Addysg ac ymwybyddiaeth**. Mae gwneud pobl yn fwy ymwybodol o bynciau bioamrywiaeth yn rhan integredig o AL21 ac o'r broses CLlGF. Mae APC yn defnyddio LNR a mannau addas eraill ar gyfer addysg amgylcheddol gymunedol. Cynhwysir y pwnc hwn hefyd yn y bennod Addysg.

X. **Data a monitro.** Mae angen cronfa ddata gynhwysfawr sy'n hawdd ei chyrchu a'i rhannu, i'w defnyddio gan CRhA a Thir Gofal yn ogystal â CLlGF. Bydd yna gyfres newydd o fapiau awyr o'r Parc i helpu monitro newidiadau mewn cynefinoedd.

**NODAU, AMCANION A GWEITHREDU**

**Nod: Gwarchod a gwella bioamrywiaeth, cynefinoedd a rhywogaethau'r Parc fel cyfraniad i amrywiaeth leol, genedlaethol a byd-eang.**

| AMCAN | GWEITHREDU/TARGED | GWEITHREDU GAN: |
|---|---|---|
| 1. Cynhyrchu Cynllun Lleol Gweithredu ar Fioamrywiaeth ar gyfer y Parc | i) Cynhyrchu CLlGF erbyn diwedd 2000 a dechrau ei weithredu gan ddefnyddio CRhA | APC, CCGC, YN, cofnodwyr bywyd gwyllt, AA, CC, YG, Coed Cymru, DC-WW, RSPB, undebau ffermwyr, trigolion, AU |
| 2. Diogelu safleoedd | i) Paratoi cynlluniau rheoli safleoedd | CCGC |

| | | |
|---|---|---|
| penodedig | ii) Gweithredu Tir Gofal | CCGC, AFfCG, CC, AA, Cadw, APC, tirfeddianwyr a rheolwyr |
| | | APC, CCGC, CCC |
| | iv) Cynnwys cynigion rheolaeth yn y CRhA | APC, CCGC, AA, AFfCG, CC, YG, YC, DC-WW, YN, RSPB, undebau ffermwyr |
| 3. Nodi a diogelu Safleoedd Bywyd Gwyllt ail lefel | i) Gwneud arolygon | APC, CCGC, YN, RSPB, AU |
| | ii) Defnyddio cysylltiadau Tir Gofal | CCGC, AFfCG, CC, AA, Cadw, APC, tirfeddianwyr a rheolwyr |
| | iii) Datblygu a gweithredu polisïau CDU | APC, CCGC, CCC, YN, AU |
| | iv) Eu cynnwys yn y CRhA | APC, CCGC, YN, AA, AFfCG, CC, YG, YC, DC-WW, RSPB, undebau ffermwyr |
| 4. Gwella tirlun, gwarchod natur a gwerth hanesyddol ac amaethyddol tir comin drwy reolaeth gynaliadwy | i) Parhau gwaith y prosiect Meithrin Mynydd | *Gweler y bennod Tirlun* |
| | ii) Nodi safleoedd y cytunwyd arnynt ar dir comin i blannu coed, ar gyfer bywyd gwyllt a stoc | APC, cominwyr |
| | iii) Rheoli llosgi i wella rhostir | Cominwyr, tirfeddianwyr, APC |
| | iv) Dilyn cytundebau pori | APC, cominwyr, undebau ffermwyr |
| | v) Ymchwilio i'r angen am reoli rhedyn | APC, cominwyr, CCGC |
| | vi) Adfer tir mawn sydd wedi ei niweidio | APC, CCGC, cominwyr |
| | *vii) Gweler hefyd y penodau Tirlun, Mynediad, a Ffermio a choedwigaeth* | |
| 5. Gwella tirlun, cadwraeth natur a gwerth amaethyddol ffermdir | i) Gweithredu CLlGF | APC, ffermwyr, tirfeddianwyr, partneriaid CLlGF (gweler uchod) |
| | ii) Cynghori tirfeddianwyr, gan gynnwys trwy Dir Gofal | CCGC, AFfCG, APC |
| | *iii) Gweler y bennod Ffermio a choedwigaeth* | |
| 6. Diogelu coetiroedd presennol | i) Dod â 100ha o goedlannau llydanddail y flwyddyn o dan reolaeth | CC, Coed Cymru, YC, Tir Gofal, APC, undebau ffermwyr, tirfeddianwyr/rheolwyr |
| | *ii) Gweler hefyd y bennod Ffermio a choedwigaeth* | |
| 7. Cynyddu gwerth cadwraeth natur coetiroedd an-frodorol | i) Plannu coed brodorol yn lle rhai an-frodorol mewn coetiroedd hynafol. Data a thargedau mewn CRhA. | MC, CC, YC, Coed Cymru, APC, CCGC |
| | ii) Dileu coedwigoedd an-frodorol o gynefinoedd lled-naturiol a oedd gynt yn bwysig. Data a thargedau yn y CRhA. | MC, CC, YC, Coed Cymru, APC, CCGC |
| | *iii) Gweler hefyd y bennod Ffermio a choedwigaeth* | |
| 8. Creu coetiroedd llydanddail brodorol newydd | i) Creu 100ha o goedlannau llydanddail brodorol y flwyddyn drwy blannu o ffynonellau lleol neu adfywio tir moel | CC, YC, Tir Gofal, APC, CCGC, undebau ffermwyr, tirfeddianwyr/rheolwyr |
| | ii) Annog plannu coed llydanddail eraill | APC, CC, YC, Tir Gofal, CCGC, undebau ffermwyr, tirfeddianwyr/rheolwyr |
| 9. Nodi a diogelu cynefinoedd eraill sy'n cael eu bygwth | i) Defnyddio CRhA i nodi cynefinoedd | APC, CCGC, YN, RSPB |
| | ii) Paratoi CLlAA a'u gweithredu | AA, pobl i ymgynghori â hwy |
| | iii) Cynghori tirfeddianwyr, gan ddefnyddio Tir Gofal os yw'n briodol | APC, CCGC, AffCG, CC, AA, Cadw, YN, DC-WW, RSPB, tirfeddianwyr/rheolwyr |
| 10.Diogelu a gwella | i) Paratoi CLlAA a'u gweithredu | AA, pobl i ymgynghori â hwy, CRhA |
| | ii) Cynghori tirfeddianwyr, gan ddefnyddio Tir Gofal os yw'n briodol | APC, CCGC, AFfCG, CC, AA, Cadw, YN, DC-WW, RSPB, tirfeddianwyr/rheolwyr |
| | iii) Datblygu polisïau CDU a'u gweithredu | APC |
| 11. Diogelu a gwella ansawdd yr awyr | i) Datblygu polisïau CDU a'u gweithredu | AA, APC, CCGC |
| | *ii) Gweler y bennod Trafnidiaeth* | |
| 12. Datblygu ymwybyddiaeth y cyhoedd o fioamrywiaeth a'u cael i gymryd rhan ynddo | i) Datblygu 2 gynllun rheolaeth ymarferol y flwyddyn i gynnwys grwpiau lleol | APC, YN, AU, cymunedau |
| | ii) Defnyddio CRhA i ddatblygu addysg amgylcheddol gymunedol am LNR a thir lle mae cytundebau rheolaeth | APC, YN, tirfeddianwyr, cymunedau |
| | *iii) Gweler y penodau Gwybodaeth a dehongli, ac Addysg* | |
| 13. Gwella argaeledd data a monitro | i) Cynnal arolygon wedi eu rhaglenni | APC, CCGC, YN, AA, AFfCG, CC, CSP, YG, YC, DC-WW, RSPB, undebau ffermwyr |
| | ii) Rhannu data gyda phartneriaid | APC, CCGC, YG, RSPB, YN, AA, YG, CC, Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol |
| | iii) Sefydlu monitro fel rhan o CLlGF. | APC, CCGC, YN, cofnodwyr bywyd gwyllt |
| | iv) Prynu lluniau awyr o'r Parc cyfan yn ystod cyfnod y Cynllun | APC |

**MONITRO**

5.8 Bydd yn y CLlGF systemau monitro ar gyfer y Cynlluniau Gweithredu ar Gynefinoedd a'r Cynlluniau Gweithredu ar Rywogaethau y mae'n eu cynnwys. Gall y rheiny fod drwy'r Parc yn gyfan gwbl neu'n fwy lleol, a'r pryd hwnnw gellir eu cynnal o dan ymbarél yr CRhA. Gobeithir y bydd yr holl fudiadau'n darparu'r data sydd ganddynt i'r holl

bartneriaid. Yn ogystal, nodwyd bod angen cynnal yr arolygon canlynol yn ystod cyfnod y Cynllun: pori ac adfer coetiroedd; asideiddio; safleoedd ail lefel; cynefinoedd 2 gyfnod.

5.9 Ar gyfer y CLlGF ac AL21 mae angen i'r cyhoedd yn lleol gymryd rhan mewn bioamrywiaeth. Gall dangosyddion bywyd gwyllt gael eu nodi yn y CRhA, a gellir annog cymunedau lleol i gymryd rhan yn eu monitro.

5.10 Mae angen data a dangosyddion cynefinoedd ar gyfer y Parc yn gyfan gwbl i gael adroddiad ar Gyflwr y Parc. Mae angen set newydd o luniau awyr ar gyfer hynny.

**STRATEGAETHAU CYSYLLTIEDIG**

5.11 Fel y nodwyd eisoes, bydd y Cynllun Lleol Gweithredu ar Fioamrywiaeth yn gosod allan gynlluniau APC ar gyfer bioamrywiaeth yn fanylach. Bydd yn cysylltu'n agos â'r Cynllun hwn ac yn arbennig â'r CRhA. Os bydd angen, caiff ei gefnogi gan CDU.

# 6 ARCHEOLEG A THIRLUNIAU HANESYDDOL

6.1 Mae tirluniau archeolegol a hanesyddol yn olion o ffordd o fyw'r gorffennol. Cynnyrch digwyddiadau'r gorffennol yw ein presennol ni, a'n dealltwriaeth o'r gorffennol hwnnw yw'r ffactor allweddol i ddeall y presennol a threfnu ar gyfer y dyfodol. Mae'r tirlun yn ei gyfanrwydd yn gynnyrch gweithgarwch dyn yn y gorffennol. Mae patrymau caeau neu ddefnyddio tir, neu systemau trafnidiaeth fel y gamlas a'r tramffyrdd cysylltiedig, yn nodweddion hanesyddol ynddynt eu hunain, ac erbyn hyn edrychir ar y nodweddion unigol - fel meini mawr neu fwntiau - a fu'n ganolbwynt sylw yn y gorffennol fel rhan o gyfanwaith ehangach. O dderbyn bod y tirlun yn ddeinamig ac na ellir gwneud ffosil ohono, mae cynaladwyedd yn gofyn am gydbwysedd rhwng gofynion bywyd cyfoes a diogelu tirluniau a nodweddion hanesyddol pwysig.

6.2 Mae tirluniau hanesyddol y Parc yn niferus ac amrywiol. Mae rhai, sydd wedi eu nodi o ddiddordeb eithriadol yng nghyd-destun Cymru, gydag elfennau cyn-hanesyddol, canoloesol a diwydiannol pwysig, wedi eu cynnwys yn y Gofrestr Tirluniau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru. Mae parciau a gerddi o bwysigrwydd cenedlaethol wedi eu cynnwys gan Cadw/ICOMOS ar gofrestr ar wahân. Gall rhagor o safleoedd gael eu hychwanegu at y ddwy gofrestr. Amrywia safleoedd eraill o'r cyfnod Mesolithig i hen olion diwydiannol nad ydynt ond ychydig ddegawdau oed. O fwy na 3700 o safleoedd sydd wedi eu cofnodi, caiff 256 eu diogelu fel henebion cofrestredig (HG).

6.3 Cadw sy'n darparu'r prif gronfeydd arian ar gyfer gwarchod HG. Mae'r rhan fwyaf o brosiectau gwarchod APC ar HG oherwydd eu pwysigrwydd ac am fod arian ar gael. Mae CBHC yn cadw cofnodion, a hwnnw yw'r prif gorff arolygu. Mae'n talu am arolygon ucheldir a wneir gan APC mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaethau Archeolegol. Mae'r rheiny hefyd yn cadw'r Cofnodion Safleoedd a Henebion, ac yn cyfnewid data gyda APC. Mae gan APC dasg bwysig i atal difrod dianghenraid i nodweddion. Gall safleoedd sydd wedi eu cofnodi gael eu diogelu drwy roi cyngor ar reoli tir, rheoli datblygiad a gwneud pobl yn fwy ymwybodol drwy ddehongli ac addysgu, yn ogystal â thrwy waith cadwraeth ymarferol.

6.4 Dylai'r Cynlluniau Rheoli Ardal fod yn fodd i integreiddio rheolaeth treftadaeth archeolegol y Parc gyda ffactorau pwysig eraill fel bioamrywiaeth a gweithgareddau hamdden. Bydd ymwneud cynyddol CCGC mewn tirluniau hanesyddol (fel y nodwyd ar y cyd â Cadw ac ICOMOS, gweler 6.2 uchod), ac asesiadau'r Ymddiriedolaethau Archeolegol o ardaloedd tirlun yn ychwanegu at y broses hon.

6.5 Mae ymwneud â chadwraeth y dystiolaeth am ffyrdd o fyw'r gorffennol yn un agwedd ar LA 21. Mae addysgu a chynnwys y cyhoedd, yn oedolion ac yn grwpiau ysgol, yn agwedd bwysig ar waith APC.

6.6 Gweledigaeth APC yw i dirluniau hanesyddol a nodweddion archeolegol gael eu diogelu, eu gwarchod a'u gwerthfawrogi gan drigolion lleol ac ymwelwyr.

**NODAU, AMCANION A GWEITHREDU**

| **Nod: Gwarchod, gwella a hybu ac ymchwilio i dreftadaeth archeolegol y Parc** | | |
|---|---|---|
| **AMCAN** | **GWEITHREDU/TARGED** | **GWEITHREDU GAN:** |
| 1. Gweithio gyda chyrff eraill i hybu llunio strategaeth ranbarthol, o fewn fframwaith | i) Gosod strategaeth ranbarthol ar agenda pwyllgorau YA a fforymau eraill. | APC, AU, Cadw, CBHC, CCGC, YA, MC, YG, arbenigwyr |
| cenedlaethol, i ddiogelu, rheoli a gwneud pobl yn fwy ymwybodol o'r amgylchedd hanesyddol | ii) Datblygu strategaeth ar gyfer archeoleg yn y Parc erbyn diwedd cyfnod y Cynllun, gan ddefnyddio CRhA | APC, Cadw, CBHC, YA, MC, grwpiau lleol |

| | | |
|---|---|---|
| 2. Diogelu a rheoli tirluniau, parciau a gerddi hanesyddol | i) Cwblhau Cofrestr o Dirluniau o Ddiddordeb Hanesyddol | CCGC, Cadw, ICOMOS |
| | ii) Diogelu a gwella Parc Gwledig Craig-y-nos a safleoedd eraill sy'n eiddo i APC drwy gynlluniau rheolaeth | APC |
| | iii) Datblygu a defnyddio polisïau yn CDU | APC |
| | iv) Defnyddio CRhA i lunio strategaethau rheolaeth | APC, CCGC, Cadw, YA, tirfeddianwyr |
| 3. Diogelu a gwella safleoedd sydd wedi eu rhestru a'u pennu | i) Gwneud cytundebau, cynnig grantiau | Cadw |
| | ii) Diogelu a gwella rheolaeth HG, gan ddefnyddio CRhA i gynnwys grwpiau a pherchnogion/deiliad lleol | APC, Cadw, MC, AA, DC-WW, tirfeddianwyr, grwpiau |
| | iii) Diogelu a gwella safleoedd sy'n eiddo i APC drwy gynlluniau rheolaeth | APC |
| | iv) Dechrau gwaith cadwraeth a gwaith gwella wedi ei raglennu ar safleoedd | Cadw, APC, CC, DC-WW, MC, tirfeddianwyr |
| | v) Rheoli Safle Treftadaeth Byd posibl Pwll Du | AU, Cadw, perchnogion, APC |
| | vi) Datblygu a defnyddio polisïau yn CDU | APC |
| 4. Ceisio rheoli pob safle'n briodol, gan gynnwys y gymuned leol, a chanolbwyntio ar safleoedd/mathau sy'n cael eu bygwth a'u hesgeuluso | i) Defnyddio CRhA i osod blaenoriaethau | APC, Cadw, YA, MC, tirfeddianwyr |
| | ii) Diogelu a gwella safleoedd sy'n eiddo i APC drwy gynlluniau rheolaeth | APC |
| | iii) Arolygu ffermydd Tir Gofal a chynghori ffermwyr fel y bydd yr arian yn caniatáu | CCGC, Cadw, APC, YA |
| | iv) Diogelu a gwella rheolaeth safleoedd, gan ddefnyddio CRhA i gynnwys grwpiau a pherchnogion/deiliaid lleol. | APC, Cadw, MC, AA, DC-WW, tirfeddianwyr a grwpiau |
| | v) Ceisio cael arian ar gyfer gwaith cadwraeth | APC, Cadw, CCGC, YA |
| | vi) Datblygu a defnyddio polisïau yn y CDU | APC |
| 5. Gwneud pobl yn fwy ymwybodol o archeoleg drwy ysgolion a phrosiectau cymunedol | i) Parhau prosiect Tþ Mawr drwy gydol cyfnod y Cynllun | APC |
| | ii) Gwaith cefnogi i grwpiau hanes lleol | APC, grwpiau lleol |
| | *iii) Gweler uchod a'r penodau Addysg a Dehongli a Gwybodaeth* | |
| 6. Gwella hygyrchedd data a monitro | i) Parhau i wella'r data sydd ar gael, a sicrhau eu bod yn gymathus | APC, YA, CBHC, Cadw, YG, MC |
| | ii) Sefydlu cyfnewid data a system safonau erbyn diwedd cyfnod y Cynllun | CBHC, YA, APC, MC, YG |
| | iii) Gorffen arolwg y Mynydd Du erbyn diwedd cyfnod y Cynllun | YA, CBHC, APC |
| | iv) Arolygon y rhaglen ar dir APC mewn CRhA | APC |
| | v) Gwneud gwaith ymchwil arall, fel y caiff ei nodi | CBHC, Cadw, CCGC, Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru, YA, MC, YG, APC |
| | vi) Datblygu systemau monitro mewn CRHA | APC, Cadw, YA, MC, YG |

**PYNCIAU**

I. Mae angen cael **golwg holistaidd** ar dirlun hanesyddol y Parc a'r strategaethau ar gyfer ei gwarchod, a'u dehongli yng nghyd-destun strategaeth ar gyfer archeoleg yng Nghymru. Yn y Parc bydd CRhA yn gosod fframwaith ar gyfer rheoli tirluniau hanesyddol, yn cael ei gefnogi gan waith CCGC ac YA.

II. **Parciau a gerddi hanesyddol**. Mae'r rhain nawr yn cael eu cydnabod yn briodol, a chânt fwy o sylw yn ystod cyfnod y Cynllun hwn. Mae'r ardd hanesyddol yng Nghastell Craig-y-nos yn rhannol ym meddiant APC.

III. Y CRhA fydd y fframwaith ar gyfer blaenoriaethu rheolaeth **nodweddion hanesyddol a thraddodiadol** unigol, gan gynnwys y rheiny sydd wedi eu hesgeuluso hyd yn hyn, fel ein treftadaeth ddiwydiannol ac eglwysi sydd wedi cau. Mae angen i berchnogion/deiliaid gymryd rhan mewn cynlluniau i wella rheolaeth HG, ac i atal colli nodweddion neu eu gadael i ddirywio.

IV. Bydd cychwyn **Tir Gofal** yn gyfle i arolygu ffermydd sy'n dod i mewn i'r cynllun, os bydd staff ar gael.

V. **Yr angen am fod yn fwy ymwybodol o hanes tirlun.** Mae gwaith APC gydag ysgolion yn Nhþ Mawr yn dysgu am ymwybyddiaeth o gadwraeth ac archeoleg yn ogystal â hanes, ac felly mae'n offeryn cadwraeth hirdymor.

VI. Yr angen am **gronfa ddata archeoleg/adeiladau,** mewnbwn, cynnal a chadw a chyfnewid. Byddai prynu cronfa ddata arbenigol sy'n gymathus ag AT, systemau a chyflogaeth staff i fewnbynnu data yn golygu gweithio lawer yn fwy effeithlon.

**MONITRO**

6.7 Mae angen casglu a datblygu dangosyddion ar gyfer adroddiad ar Gyflwr y Parc. Bydd angen gwybodaeth fanylach os yw cyflwr y safleoedd i gael ei arolygu. Bydd adnoddau'n cyfyngu ar faint ellir ei wneud.

# 7 AMGYLCHEDD ADEILEDIG

7.1 Mae amrywiaeth helaeth o bensaernïaeth werinol yn y Parc: cestyll Normanaidd a ffermdai canoloesol, nifer fawr o adeiladau o'r 17eg a'r 18fed ganrif o fewn y prif aneddiadau, ac ychydig adeiladau gwledig gwych iawn sy'n aml wedi cadw'u nodweddion gwreiddiol fel teils carreg, sgriniau a ffenestri miliynog. Mae yna nifer o dai bonedd gwych ar dir amaethyddol brasach dyffrynnoedd Wysg a Gwy, a rhai ohonynt mewn parciau a gerddi o bwysigrwydd hanesyddol (gweler pennod 6). Mae pensaernïaeth eglwysig y Parc yn gyfoethog iawn, gydag Eglwys gadeiriol Aberhonddu, nifer o eglwysi canoloesol pwysig a rhai capeli Anghydffurfiol cynnar. Mae newidiadau mewn deunyddiau adeiladu (yn bennaf tywodfaen coch a chalchfaen) a gwahanol arddulliau yn rhoi hynodrwydd lleol i dai fferm a bythynnod y Parc, er y gall nodweddion gwreiddiol fod wedi eu celu gan addasiadau diweddarach.

7.2 Mae patrwm aneddiadau a'u cymeriad hefyd yn amrywio ar draws y Parc, o ddyffryn i ddyffryn. Yn gyffredinol, pentrefi bach cryno sydd amlycaf yn y dwyrain, ond patrwm mwy gwasgaredig o ffermydd diarffordd sy'n nodweddu'r gorllewin. Dyfodiad diwydiant yn y 19eg ganrif a fu'n gyfrifol am adeiladu'r bythynnod gweithwyr, y gamlas, melinau o bob math ynghyd â nodweddion eraill y byddai efallai'n well eu hystyried fel archeoleg

7.3 Caiff adeiladau eu diogelu drwy gael eu rhestru gan Cadw, drwy fod yn un o bedair Ardal Gadwraeth y Parc neu drwy fod yn eiddo i gyrff fel yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae yma tua 1500 o adeiladau rhestredig gan gynnwys 29 Gradd 1 ac 86 Gradd II* (Ionawr 1999). Mae Cadw yn darparu cymorth grant i warchod adeiladau eithriadol neu ar gyfer gwaith sylweddol mewn Ardaloedd Cadwraeth, ond nid yw'r arian yn ddigonol i gynorthwyo nifer o adeiladau rhestredig neu heb eu rhestru. Mae APC yn cynnig cyngor ac ychydig gymorth grant, gan gefnogi defnyddio arddulliau, technegau a defnyddiau traddodiadol fel morter calch, fframiau ffenestri derw a lliwiau paent dilys.

7.4 Mae cymeriad amgylchedd adeiledig'r Parc o dan fygythiad oherwydd bod adeiladau rhestredig yn dirywio, oherwydd mân newidiadau mewn adeiladau sydd eisoes yn bod, y dirywiad mewn defnyddio teiliau carreg a defnyddiau lleol traddodiadol eraill, datblygiadau newydd mewn aneddiadau ac yng nghefn gwlad, a cholli defnydd traddodiadol o adeiladau fel ysguboriau. Mae incwm isel ffermydd yn golygu nad oes arian parod ar gael ar gyfer gwaith trwsio. Mae polisïau ar y defnydd o adeiladau, fel er enghraifft, addasu ysguboriau, wedi eu gosod allan yn y Cynllun Lleol (gweler y bennod Cynllunio).

7.5 Rhan o weledigaeth APC yw gwarchod patrymau ac adeiladau hanesyddol amhrisiadwy'r Parc. Maent yn dirywio fel adnodd yn weledol ac yn ddiwylliannol, ac oherwydd eu bod yn ddeniadol i ymwelwyr gallant gyfrannu at economi'r Parc. Mae bod yn gynaliadwy yn awgrymu y dylid gwarchod treftadaeth y gorffennol a'i diogelu, cyn belled ag sy'n bosib, i'r dyfodol, gan gydbwyso hynny ag anghenion cenedlaethau'r presennol a'r rhai sydd i ddod. Mae AL21 yn hybu cynnwys cymunedau wrth lunio a datblygu eu haneddiadau a'u hamgylchfyd. I wneud hyn, mae angen hyrddiad mawr o adnoddau er mwyn gwarchod adeiladau ac aneddiadau yn y Parc Cenedlaethol hwn. (Am datblygiad adeiledig newydd gweler pennod 18).

**NODAU, AMCANION A GWEITHREDU**

| **Nod: Gwarchod, gwella a hybu amgylchedd adeiledig'r Parc** | | |
|---|---|---|
| **AMCAN** | **GWEITHREDU/TARGED** | **GWEITHREDU GAN:** |
| 1. Dylid rhestru pob adeilad o ansawdd y gellir ei restru | i) Ailarolwg llwyr o'r Parc yn ystod cyfnod y Cynllun | Cadw |
| 2. Dylai pob adeilad rhestredig a'i amgylchedd gael ei warchod | i) Datblygu cofrestr o adeiladau sydd mewn perygl erbyn 2000, a'u cynnal a'u cadw | APC |
| a dylid gwella'i gyflwr, gan ganolbwyntio ar adeiladau sydd | ii) Chwilio'n ddyfal am arian i ddiogelu adeiladau gwledig | APC, Cadw, AU, BCC |

| | | |
|---|---|---|
| mewn perygl | iii) Sefydlu ac ariannu prosiect ar gyfer Castell Aberhonddu erbyn 2000 | APC, Cronfa Dreftadaeth y Loteri |
| | iv) Datblygu a defnyddio polisïau yn CDU | APC |
| 3. Diogelu adeiladau sydd heb eu rhestru ac sy'n cyfrannu at dreftadaeth adeiladau'r Parc | i) Datblygu a defnyddio polisïau yn CDU | APC |
| | ii) Gwneud cyfarwyddid erthygl 4 i ddiogelu adeiladau sydd heb eu rhestru mewn Ardaloedd Cadwraeth yn ystod cyfnod y Cynllun | APC |
| | iii) Nodi a dechrau prosiect ymchwil/arolwg yn ystod cyfnod y Cynllun | APC, CBHC, YG, grwpiau lleol |
| | iv) Chwilio'n ddyfal am arian ar gyfer grantiau a chofnodi | APC, Cadw, AU, BCC, CBHC |
| | v) Defnyddio CRhA i flaenoriaethu gwaith | APC |
| 4. Diogelu a gwella aneddiadau a phatrymau aneddiadau | i) Pob cynllun Ardal gadwraeth i gael ei gwblhau yn ystod cyfnod y Cynllun, a'i gyflawni *ad hoc* | APC, AU, grwpiau lleol |
| | ii) Pennu 2 Ardal Gadwraeth fach newydd yn ystod cyfnod y Cynllun | APC, cymunedau lleol |
| | iii) Asesu buddiannau datganiad dylunio pentref Llangatwg, ac ystyried ymgymryd â rhagor | APC |
| | iv) Llunio rhaglen o gynlluniau gwella pentrefi yn ystod cyfnod y Cynllun | APC, AU |
| | v) Parhau i weithio ar gynllun tref Aberhonddu | APC, BCC, Cadw |
| | vi) Datblygu a defnyddio cynigion a pholisïau yn CDU | APC |
| | vii) Defnyddio CRhA i gynllunio gwaith gyda grwpiau lleol | APC |
| 5. Hybu addysg treftadaeth adeiledig ac ymwybyddiaeth ohonynt | i) Defnyddio'r cyfryngau i gynyddu proffil pan fydd cyfle | APC |
| | *ii) Gweler uchod a'r penodau Dehongli a gwybodaeth, ac Addysg* | |
| 6. Datblygu monitro'r dreftadaeth adeiledig | i) Prynu cronfa ddata ddiwylliannol arbenigol a chyflogi staff ar gontract i gofnodi'r data erbyn 2000 | APC |
| | ii) Datblygu strategaeth datblygu adeiladau ac ymchwilio iddynt yn ystod cyfnod y Cynllun | APC, Cadw, CBHC |

**PYNCIAU**

I. **Diogelu adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol.** Dylai pob adeilad sydd o safon rhestru gael ei restru, ond mae ail-arolygu wedi achosi cynnydd o 400% yn nifer yr adeiladau rhestredig yn y Parc, ac mae diffyg arian i'w diogelu. Mae'n ddyletswydd ar APC fel awdurdodau cynllunio i'w gwarchod, ond heb adnoddau ychwanegol. Cyfyngedig yw'r cymorth grant gan Cadw. Rhaid targedu arian arall lle mae ei angen fwyaf, gan roi blaenoriaeth i adeiladau sydd mewn perygl.

II. **Diogelu treftadaeth adeiladau gwerinol y Parc.** Mae'r adeiladau niferus o ansawdd is fodd bynnag yn cyfrannu at gymeriad amgylchedd adeiledig'r Parc. Mae'r polisïau yn y Cynllun Lleol sydd wedi eu llunio i warchod hyn, a'r angen am arweiniad am ddylunio newydd, wedi eu cynnwys yn y bennod Cynllunio, ond mae angen chwilio am ffyrdd ychwanegol. Lle mae newidiadau i gael eu gwneud i adeiladau o bwys, mae angen iddynt gael eu cofnodi gan CBHC neu gan gontractwyr arbenigol os nad yw treftadaeth adeiledig'r Parc i gael ei cholli. Mae i hynny oblygiadau cost.

III. **Aneddiadau.** Mae angen ystyried patrymau aneddiadau a'u hadlewyrchu mewn datblygiad newydd er mwyn i ddatblygiadau ar gaeau gwyrdd beidio â dinistrio ffurf pentrefi. Mater i CDU yw hyn. Mae i gymunedau a grwpiau lleol ran yn y gwaith o warchod a gwella ansawdd aneddiadau, drwy gynlluniau gwella pentrefi a datganiadau dylunio pentrefi, a thrwy gymryd rhan yn CDU. Mae angen asesu buddiannau Datganiad Dylunio Pentref Llangatwg cyn ymgymryd â rhagor o brosiectau.

IV. **Ardaloedd cadwraeth**. Yn yr Ardaloedd presennol mae rhagor o angen gwella ar drefweddi, hwyrach yn gysylltiedig â datganiadau dylunio pentrefi, mewn partneriaeth gyda grwpiau lleol. Mae'n debygol mai ardaloedd bach o fewn aneddiadau a gaiff eu pennu yn y dyfodol, er mwyn gallu canolbwyntio'r adnoddau prin lle y byddant fwyaf effeithiol.

**MONITRO**

7.6 Mae'n anodd blaenoriaethu gwario arian ac amser prin heb ddata priodol. Bydd angen dangosyddion am gyflwr treftadaeth adeiledig'r Parc ar gyfer yr adroddiad ar Gyflwr y Parc. Felly, mae angen gallu cael data'n haws a'u

# 8 DIWYLLIANT A THRADDODIAD

8.1 Cafodd diben cyntaf pennu ardal yn Barc Cenedlaethol ei ymestyn gan y Ddeddf Amgylchedd 1995 i gynnwys, am y tro cyntaf, gwarchod a gwella treftadaeth ddiwylliannol y Parc. Mae “diwylliant” yn cynnwys pob dim mae pobl yn ei wneud, ac mae ”treftadaeth” yn cynnwys pob dim a oedd yn cael ei wneud neu ei feddwl yn y gorffennol, ac sy’n parhau hyd heddiw. Mae’r ddwy bennod flaenorol wedi ymdrin ag agweddau ar dreftadaeth ddiwylliannol sy’n cynnwys nodweddion adeiledig. Mae’r bennod hon yn ymdrin ag agweddau ar ddiwylliant nad ydynt yn cynnwys gwrthrychau diriaethol: iaith, llenyddiaeth, cerddoriaeth, crefydd, coelion, crefftau, celfyddyd, pobl a’r hen ffordd o fyw.

8.2 Mae patrymau a thraddodiadau’r gorffennol a’r presennol ym maes amaethyddiaeth, y defnydd o wneir o dir, a hanes cymdeithasol a diwydiannol yr ardal yn dylanwadu’n gryf ar gymeriad tirlun. Mae cysylltiadau personol ei phobl ynghyd â’u cysylltiadau drwy enwau lleoedd neu â llenyddiaeth a gwleidyddiaeth, yn effeithio ar naws yr ardal. Mae hyn oll yn rhan o hynodrwydd lleol.

8.3 Mae cynaladwyedd yn golygu y dylid gwarchod treftadaeth y gorffennol, ei diogelu i’r dyfodol cymaint â phosib, gan gydbwyso hyn ag anghenion a lles cenedlaethau’r presennol a’r rhai sydd i ddod. Mae diwylliant bywiog a thraddodiadau byw yn cyfrannu at gymuned iach, fel sy’n cael ei bwysleisio gan AL21, a chan eu bod yn ddeniadol i ymwelwyr, maent hefyd yn cyfrannu tuag at economi iach.

8.4 Er bod cyfrifoldeb ar APC i warchod treftadaeth ddiwylliannol, cyrff ac unigolion eraill sy’n fwyaf tebygol o gyflawni’r pwrpasau statudol hyn. Mae diwylliant bywiog yn yr ardal sy’n ffynnu heb gefnogaeth gan APC. Ac nid oes gan APC gyllideb benodol ar ei gyfer. Er hynny, mae APC yn cyfrannu mewn ffyrdd pwysig, er enghraifft, yn ei ymrwymiad i’r iaith Gymraeg. Mae’r rhan fwyaf o’i waith yn ymwneud â gwarchod diwylliant a thraddodiad mewn rhyw ffordd, fel mae’r mwyafrif o benodau’r Cynllun hwn yn ei ddangos. Rhan o weledigaeth APC yw bod treftadaeth gref a bywyd diwylliannol cyfoethog Cymru a’r Gororau a welir yn y Parc yn mynd o nerth i nerth.

**PYNCIAU**

I. **Gwarchod a gwella diwylliant a thraddodiadau’r Parc.** Mae angen i APC ddatblygu’r ffyrdd y mae’n gweithio gydag eraill i helpu gwarchod a gwella diwylliant a thraddodiad yn y Parc. Ceir enghreifftiau yn y tabl o amcanion isod, ac yn y penodau ar Archeoleg, Amgylchedd adeiledig, Gwybodaeth a dehongli, Addysg, Twristiaeth, Ffermio a choedwigaeth a Y Gymuned Leol (penodau 6, 7, 11, 12, 13, 15 a 17). Bydd prosiect hynodrwydd lleol CCGC – y cynllun peilot i’w gynnal yn ardal Sir Gaerfyrddin o’r Parc – yn dathlu pob agwedd ar dreftadaeth ddiwylliannol.

II. **Cofnodi cysylltiadau diwylliannol**. Dylai APC ddefnyddio’r CRhA gyda phartneriaid i edrych i mewn i’r angen o gofnodi a gwerthuso’r cysylltiadau a’r dylanwadau diwylliannol sy’n gwneud pob ardal yn hynod. Byddai hyn yn nodi’r potensial ar gyfer rheoli, ac yn sicrhau bod yr hyn a allai fynd ar goll yn cael ei gofnodi yn y dull mwyaf addas.

III. **Yr iaith Gymraeg.** Gall APC chwarae rôl allweddol yn hyrwyddo treftadaeth ddiwylliannol y Parc a Chymru, drwy ddatblygu’r defnydd o’r Gymraeg yng ngwaith yr Awdurdod. Bydd Cynllun Iaith Gymraeg yr Awdurdod, sydd wedi’i gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, yn parhau i gael ei weithredu, gan gynyddu gwybodaeth o’r Gymraeg ymhlith staff y Parc a’i defnydd yn ein cyhoeddiadau a phob gwaith ysgrifenedig arall.

IV. **Manteisio’n economaidd ar ddiwylliant a thraddodiadau.** Mae llawer o waith APC yn cefnogi bywiogrwydd cymdeithasol ac economaidd y Parc yn cynnwys manteisio ar ddiwylliant a threftadaeth yr ardal. Gweler y penodau Twristiaeth, Ffermio a choedwigaeth a Y Gymuned Leol. (13, 15 ac 17).

**NODAU, AMCANION A GWEITHREDU**

| **Nod: Diogelu, gwella a chynnal bywyd diwylliannol a thraddodiadau'r Parc** | | |
|---|---|---|
| **AMCAN** | **GWEITHREDU/TARGED** | **GWEITHREDU GAN:** |
| 1. Datblygu partneriaethau gyda'r rhai sy'n poeni am fywyd diwylliannol a thraddodiadau | i) Nodi meysydd lle gall APC wneud cyfraniad, a sefydlu cysylltiadau yng nghyfnod y Cynllun. | APC, AU, CCGC, grwpiau lleol ac unigolion |
| 2. Cynnal bywyd diwylliannol a thraddodiadau'r Parc | i) Cymryd rhan yn y prosiect Hynodrwydd Lleol | CCGC, APC, grwpiau lleol |
| | ii) Cefnogi sioeau, digwyddiadau a gwyliau cymunedol yn unol â'r CRhA. | APC |
| | iii) Cynorthwyo mudiadau lleol i geisio am arian ar gyfer prosiectau diwylliannol | APC, grwpiau lleol |
| | iv) Hyrwyddo cysylltiadau diwylliannol ag eiddo APC | APC, AU, grwpiau lleol ac unigolion |
| | v) Trefnu cyrsiau sgiliau traddodiadol a chystadlaethau yn unol â chynlluniau rheoli'r Canolfannau | APC, crefftwyr, grwpiau lleol |
| | vi) Datblygu a chymhwyso polisïau'r CDU | APC |
| | vii) Defnyddio'r CRhA i ddatblygu mentrau hynodrwydd eraill | APC, AU, grwpiau lleol ac unigolion |
| | *viii) Gweler y penodau Dehongli a gwybodaeth, Twristiaeth a Y Gymuned leol* | |
| 3. Cofnodi treftadaeth ddiwylliannol y Parc | i) Defnyddio'r CRhA i nodi pwy sydd â chofnod o beth yng nghyfnod y Cynllun | AU, amgueddfeydd, grwpiau lleol, APC |
| | ii) Dyfeisio un prosiect yn ystod y Cynllun i lanw bwlch a nodwyd yn y cofnodion | AU, amgueddfeydd, grwpiau lleol, APC |
| 4. Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg | i) Gweithredu Cynllun yr Iaith Gymraeg | APC |
| | ii) Datblygu a chymwyso polisïau'r CDU | APC |
| 5. Hyrwyddo treftadaeth ddiwylliannol fel atyniad i ymwelwyr | *i) Gweler y penodau e.e.Twristiaeth, Ffermio a choedwigaeth a Y Gymuned leol* | |
| 6. Datblgyu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o fywyd diwylliannol a thraddodiadau | *i) Gweler uchod a'r penodau Dehongli a gwybodaeth ac Addysg* | |
| 7. Monitro | i) Datblygu dangosyddion yng nghyfnod y Cynllun | APC, CCGC, AU, amgueddfeydd, grwpiau lleol |

**MONITRO**

8.5 Ni fydd monitro iechyd diwylliannol y Parc yn hawdd, ac yn sicr, ni fydd yn rhywbeth y gall APC ei wneud ar ei ben ei hun. Un o'r prif dasgau yn ystod cyfnod y Cynllun hwn fydd datblygu partneriaethau a nodi agweddau amrywiol ar ddiwylliant a thraddodiad yr ardal, er mwyn rhoi sail ar gyfer monitro i'r dyfodol, gan awgrymu dangosyddion addas. Bydd y CRhA yn fframwaith defnyddiol ar gyfer hyn. Mae CCGC yn gweithio ar setiau data i helpu dosbarthu'r cysylltiadau diwylliannol a'u heffaith. Byddai LANDMAP yn helpu i gofnodi a gwerthuso treftadaeth ddiwylliannol, pe rhoid y cynllun ar waith o fewn y Parc.

# 9 MYNEDIAD A HAWLIAU TRAMWY

9.1 Mynediad yw'r allwedd i fwynhau a deall y Parc Cenedlaethol, tra bod ymarfer y corff yn yr awyr agored drwy gerdded, marchogaeth neu feicio'n helpu pobl i gadw'n iach, agwedd bwysig o AL21. Prif amcan hamdden APC yw hyrwyddo mynediad cyhoeddus i'r Parc ac o fewn y Parc, mewn ffyrdd addas a chynaliadwy nad ydynt yn gwrthdaro ag amcanion cadwraeth y Parc. Mae'r bennod hon yn ymdrin â mynediad i wlad agored a rhwydwaith hawliau tramwy'r cyhoedd, gan ymgorffori mynediad i'r rhai llai abl. Mae'r bennod Trafnidiaeth yn ymdrin â mynediad i'r Parc ac o fewn y Parc ar y ffyrdd a thrwy ddefnyddio dulliau eraill o drafnidiaeth.

9.2 Mae'r bryniau agored a'r mynyddoedd yn arglwyddiaethu ar dirlun y Parc, a dyma beth sy'n denu'r mwyafrif o ymwelwyr. Maent gan mwyaf yn dir comin cofrestredig a/neu dan berchnogaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ac mae mynediad ar droed wedi'i ganiatáu'n gyfreithiol neu'n draddodiadol. Mae yna lwybrau a ganiateir dros rai ardaloedd o fynydd-dir nad yw'n dir comin. Cyflwynir deddfwriaeth yng nghyfnod y Cynllun i roi mynediad ar droed i'r cyhoedd i'r ardaloedd a ddiffinnir gan CCGC fel cefn gwlad agored.

9.3 Mae 1,852 km o hawliau tramwy cyhoeddus (HTC) yn y Parc. Mae gan APC gyfrifoldeb, wedi'i ddirprwyo gan awdurdodau lleol etholedig, i sicrhau bod y map diffiniol a'r datganiad wedi'u diweddaru, ac am gynnal a chadw hawliau tramwy cyhoeddus. Sefydlwyd cynllun Mabwysiadu-Llwybr, gan ddefnyddio gwirfoddolwyr i arolygu'r rhwydwaith a nodi problemau. Mae Llwybr Cenedlaethol Llwybr Clawdd Offa yn croesi'r Parc, dwy gangen o'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol, a Llwybr Taf, taith gerdded a beicio sy'n cynnwys hen reilffordd a rhan o lwybr

9.4 Mae APC yn gweithio gyda grwpiau lleol, ac mae'r Grðp Ymgynghorol ar Fynediad a Hamdden (GYFH) yn darparu fforwm i drafod amrywiaeth eang o faterion. Cynrychiolir pobl anabl ar GYFH ac ar y Grðp Llywio Mynediad i'r Anabl, a thrwy gyfrwng y rhain gall APC bennu anghenion pobl ag anableddau. Mae gwaith eisoes wedi'i wneud i ddarparu rhai llwybrau addas, rhan o gyfraniad APC i fater tegwch AL21.

9.5 Rhan o weledigaeth APC yw cynnal a chadw mynediad y cyhoedd i weundir agored ac ar hyd hawliau tramwy, a dylid gwneud pob dim posib i sicrhau bod y Parc a'i gyfleusterau'n agored i bawb, abl ac anabl.

**PYNCIAU**

I. **Mynediad i wlad agored**. Mae mynediad i wlad agored, tir agored a mannau gyda phriodoleddau unigedd ymhlith priodoleddau arbennig y Parc Cenedlaethol. Mae'n bwysig felly diogelu mynediad ar droed lle mae'n bodoli'n barod, gan ei gynyddu lle bo'n bosib. O dan ddeddfwriaeth a fydd yn dod i rym, disgwylir i APC reoli mynediad cyhoeddus i fynydd, gweundir a rhostir. Bydd yn parhau i geisio diogelu buddiannau cadwraeth a ffermio, a rheoli a chynnal a chadw erydiad llwybrau. Bydd y CRhA yn ystyried mynediad gan ferlotwyr i dir comin.

II. **Mynediad i rannau eraill o'r Parc.** Hwyrach bod potensial gwella mynediad y cyhoedd i dir sy'n perthyn i'r cyhoedd, ymddiriedolaeth neu gwmni neu i ardaloedd megis coedwigoedd, a hynny i gerddwyr ac i feicwyr a merlotwyr. Caniateir mwy a mwy o'r gweithgareddau hyn gan goedwigoedd Mentrau Coedwigaeth. Bydd cynllun amaeth-amgylcheddol Tir Gofal a'r CRhA yn helpu nodi cyfleoedd pellach. Mae pennod 10 yn ymdrin â mynediad

III. **Rhwydwaith hawliau tramwy**. Mae angen cynnal a chadw a rheolaeth effeithiol ar y rhwydwaith hawliau tramwy, gan adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Nod APC yw cadw pob hawl tramwy yn agored, wedi'u harwyddo'n ddigonol ac mewn cyflwr boddhaol ar gyfer defnydd gan y cyhoedd. Datblygir strategaeth cynnal a chadw sy'n tanlinellu blaenoriaethau a bydd arolwg o gyflwr llwybrau a system fonitro yn cael eu rhoi ar waith. Mae'r nod o gadw'r hawliau tramwy i gyd yn agored, mewn cyflwr y gellir eu defnyddio ac wedi'u harwyddo erbyn 2000 yn unol â tharged y llywodraeth, yn cael ei lesteirio gan ddiffyg adnoddau gan yr

## NODAU, AMCANION A GWEITHREDU

| **Nod: Hyrwyddo mynediad cyhoeddus i'r Parc er mwyn gallu mwynhau ei briodoleddau arbennig** | | |
|---|---|---|
| **AMCAN** | **GWEITHREDU/TARGED** | **GWEITHREDU GAN:** |
| 1. Cefnogi mynediad ar droed i wlad agored, gan gydnabod pryderon yn ymwneud â thirlun, cadwraeth natur, hanes ac amaethyddiaeth | i) Caniatáu mynediad ar droed i dir comin sy'n eiddo i APC neu a reolir gan yr Awdurdod. | APC, cominwyr |
| | ii) Cefnogi mynediad ar droed sy'n bodoli'n barod i dir comin ac ardaloedd eraill, tra'n aros am ddeddfwriaeth | APC |
| | iii) Defnyddio CRhA i nodi potensial ar gyfer gwella mynediad, a gofynion rheoli | APC, CAM, CyC, defnyddwyr, tirfeddianwyr |
| | iv) Gweithredu'r Prosiect Erydiad Ucheldir i atgyweirio llwybrau sydd wedi erydu. | APC |
| 2. Hyrwyddo mynediad i rannau eraill o'r Parc drwy gytundeb | i) Arolygu tir sy'n eiddo i APC gyda golwg ar greu hawl mynediad. | APC |
| | ii) Hyrwyddo mynediad agored ar droed i goedwigoedd Menter Coedwigaeth, yn ddarostyngedig i anghenion gweithredu | MC |
| | iii) Hyrwyddo mynediad wedi'i reoli i dir MC i feicwyr a merlotwyr | MC |
| | iv) Sicrhau bod cytundebau mynediad ar dir a werthir gan y MC | MC, APC |
| | v) Defnyddio CRhA, Tir Gofal a chyfleoedd eraill i nodi potensial ar gyfer gwella mynediad | CCGC, AFfCG, MC, AA, YG, YC, Cadw, APC, tirfeddianwyr |
| 3. Cynnal yr holl HTC gan sicrhau eu bod wedi'u harwyddo, eu marcio a'u bod mewn cyflwr y gellir eu defnyddio, gan anelu at system HTC gwbl weithredol erbyn 2000 | i) Sefydlu system monitro cyflwr llwybrau a chychwyn y gwaith yng nghyfnod y Cynllun | APC,CyC, CMA, Gwasanaeth Rheoli Llwybr Clawdd Offa, cynghorau cymuned |
| | ii) Atgyweirio a chynnal HTC fel mae adnoddau'n caniatáu | APC, AP, cynghorau cymuned, grwpiau defnyddwyr |
| | iii) Pwyso ar CCC a'r AP am gyllid digonol ar gyfer cytundebau dirprwyo | APC, CCGC, CCC, AP |
| | iv) Arolygu rheolaeth o'r rhwydwaith HTC | APC, GYFH |
| | v) Cynnal Llwybrau Cenedlaethol | CCGC, APC,Gwasanaeth Rheoli Llwybr Clawdd Offa |
| 4. Parhau â gwaith cyfreithiol HTC | i) Ystyried ceisiadau am orchmynion HTC yng ngoleuni nodau ac amcanion yr APC, a'r CRhA | APC, AP, cynghorau cymuned, CyC, CMA, CGGP, defnyddwyr, tirfeddianwyr |
| | ii) Cwblhau 10 ail-ddosbarthiad y flwyddyn o FfDdLlC ym Mhowys | APC |
| | iii) Cywiro anghysonderau y map diffniol fel mae adnoddau'n caniatáu | APC |
| 5. Gwella HTC a'r rhwydwaith llwybrau a ganiateir | i) Nodi ac agor llwybrau a chysylltiadau newydd, yn arbennig ar gyfer beicwyr a marchogion, drwy'r CRhA | APC, AU, CyC, CGGP, mudiadau beicio |
| | ii) Nodi ac agor llwybrau byr newydd o gwmpas aneddiadau drwy'r CRhA | APC, AU, cynghorau cymuned, CyC, CGGP, mudiadau beicio, tirfeddianwyr |
| | *iii) Gweler hefyd y penodau Hamdden a Thrafnidiaeth* | |
| 6. Gwella mynediad i ac o'r Parc i bobl ag anableddau. | i) Defnyddio CRhA i weithio gyda grwpiau lleol i nodi anghenion a chyfleoedd | APC, grwpiau anabl |
| | ii) Darparu a hyrwyddo mynediad cynaliadwy i dir MC | MC |

| | | |
|---|---|---|
| | iii) Sicrhau y gellir cael mynediad i holl adeiladau a thiroedd APC | APC, grwpiau anabl |
| | iv) Datblygu a chymwyso polisïau CDU | APC |
| 7. Rhoi gwybodaeth i bobl a'u haddysgu ar gyfleoedd mynediad a chyfrifoldebau | *i) Gweler y bennod Gwybodaeth a dehongli* | |
| 8. Monitro mynediad y cyhoedd | i) Gweler 3. i) uchod | APC |
| | ii) Defnyddio CRhA i fonitro cyfleoedd mynediad | APC, defnyddwyr, tirfeddianwyr |

**MONITRO**

9.6 Er y cedwir cofnodion hawliau tramwy a'r gwaith a wneir arnynt, nid oes gan APC system fonitro cyflwr y llwybrau eto. Ymgymerir â'r gwaith o sefydlu system o'r fath a dechrau ei gweithredu yng nghyfnod y Cynllun hwn.

9.7 Mae hawl cyfreithiol gan APC i adennill y costau o wneud gorchmynion llwybrau cyhoeddus, drwy godi tâl ar yr ymgeisydd, a fydd yn elwa o ddargyfeirio neu ddileu'r llwybr. Ond, fe all ildio'r hawl i godi tâl mewn achosion priodol. Mae APC yn gweithredu polisi codi tâl fel a ganlyn.

***Polisi A1. Codi tâl am orchmynion llwybrau cyhoeddus***

*Codir tâl sylfaenol ar ymgeiswyr mewn perthynas â chostau gweinyddol gwneud gorchymyn llwybr cyhoeddus ar un llwybr, gyda thâl ychwanegol am bob llwybr ychwanegol. Codir tâl am gost yr hysbysebu ar yr ymgeisydd a bydd yr ymgeisydd yn gyfrifol am gostau creu y llwybr newydd ym mhob achos ac eithrio ii, iii, iv a vi isod. Bydd APC, o bwyso a mesur eu rhinweddau, yn ystyried ildio'i hawl i ran o'r costau ac yn cynorthwyo neu gyfrannu at gostau'r llwybr newydd mewn amgylchiadau arbennig, a bydd yn ildio'i hawl i'r holl gostau pan fo:*

*i)* *llwybr i'w ddargyfeirio o glos fferm weithiol;*

*ii)* *mantais amlwg i'r cyhoedd;*

*iii)* *anghysonderau'r map diffiniol yn cael eu diwygio er lles pawb;*

*iv)* *llwybr i'w ddargyfeirio oddi ar dir sy'n anodd neu'n amhosibl ei dramwy am lawer o'r amser, neu dir sy'n cael ei erydu*

*v)* *y gorchymyn yn fuddiol i ddiogelwch y cyhoedd;*

*vi)* *coedwig wedi tyfu dros y llwybr a phan nad yw clirio'r llinell yn ymarferol neu pan fo'r dewis arall yn fwy hwylus.*

# 10 HAMDDEN

10.1 Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cynnig cyfleoedd i ystod eang o weithgareddau hamdden a hyrwyddo ffordd iach o fyw. Mae'r bennod hon yn ymdrin â hamdden cefn gwlad, ond nid yw'n ymdrin â hawl tramwy na cherdded yng nghefn gwlad, gan fod pennod 9 eisoes wedi sôn am hynny.

10.2 Un o bwrpasau statudol APC yw hyrwyddo cyfleoedd i fwynhau priodoleddau arbennig y Parc (gweler pennod 3). Mae'r rhain yn cynnwys y tirlun a phrydferthwch naturiol, heddwch a thawelwch, cyfleoedd i gerdded a mynediad i wlad agored, mannau agored a phriodoleddau unigedd, tir fferm wedi'i reoli'n draddodiadol a bywyd gwyllt. Yr her i bawb sy'n rhan o hyn yw galluogi cymaint o bobl â phosibl i'w gwerthfawrogi, drwy fwynhau ei gweithgaredd dewisol mewn modd cynaliadwy, a chyda cyn lleied o reolau â phosib i'w llesteirio.

10.3 Mae effaith gweithgareddau hamdden yn amrywio'n fawr o un gweithgaredd i'r llall ac yn ôl ble, pryd a sut y'u cynhelir hwy. Gall gweithgareddau sy'n aml yn cael eu hystyried fel rhai niweidiol fod yn ddiniwed os cânt eu rheoli'n iawn, tra gall gweithgareddau digon diniwed fod yn niweidiol ar raddfa rhy fawr neu yn y lleoliad anghywir. Anaml iawn y bydd gwrthdaro ym maes hamdden, ac fel arfer, gellir datrys unrhyw anghydfod drwy drafod a chyfaddawdu. Mae hyrwyddo mwynhad y cyhoedd o'r Parc a sicrhau bod y Parc yn cael ei warchod yn ddau bwrpas cyfwerth yng ngolwg APC; a dim ond os oes gwrthdaro na ellir ei ddatrys y caiff anghenion cadwraeth y Parc flaenoriaeth, yn unol â Deddf yr Amgylchedd 1995.

10.4 Mae cylchlythyr 13/99 y Swyddfa Gymreig yn nodi y dylai APC hyrwyddo'r ystod ehangaf o gyfleoedd ar gyfer hamdden, tra'n parchu priodoleddau arbennig a chynhwysedd amgylcheddol y Parc. Os caiff y gweithgareddau hamdden a restrir isod eu rheoli'n iawn, fe'u cydnabyddir gan APC fel rhai sydd, ar y cyfan, yn addas i'w cynnal o fewn y Parc Cenedlaethol. Nid yw'r rhestr hon yn holl-gynhwysfawr ond mae'n cynnwys y gweithgareddau mwyaf cyffredin o fewn y Parc.

10.5 Mae Cylchlythyr 13/99 yn cytuno nad yw'n addas i bob math o weithgaredd hamdden ddigwydd ymhob rhan o'r Parc, ac y gallai rhai gweithgareddau achosi difrod neu darfu sy'n annerbyniol. Ni all APC eithrio gweithgareddau o'r Parc fel egwyddor, ond mae'r Awdurdod yn ystyried fod nifer cyfyngedig o weithgareddau, a restrir yn nhabl 10.2 isod, yn debygol o gael effaith annerbyniol ar briodoleddau arbennig y Parc ac nad ydynt ar y cyfan yn addas o fewn y Parc Cenedlaethol. Lle mae'r gweithgareddau yma'n gyfreithlon, bydd APC yn chwilio am ffyrdd i leihau eu heffeithiau niweidiol drwy drafodaeth a thrwy reolaeth dda.

*Tabl 10.1 Gweithgareddau hamdden sy'n debygol o fod yn addas o fewn y Parc Cenedlaethol*

| | |
|---|---|
| Gweithgareddau ar y tir | Crwydro, cerdded bryniau |
| | Dringo clogwyni, mynydda |
| | Cyfeiriannu |
| | Ogofa |
| | Beicio, beicio mynydd |
| | Marchogaeth, merlota, gyrru cerbyd |
| | Gwylio adar a bywyd gwyllt |
| | Ymweld â safleoedd hanesyddol, gweithgareddau diwylliannol |
| | Gwersylla a charafanio |
| Gweithgareddau ar y dŵr | Pysgota |
| | Hwylio, hwylfyrddio |
| | Canŵio/caiacio |
| | Rhwyfo |
| | Hwylio ar gamlas |
| | Llongau model |
| Gweithgareddau yn yr awyr | Gleidio |
| | Gleidio di-bŵer, paragleidio |

*Tabl 10.2 Gweithgareddau hamdden sy'n debygol o fod yn anaddas o fewn y Parc Cenedlaethol*

| | |
|---|---|
| Gweithgareddau ar y tir | Defnydd hamdden o gerbydau oddi ar ffyrdd â wyneb |
| | Ralïau ceir ar y ffyrdd |
| Gweithgareddau ar y dŵr | Cychod modur, sgïo dŵr |
| Gweithgareddau yn yr awyr | Hedfan microlite |
| | Barcuta pŵer neu baragleidio |
| | Hedfan awyrennau model wedi'u pŵeru |
| | Paraesgyn o gychod modur |

10.6 Yn gyffredinol, nid rôl APC yw darparu cyfleusterau hamdden; cyllidir y rhain gan AU neu'n breifat, gyda APC yn gweithredu fel Awdurdod Cynllunio Lleol (gweler y penodau Twristiaeth a Chynllunio). Ond, y Parc sy'n berchen ar Barc Gwledig Craig-y-nos a Chanolfan Fynydd Bannau Brycheiniog, sy'n gyfleusterau hamdden anffurfiol poblogaidd. Mae APC, AU a'r prif ddeiliaid tir corfforaethol yn darparu meysydd parcio gwledig bach a safleoedd picnic. Ymdrinnir â'r problemau sy'n gysylltiedig â dibynnu ar gerbydau modur preifat, sy'n cael eu defnyddio gan bron pawb fel rhan o'u gweithgareddau hamdden neu i gyrraedd rhannau o'r Parc, yn y bennod Trafnidiaeth.

10.7 Mae nodau ac amcanion APC yn seiliedig ar gynaladwyedd a lleihau effaith y gweithgareddau ar yr amgylchedd. Mae hamdden hefyd yn cyfrannu i amcanion AL21; mae'n dod â iechyd, ffitrwydd ac adnewyddiad ysbryd, a gall

10.8 Rhan o weledigaeth APC yw bod y cyhoedd yn cael ei annog i fwynhau'r Parc yn dawel, a chyfleoedd pobl i

**PYNCIAU**

I. **Hyrwyddo hamdden cynaliadwy.** Mae cynaladwyedd mewn gweithgareddau hamdden yn cynnwys diogelu'r tirlun a bioamrywiaeth rhag niwed na ellid ei ddad-wneud, a sicrhau bod yr effaith ar ansawdd bywyd a'r economi lleol yn bositif. Mae'n cynnwys pynciau'n ymwneud â faint o ddefnyddwyr y gall y Parc ymdopi â nhw, parcio, defnydd o drafnidiaeth ac addysg defnyddwyr y Parc. Bydd yn rhaid pennu faint o ddefnyddwyr y gall y Parc ymdopi â nhw drwy'r CRhA gan ddefnyddio dangosyddion megis erydiad llwybr pan fo'n berthnasol, a chynnwys effeithiau cymdeithasol. Mae Grwpiau Gweithredu Twristiaeth yn asesu faint o ddefnyddwyr y gall y Parc ymdopi â nhw mewn rhai aneddiadau (gweler y bennod Twristiaeth).

II. **Cefnogi a rheoli gweithgareddau hamdden**. Mae gan APC rôl yn y dasg o ddarparu strwythur mewnol i sicrhau bod pawb, gan gynnwys pobl ag anabledd, yn mwynhau'r Parc mewn ffyrdd priodol, gan reoli pobl a gweithgareddau. Bydd y CRhA yn darparu fframwaith ar gyfer nodi cyfleoedd a phroblemau ymarferol. Gall darpariaeth gwybodaeth hefyd fod yn arf rheoli ymwelwyr, fel y gwelir yn y bennod Dehongli a gwybodaeth. Mae'r bennod Trafnidiaeth yn cynnwys beicio, a'r bennod Mynediad yn sôn am farchogaeth.

III. **Cyfleusterau hamdden.** Ar y cyfan, y CDU sy'n gyfrifol am gyfleusterau sy'n gwasanaethu'r gymuned leol, megis pyllau nofio.Y CDU sydd hefyd yn gyfrifol am adeiladau eraill a chyfleusterau sydd angen caniatâd cynllunio. Mae yna hefyd bolisïau ar gyfer canolfannau merlota, cyrsiau golff etc yn y Cynllun Lleol. Mae strategaeth twristiaeth APC, (gweler y bennod Twristiaeth) wedi'i gynllunio i wella'r buddiannau a ddaw i gymuned leol yn sgil ymwelwyr â'r Parc. Mae gan APC ei gynllluniau rheoli ar gyfer ei gyfleusterau hamdden ei hun, Parc Gwledig Craig-y-nos a Chanolfan Fynydd Bannau Brycheiniog.

IV. **Problemau a gwrthdaro.** Mae gan APC rôl i helpu datrys gwrthdaro rhwng gwahanol weithgareddau a rhwng hamdden a buddiannau eraill, megis bywyd gwyllt, treftadaeth neu'r gymuned leol. Mae GYFH yn cefnogi dulliau o reoli yn cynnwys parthau, llunio polisïau, cytundebau gwirfoddol a phartneriaethau, a chod CChC ar gyfer datrys gwrthdaro. Ac eithrio pan fo hawliau cyfreithiol yn bodoli, ni fydd APC yn caniatáu gweithgareddau anaddas ar ei dir ei hun. Trafodir y prif bynciau a'r mesurau rheoli isod.

V. **Llyn Syfaddan.** Mae APC wedi penderfynu creu deddfau lleol er mwyn rheoli llongau modur, diogelu bywyd gwyllt y llyn a'i werth hanesyddol ac annog pobl i fwynhau'r heddwch. Bydd CRhA yn gyfle i arolygu'r argymhelliad hwn yng ngoleuni faint sy'n defnyddio llongau modur ar hyn o bryd a rheolau gwirfoddol.

VI. **Digwyddiadau wedi'u trefnu**. Gall digwyddiadau sy'n golygu bod llawer o bobl yn gwneud yr un peth ar yr un pryd yng nghefn gwlad arwain at broblemau niwed amgylcheddol a gwrthdaro ag ymwelwyr eraill â'r parc a chymunedau lleol. Gall rheoli da leihau'r problemau, ond fe all y digwyddiadau hyn fod o fudd economaidd. Ar hyn o bryd, gellir cynnal y rhan fwyaf o ddigwyddiadau o fewn y Parc, ond mae'r nifer ar gynnydd a hwyrach y bydd angen tocio mewn rhai ardaloedd arbennig. Mae APC yn paratoi canllawiau mewn ymgynghoriad â GYFH. Mae'n ymddangos bod y polisïau presennol ar ralïau modur a charafan (gweler paragraff 10.9 isod) yn gweithio'n foddhaol.

VII. **Defnydd grðpiau wedi'i trefnu o'r Parc**. Nid yw'n wybyddys eto pa fath na faint o broblemau a all ddeillio o ddefnydd o'r fath. Mae angen rhagor o wybodaeth am weithgareddau canolfannau masnachol ac ysgolion/grwpiau sy'n dod o'r tu allan i'r Parc, ac mae angen rhagor o gyswllt gyda staff CAAA. Mae'r fyddin hefyd yn defnyddio'r Parc ar gyfer hyfforddiant antur (gweler pennod 16).

VIII. **Moduro hamdden yn y wlad ac ar ffyrdd heb wyneb**. Mae'n anghyfreithlon defnyddio cerbydau modur hamdden ar dir agored oni bai eu bod yn dilyn llwybr sydd â hawl cerbyd. Ym marn APC, mae gyrru cerbydau modur ar lwybrau heb wyneb, heb fod hynny'n cael ei reoli, yn anaddas yn y Parc Cenedlaethol. Rhaid gweithredu er mwyn diogelu'r ardaloedd a'r ffyrdd hyn rhag tarfu ar stoc a chreu difrod i'r tir, ac fel bod eraill yn gallu mwynhau'r llonyddwch. Mae cytundebau gwirfoddol, gorchmynion rheoli traffig a deddfwriaeth yn y dyfodol yn opsiynau gogyfer â mynd i'r afael â'r broblem hon.

IX. **Ardaloedd dan bwysau a bregus**. Datblygwyd y system barthau mewn ardaloedd 'dan bwysau' a 'bregus' er mwyn diogelu ardaloedd a oedd yn cael llawer o ddefnydd neu ardaloedd agored i niwed oherwydd pwysau gofynion hamdden. Cafodd y system ei hymgorffori yn y Cynllun Lleol. Cefnogwyd cynllun 'ardal anghysbell' Bannau Sir Gaerfyrddin gan astudiaeth Meithrin Mynydd. Arolygir yr ardaloedd a'r meini prawf a ddefnyddiwyd i'w diffinio gan y CRhA, a fydd hefyd yn ystyried defnyddio canllawiau sy'n ymwneud â phynciau neu briodoleddau arbennig y Parc yn eu lle.

X. **Hierarchaeth ffyrdd y Parc Cenedlaethol**. Defnyddir yr hierarchaeth ffyrdd wrth ystyried effaith yr argymhellion hamdden a'r gweithgareddau. Gweler y bennod ar Drafnidiaeth.

XI. **Diogelwch.** Mae pryder am ddiogelwch gweithgareddau awyr agored ar gynnydd. Hyfforddir staff APC mewn sgiliau arwain a diogelwch, ac asesir risg pob un o'r gweithgareddau. Yr heddlu sy'n gyfrifol am dimau achub mynydd ac ogof, ac yn amlach na pheidio, timau gwirfoddol sy'n gwneud y gwaith. Mae APC a'r heddlu yn cydweithio er mwyn gwella diogelwch ceir sydd wedi'u parcio mewn ardaloedd anghysbell.

**NODAU, AMCANION A GWEITHREDU**

| **Nod A: Sicrhau bod gweithgaredd hamdden yn amgylcheddol gynaliadwy** | | |
|---|---|---|
| **AMCAN** | **GWEITHREDU/TARGED** | **GWEITHREDU GAN:** |
| 1. Sicrhau nad yw gweithgareddau hamdden yn fwy nag y gall y Parc ymdopi â nhw | i) Defnyddio CRhA i nodi ardaloedd o sensitfrwydd ar gyfer gweithgareddau penodol | APC, CChC, CCGC, cyrff llywodraethu, undebau ffermwyr |
| 2. Lleihau'r defnydd hamdden a wneir o geir preifat a hyrwyddo mathau o drafnidiaeth mwy cynaliadwy | i) Nodi cyfleoedd i leihau anghenion parcio ceir yn y CRhA | APC, AU, MC, DC-WW, YG, defnyddwyr |
| | *ii) Gweler y bennod Trafnidiaeth* | |
| 3. Addysgu defnyddwyr y Parc a darparwyr cyfleusterau hamdden ynglþn â chyfrifoldeb, cynaladwyedd a defnydd addas o'r Parc | i) Datblygu rhaglen gydlynu gydag arweinwyr grwpiau, cyrff a gweithredwyr | APC, CPCAAA, cyrff llywodraethol, gweithredwyr |
| | *ii) Gweler y penodau Dehongli a gwybodaeth, Addysg a Defnydd Milwrol* | |
| 4. Gwella gwybodaeth am faint ac effaith gweithgareddau hamdden. | i) Datblygu a dechrau gweithredu rhaglen ymwchil yng nghyfnod y Cynllun | CChC, APC, cyrff llywodraethol |

| **Nod B: Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd fwynhau priodoleddau arbennig y Parc** | | |
|---|---|---|
| **AMCAN** | **GWEITHREDU/TARGED** | **GWEITHREDU GAN:** |
| 1. Diogelu cyfleoedd addas i hamddena sy'n bodoli eisoes | i) Cynnal perthynas gydlynol gyda thirfeddianwyr a defnyddwyr | APC, CChC, tirfeddianwyr |
| | ii) Defnyddio'r CRhA i fonitro gweithgareddau | APC, CChC, defnyddwyr |

| | | |
|---|---|---|
| | | APC, CPCAAA, awdurdodau addysg |
| 5. Rheoli y defnydd hamdden a wneir o gerbydau oddi ar ffyrdd cyhoeddus â wyneb | i) Ymgyrchu yn erbyn defnyddio cerbydau modur yn anghyfreithlon ar fryniau agored | Yr heddlu, APC, cyrff llywodraethol |
| | ii) Chwilio am bðerau newydd i reoli hyn | APC |
| | iii) Defnyddio CRhA i fonitro llwybrau heb wyneb a phennu'r angen am gynnal a chadw a rheoli | AU, APC, YG, cyrff llywodraethol, defnyddwyr |
| | iv) Cynhyrchu taflen gyngor i bobl sy'n crwydro oddi ar y ffordd, yng nghyfnod y Cynllun | Cyrff llywodraethol, APC, AP |
| | v) Dod o hyd i safleoedd y tu allan i'r Parc ar gyfer beicio modur oddi ar y ffordd | AU, CChC, cyrff llywodraethol |
| 6. Diogelu ardaloedd sy'n cael eu defnyddio'n helaeth/neu sy'n agored i niwed yn sgil pwysau hamdden | i) Arolgyu ADBaB yn y CRhA | APC, CCGC, cymunedau |
| | ii) Ymgorffori ADBaB neu'r hyn sy'n cymryd eu lle yn y CDU | APC |
| 7. Sicrhau bod gweithgareddau hamdden yn cydymffurfio â'r hierarchaeth ffyrdd | i) Defnyddio hierarchaeth ffyrdd yn y CRhA | APC |
| | ii) Ymgorffori hierarchaeth ffyrdd yn CDU | APC |
| 8. Cefnogi defnydd hamdden diogel o'r Parc | i) Cynnal asesiad risg o weithgareddau a arweinir gan APC, a hyfforddi staff | APC, Rhwydwaith Hamdden Cefn Gwlad |

| | | |
|---|---|---|
| | ii) Rheoli meysydd parcio er mwyn lleihau dwyn o geir | Yr heddlu, APC, MC, YG, CRhA |
| | *iii) Gweler y bennod Dehongli a gwybodaeth* | |
| 9. Monitro gweithgareddau hamdden | i) Defnyddio CRhA i ddatblygu systemau monitro ar gyfer gweithgareddau a'u heffeithiau | APC, CChC, defnyddwyr, tirfeddianwyr, cymunedau |

**MONITRO**

10.9 Ni fydd yn bosib monitro pob agwedd ar y defnydd hamdden a wneir o'r Parc, ond bydd rhaglen ymchwil yn cael ei datblygu a'i rhoi ar waith yng nghyfnod y Cynllun. Gan fod cynnal arolygon yn ddrud, dylai cyfres o ddangosyddion ar weithgaredd hamdden fod yn un o'r canlyniadau. Mae gwybodaeth ar gymryd rhan mewn chwaraeon ar gael gan CChC neu gyrff llywodraethol, sydd mewn gwell sefyllfa nag APC i nodi tueddiadau.

10.10 Defnyddir y CRhA i wella gwybodaeth ar faint ac effaith gweithgareddau hamdden, a nodi a oes angen monitro mwy manwl ar gyfer ardaloedd penodol neu weithgareddau megis digwyddiadau cystadleuol a'r defnydd a wneir o'r Parc gan y CAAA. Bydd data arolwg ymwelwyr yn rhan o adroddiad 'Cyflwr y Parc' ac mae CCGC wrthi'n datblygu methodoleg. Bydd hefyd angen mesurau i ddangos faint o bobl a digwyddiadau y gall

10.11 Mae angen polisïau lle mae gan APC beth dylanwad neu reolaeth dros reoliad gweithgaredd. Ymgynghorir ag APC yn achos ralïau modur ar ffyrdd cyhoeddus, sydd wedi'u hawdurdodi gan yr RAC a'r heddlu, ac ar ralïau gan glybiau carafannau 'sydd wedi eu heithrio'.

*Fel arfer, caniateir i ralïau modur ddefnyddio'r ffyrdd yn y Parc os ydynt yn cydymffurfio â chanllawiau polisi:*

*i) ni ddylid defnyddio unrhyw ran o'r daith fwy nag unwaith mewn unrhyw gyfnod o 6 wythnos, na mwy na 6 gwaith mewn blwyddyn;*

*ii) yn ystod y tymor gwyliau (Pasg hyd ddiwedd Hydref) ac ar ddydd Sul, dylid osgoi digwyddiadau yn ystod y dydd ar ffyrdd eilradd a ffyrdd llai y PC neu ddefnyddio'r tir ar eu cyfer, ac eithrio digwyddiadau ffyrdd bach heb yr elfen gystadleuol megis ralïau hen feiciau modur. Parheir i adolygu'r ralïau cerbydau 'clasurol';*

*iii) dylid osgoi defnyddio ffyrdd neu gyfleusterau mewn aneddiadau mawr yn ystod dyddiau gwaith;*

*iv) ni ddylid defnyddio ffyrdd cyhoeddus heb wyneb, traciau na llwybrau os ydynt yn debygol o gael eu difrodi;*

*v) nid ddylid caniatáu unrhyw effeithiau niweidiol ar 'ardaloedd dan bwysau' nac 'ardaloedd bregus'.*

*Bydd APC yn caniatáu ralïau carafannau yn y Parc os cydymffurfir â'r canlynol:*

*i) uchafswm o 5 digwyddiad a chyfanswm o 15 noson y flwyddyn mewn unrhyw un safle;*

*ii) seibiant o 4 wythnos o leiaf rhwng digwyddiadau ar yr un safle;*

*iii) cyfyngu maint y digwyddiad yn unol â'r amgylchiadau (megis amser o'r flwyddyn, tirlun, neu faint o gerbydau a all deithio ar y ffordd);*

*iv) na fydd effeithiau andwyol ar 'ardaloedd dan bwysau' neu 'ardaloedd bregus', ar fioamrywiaeth na'r tirlun, nac achosi unrhyw broblemau mawr eraill.*

10.12 Mae APC yn mabwysiadu canllawiau ar gyfer digwyddiadau chwaraeon a rhai sy'n gosod sialens, gan ddilyn canllawiau'r CCGC a CChC. Mae'r canllawiau, sy'n cymryd i ystyriaeth natur y digwyddiad (digwyddiad i bobl ar droed, ar feic neu i ferlotwyr) a'r nifer sy'n cymryd rhan, yn rhoi cyngor ar gynllunio a rheoli digwyddiad yn llwyddiannus. Anogir trefnwyr i ymgynghori ag APC a thirfeddianwyr ymlaen llaw, osgoi dyddiadau a lleoliadau anaddas, parchu anghenion pobl leol, paratoi'n drylwyr a chlirio ar ôl y digwyddiad. Bydd GYFH ac APC yn penderfynu a ddylid cefnogi digwyddiad ai peidio, ond ni all APC ond rheoli digwyddiadau ar dir yr Awdurdod.

# 11 DEHONGLI A GWYBODAETH

11.1 Mae darpariaeth wybodaeth a dehongli APC yn cyfrannu at gyflawni ei ddau bwrpas statudol. Mae'n cyfrannu at ddealltwriaeth a mwynhad pobl o'r Parc gan ddehongli ei dirlun, ei fywyd gwyllt a'i dreftadaeth ddiwylliannol, ac yn egluro pwrpas, polisïau a gwaith APC. Mae dealltwriaeth o'r fath yn bwysig wrth annog pobl i ofalu am y Parc a'i warchod, gan gefnogi prif bwrpas APC. Gall darparu gwybodaeth hefyd fod yn arf i reoli ymwelwyr, helpu i ddiogelu ardaloedd sy'n cael eu gor-ddefnyddio neu ardaloedd sy'n sensitif i bwysau ymwelwyr.

11.2 Mae darpariaeth wybodaeth a dehongli APC felly'n cyfrannu at gynllun Gwasanaethau Ymwelwyr yn cyfrannu ymhellach i gynaladwyedd ac amcanion AL 21 drwy brynu gwasanaethau arlwyo a chyflenwadau a gwasanaethau eraill yn lleol, cyn belled ag sy'n bosib, rhoi marchnad i grefftau a gynhyrchir yn lleol, cynnal ffeiriau a digwyddiadau eraill, a sicrhau bod y canolfannau ar gael i'w defnyddio fel mannau cyfarfod ar gyfer grwpiau cymuned.

11.3 APC sy'n rhedeg Canolfan Fynydd Bannau Brycheiniog a Pharc Gwledig Craig-y-nos, ill dau ynddynt eu hunain yn atyniadau i ymwelwyr gydag arddangosfeydd dehongliadol, sgyrsiau a digwyddiadau, a chyfleoedd i hamddena'n anffurfiol. Mae eu staff, a staff tair canolfan wybodaeth APC o fewn neu'n agos i'r Parc, yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr a gwasanaeth cynghori i ymwelwyr ar ble i fynd, beth i'w weld a sut orau i fwynhau eu

11.4 APC a'r AU sy'n rhedeg y canolfannau gwybodaeth ar y cyd, gyda'r AU yn rhedeg yr ochr Canolfan Groeso a'i wasanaeth bwcio-gwely. Mae APC wedi sefydlu deg asiantaeth wybodaeth pentref mewn siopau bychain ledled y Parc, er mwyn darparu rhwydwaith fwy cynhwysfawr o bwyntiau gwybodaeth i ymwelwyr a chynyddu manteision twristiaeth yn lleol. Mae gan APC hefyd drelar symudol wedi'i gynllunio'n bwrpasol i ddarparu dehongliadau mewn sioeau a digwyddiadau lleol.

11.5 Mae APC yn cynhyrchu ystod o gyhoeddiadau i hybu dealltwriaeth o amrywiol agweddau ar y Parc, neu i helpu pobl i fwynhau eu hymweliad. Caiff y rhain eu marchnata'n bennaf drwy'r canolfannau ymwelwyr a gwybodaeth, sydd hefyd yn gwerthu llenyddiaeth berthnasol arall. Fe'u hyrwyddir hefyd mewn siopau o fewn a thu allan i'r Parc ac yn y gwahanol letyau i dwristiaid.

11.6 Mae gan APC nifer o ffyrdd eraill o gyfathrebu â'r cyhoedd lleol ac ymwelwyr, i egluro ei weithgareddau, trosglwyddo neges cadwraeth a chefnogi'r gymuned leol. Mae'r rhain yn cynnwys ei raglen o deithiau tywys, amrywiaeth o ddigwyddiadau wedi'u trefnu (gweler y penodau Twristiaeth a Ffermio a choedwigaeth), presenoldeb mewn sioeau lleol, a mynd i siarad â grwpiau lleol ar wahoddiad. Mae APC yn ymgymryd â'r gwaith hwn ei hun ac mewn partneriaeth ag eraill. Mae'n rhan o weledigaeth yr APC fod pobl yn gallu dysgu am y Parc a'i fwynhau, a dylem bob un barhau i rannu'r weledigaeth hon.

**NODAU, AMCANION A GWEITHREDU**

**Nod: Hyrwyddo dealltwriaeth o briodoleddau arbennig y Parc Cenedlaethol ymhlith trigolion ac ymwelwyr, ynghyd â**

| AMCAN | GWEITHREDU/TARGED | GWEITHREDU GAN: |
|---|---|---|
| 1. Cyfathrebu statws cenedlaethol y Parc a rôl a gwaith APC yn effeithiol â thrigolion y Parc ac ymwelwyr | i) Cwblhau strategaeth gyfathrebu yng nghyfnod y Cynllun a dechrau ei gweithredu | APC |
| | ii) Llunio a dechrau gweithredu cynllun o weithdai ar waith APC | APC, grwpiau cymuned |
| | iii) Cynhyrchu strategaeth i arwyddo ffiniau'r Parc yn y CRhA | APC |
| | iv) Ymestyn swyddogaeth wybodaeth gwasanaeth warden yn | APC |

| | | |
|---|---|---|
| | ystod cyfnod y Cynllun | |
| 2. Annog y cyhoedd i ddeall a gwerthfawrogi harddwch naturiol, ei briodoleddau arbennig, ei hanes, ei ddiwylliant a'i ffordd o fyw | i) Datblygu strategaethau dehongli ar gyfer ardaloedd a'r Parc cyfan | APC, CCGC, BCC, YG, UA, CC |
| | ii) Datblgyu canolfannau ymwelwyr yn unol â chynlluniau rheoli | APC, grwpiau lleol |
| | iii) Hwyluso cynhyrchu cyhoeddiadau a datblygu technegau dehongli dwyieithiog eraill erbyn diwedd cyfnod y Cynllun, gan ehangu ar staff APC . | APC, AU, MC, BCC, YN |
| | iv) Cynhyrchu gwefan i'r Parc yn ystod cyfnod y Cynllun | APC |
| | v) Trefnu digwyddiadau yn dangos bywyd a gwaith yr ardal gan gynnwys prosiectau Mileniwm (*Gweler hefyd yr adrannau ffermio a choedwigaeth)* | APC, AU, CC, YN, grwpiau cymuned |
| | vi) Trefnu teithiau cerdded blynyddol a rhaglen o ddigwyddiadau i ddehongli'r Parc a gwaith APC | APC, YN Cymdeithas Parc Bannau Brycheiniog |
| | vii) Cysylltu â chyhoeddwyr etc i ddylanwadu ar wybodaeth | APC, CC, DD-WW, YG, cyhoeddwyr |
| | viii) Gweler 1. iv) uchod | APC |
| 3. Darparu gwybodaeth a chyngor addas a chost-effeithiol er budd defnyddwyr a busnesau lleol | i) Adolygu rheolaeth canolfannau gwybodaeth y Parc a'r Canolfannau Croeso ac integreiddio hyrwyddo pwrpasau'r Parc Cenedlaethol, twristiaeth a hynodrwydd lleol | APC, AU, Fforwm Twristiaeth y Bannau, BCC |
| | ii) Adolygu gwaith yr Asiantaethau Gwybodaeth mewn Pentrefi gan gynyddu'r nifer i 20 yng nghyfnod y Cynllun | APC, siopau mewn pentrefi, cymunedau |
| | iii) Defnyddio'r CRhA i adolygu dylanwad darparu gwybodaeth ar ymddygiad ymwelwyr, rheolaeth a diogelwch | APC, aseswyr allanol, yr heddlu |
| | iv) Ehangu staff i hwyluso cynhyrchu cyhoeddiadau a thechnegau gwybodaeth dwyieithiog eraill erbyn diwedd cyfnod y Cynllun | APC |
| | v) Cynhyrchu papur newydd blynyddol i ymwelwyr yn 2000 | APC |
| | vi) Ateb neu gyfeirio pob cais am wybodaeth i'r Parc | APC |
| 4. Gwerthuso llwyddiant ac effeithiolrwydd gwybodaeth a dehongli o fewn y Parc | i) Dyfeisio a gweithredu cynllun gweithredu erbyn diwedd cyfnod y Cynllun | APC, CCGC |

**PYNCIAU**

I. **Strategaeth Gyfathrebu**. Bydd APC yn paratoi strategaeth fydd yn cwmpasu pob agwedd ar gyfathrebu: cysylltiadau cyhoeddus, y cyfryngau, deunydd ysgrifenedig a llafar, dehongliad, canolfannau ymwelwyr a gwybodaeth, y gwasanaeth addysg (gweler pennod Addysg) a chyhoeddiadau cyfeiriadol. Cyn belled ag y mae'r Cynllun hwn yn y cwestiwn, yr amcan allweddol yw hyrwyddo dealltwriaeth o briodoleddau arbennig y Parc ymhlith y cyhoedd, a fydd yn golygu gweithio mewn partneriaeth gyda grwpiau a chyrff eraill. Bydd y strategaeth hon hefyd yn cynnwys cyfathrebu mewnol o fewn APC, arddull fewnol a delwedd gorfforaethol APC. Mae gan CAPC ran i chwarae wrth hyrwyddo delwedd gorfforaethol y teulu o barciau cenedlaethol.

II. **Cyrraedd y cyhoedd**. Yn ôl arolwg ym 1994, dim ond 4% o ymwelwyr y Parc dderbyniodd wybodaeth o ganolfan APC. Fel rhan o'r strategaeth gyfathrebu, asesir effeithiolrwydd y gwaith hwn, a'r ystod o wybodaeth a deunydd dehongliadol a ddatblygwyd, i gynnwys papur i ymwelwyr, gwefan, a CD-Rom y Parciau. Mae rhaglenni digwyddiadau a theithiau tywys APC hefyd yn cyfrannu, gyda'r teithiau wedi'u hanelu at rai sy'n llai cyfarwydd â cherdded. Bydd y CRhA yn helpu i benderfynu beth ellir ei wneud i hyrwyddo ymwybyddiaeth a dylanwadu ar ymddygiad ymwelwyr, a sut i baratoi strategaethau dehongliadol, fel sail i strategaeth ar gyfer y Parc.

III. **Rheoli canolfannau ymwelwyr.** Rhaid adolygu a diweddaru cynlluniau rheoli y ganolfan ymwelwyr a'r parc gwledig er mwyn creu a chynnal gwerth gorau er gwaethaf cyfyngiadau ar adnoddau. Mae eu gallu i ymdopi â niferoedd, yn arbennig yr ardaloedd sy'n amgylchynu'r canolfannau neu lle mae gan APC gyfrifoldebau rheoli

IV. **Canolfannau gwybodaeth ac asiantaethau gwybodaeth mewn pentrefi.** Y nod, yn unol â'r hyn a fynegir yn *Strategaeth ar gyfer Twristiaeth Gynaliadwy ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog*, (gweler pennod Twristiaeth) yw sefydlu system gydlynol o ddarparu gwybodaeth ledled y Parc. Adolygir sut y gweithredir ac y rheolir y canolfannau sydd yno eisoes, er mwyn rhesymoli gwaith APC a'r AU a darparu'r gwasanaeth gorau posib. Mae angen cysylltiadau cadarnach gyda rhai Canolfannau Croeso sy'n cael eu rhedeg yn breifat. Adolygir defnydd a gwerth yr asiantaethau yng nghyd-destun y CRhA, ac os yn briodol, cynyddir y nifer i 20 yn ystod cyfnod y Cynllun.

V. **Yr Iaith Gymraeg.** Mae Cynllun yr Iaith Gymraeg APC hefyd yn cynnwys cynhyrchu cymaint o ddeunydd ag sy'n bosib yn ddwyieithog.

**MONITRO A GWERTH GORAU**

11.7 Mae angen monitro a gwerthuso darpariaeth wybodaeth a dehongli APC, yr AU a phartïon eraill o fewn y Parc, ynghyd â'u heffeithiolrwydd. Mae canlyniadau arolygon 1994 yn dangos nad yw canolfannau gwybodaeth yn

cyrraedd digon o ymwelwyr yn effeithiol; maent yn cael eu hasesu ar hyn o bryd yn unol â safonau arfer da y cytunwyd arnynt yn genedlaethol. Rhaid asesu gwasanaethau dehongliadol a gweithgareddau megis llwybrau, sgyrsiau ac arddangosfeydd yn erbyn amcanion a nodwyd. Hwyrach y bydd angen mwy o arolygon ymhlith ymwelwyr, gyda'r data a gesglir yn ymwneud ag uned y Parc yn hytrach nag ardaloedd yr AU. Mae'n bosib y bydd Cynlluniau Rheoli Ardal yn dangos fod agweddau neu ardaloedd o'r Parc wedi'u hesgeuluso neu eu gor-bwysleisio.

11.8 Bydd angen dangosyddion perfformiad Gwerth Gorau er mwyn dangos fod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n effeithlon ar wasanaethau o safon uchel. Mewn perthynas â gwasanaethau gwybodaeth a dehongli'r Parc, bydd Gwerth Gorau yn chwarae rhan yn y gwaith o sicrhau'r cydbwysedd gorau rhwng safon y gwasanaeth, gan gynnwys hyd y tymor, a'r angen i gynhyrchu incwm a chynnal yr economi. Cynhelir arolygon gwasanaeth Gwerth Gorau ar y canolfannau ymwelwyr, gwybodaeth a dehongli ymhlith eraill yn ystod 2000/1, yn unol â'r rhaglen Gwerth Gorau.

**STRATEGAETHAU CYSYLLTIEDIG**

11.9 Fel y nodwyd uchod, bydd strategaeth gyfathrebu i'r Parc a gwaith APC yn cael ei pharatoi yng nghyfnod y Cynllun. Datblygir strategaethau dehongli i'r Parc cyfan ac i'r ardaloedd o'i fewn, gan ddefnyddio'r Cynlluniau Rheoli Ardal.

V. **Gwerthuso.** Dyfeisir dulliau o werthuso effeithiolrwydd gwaith addysgol APC yn ystod cyfnod y Cynllun, mewn cydweithrediad â'r Parciau Cymreig eraill, i lunio rhan o'r strategaeth addysg.

**NODAU, AMCANION A GWEITHREDU**

**Nod: Meithrin dealltwriaeth o ddatblygu cynaliadwy a materion amgylcheddol, yn enwedig priodoleddau arbennig y Parc Cenedlaethol, a gwaith APC, ac annog agweddau ac ymddygiad fydd yn sicrhau dyfodol cynaliadwy.**

| AMCAN | GWEITHREDU/TARGED | GWEITHREDU GAN: |
|---|---|---|
| 1. Datblygu strategaeth addysg APC | i) Diwygio a gweithredu strategaeth addysg yn ystod cyfnod y Cynllun. | APC, Cyngor Addysg Amgylcheddol Cymru |
| | ii) Parhau â rhaglenni sgyrsiau a dyddiau astudiaeth ar gyfer staff | APC |
| | iii) Cydlynu ymdrechion eraill, fel bod dull integredig. | APC, DC-WW, CC, AA, YG, AU |
| 2. Creu a datblygu prosiectau addysgol gydag ysgolion lleol ac ysgolion sy'n ymweld, a gyda grwpiau addysgol a'r gymuned leol | i) Cynnal prosiect Bioamrywiaeth mewn 12 ysgol yn ystod cyfnod y Cynllun. | APC, YN, CCGC, Canolfan Datblygu Addysg ac Amgylchedd Powys |
| | ii) Datblygu rhaglen ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth o fewn y gymuned leol | APC, partneriaid CLlGF |
| | iii) Datblygu cynlluniau cipluniau i'r Dyfodol yng nghyfnod y Cynllun. | APC |
| | iv) Datblygu gwaith addysgol y canolfannau yn unol â'u | APC |

| | | |
|---|---|---|
| | cynlluniau rheoli | |
| | v) Datblygu addysg amgylcheddol ledled y Parc | APC, CPCAAA, CC |
| 3. Cwrdd ag anghenion ad hoc ar gyfer gwasanaethau addysg o safon uchel | i) Rhoi sgyrsiau ar wahoddiad cyn belled ag sy'n bosib, gan ddefnyddio staff perthnasol y Parc | APC |
| 4. Datblygu adnoddau addysgol i ysgolion ac athrawon | i)Cynhyrchu ystod o becynnau | APC |
| | ii) Ymestyn y llyfrgell/canolfan adnoddau a'i defnydd | APC |
| | iii) Cynhyrchu gwefan i'r Parc yn ystod cyfnod y Cynllun | APC |
| 7. Datblygu darpariaeth addysgol yn y Gymraeg | i) Cynnwys hyfforddiant staff yn y strategaeth addysg | APC |
| 8. Monitro effeithiolrwydd y gwasanaeth addysg | i) Cychwyn prosiect monitro yng nghyfnod y Cynllun | APC, Parciau Cymreig eraill, Coleg y Drindod,Caerfyrddin |

**MONITRO**

12.5 Bydd APC yn sefydlu prosiect i fonitro effeithiolrwydd ei wasanaeth addysg yn ystod cyfnod y Cynllun, fel rhan o'r strategaeth addysg. Cynhelir hwn mewn partneriaeth â'r Parciau Cenedlaethol eraill yng Nghymru a Choleg y Drindod, Caerfyrddin.

12.6 Mewn perthynas â Gwerth Gorau, bydd angen dangosyddion perfformiad i ddangos fod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n effeithlon ar wasanaeth o safon uchel. Mae addysg ymhlith y gwasanaethau a fydd yn cael eu harolygu gan arolygon gwasanaeth Gwerth Gorau yn ystod 2000/ 1, yn unol â'r rhaglen Gwerth Gorau.

**STRATEGAETHAU CYSYLLTIEDIG**

12.7 Cychwynnodd arolwg o strategaeth addysg APC ym 1999, a bydd y strategaeth newydd wedi'i chwblhau yn gynnar yng nghyfnod y Cynllun.

# 13 TWRISTIAETH

13.1 Twristiaeth yw'r diwydiant sy'n denu ymwelwyr i fwynhau'r Parc Cenedlaethol ac sy'n darparu cyfleusterau a gwasanaethau ar eu cyfer. Mae'n elfen hanfodol o economi'r ardal. Mae arolwg a wnaed ym 1994 yn dangos bod y Parc yn cynnal tua 3.6 miliwn o ddyddiau- ymwelwyr bob blwyddyn, wedi eu rhannu'n weddol gyfartal rhwng ymweliadau am y dydd ac arosiadau dros nos. Mae'r rhan fwyaf o'r ymwelwyr am y dydd yn dod o'r ardaloedd sydd â phoblogaeth ddwys i'r de o'r Parc, gyda chyfran lai yn teithio o dde-orllewin a chanolbarth Lloegr. Mae'r ymwelwyr sy'n aros yn dod o bob rhan o'r DU, gyda thraean o Lundain a'r de-ddwyrain, a 13% o dramor.

13.2 Mae twristiaid yn cael effaith sylweddol ar gynaladwyedd yn y Parc, er enghraifft yn eu defnydd o geir preifat ar gyfer trafnidiaeth i'r Parc ac o'i fewn, ac yn rhoi pwysau ar yr amgylchedd ac ar fywydau trigolion y Parc. Fodd bynnag, mae'r diwydiant ei hun yn ddibynnol ar amgylchedd iach y Parc, ynghyd â'i nodweddion a'i atyniadau arbennig.

13.3 Twristiaeth yw un o'r prif ddiwydiannau o fewn y Parc, yn cynnal rhychwant eang o fusnesau, gan gynnwys y sector letya a'i gyflenwyr, hurio cychod camlas, ac atyniadau megis yr Ogofâu Arddangos, adeiladau hanesyddol a chanolfannau gweithgaredd. Gall wneud cyfraniad gwerthfawr iawn i ddatblygu cynaliadwy ac AL21. Mae cysylltiadau cryf gydag amaethyddiaeth y gellir eu datblygu er lles y ddwy ochr, ac mae llawer o siopau a busnesau gwledig sy'n cyfrannu at fywiogrwydd cymunedau gwledig yn dibynnu ar incwm ymwelwyr. Chwaraeodd APC ran allweddol wrth sefydlu Grwpiau Gweithredu Twristiaeth (GGD) yn Llanymddyfri, Uwch Wysg (Pont Senni a Threcastell), Aberhonddu, Llangors, Crughywel a'r Fenni, gyda chefnogaeth yr ymgynghorwyr Gweithredu dros Dwristiaeth Gymunedol (GDG). Maent yn cefnogi eu cymunedau trwy annog cyflenwyr a chynhyrchwyr lleol i gydweithio, a thrwy hynny'n cadw'r incwm o dwristiaeth i gylchdroi o fewn cymunedau unigol.

13.4 Mae gan Fwrdd Croeso Cymru, cynghorau twristiaeth rhanbarthol a'r Awdurdodau Unedol hefyd strategaethau ar gyfer twristiaeth. Mae'r Bwrdd Croeso'n gyfrifol am ddatblygu twristiaeth yng Nghymru, ac mae ei ddogfen strategaeth, *Twristiaeth 2000*, yn cadarnhau'r dull partneriaeth o weithredu sydd wedi ei fabwysiadu gan APC. Mae APC yn ystyried mai ei swyddogaeth yw cynnal y cydlynu a'r ddeialog rhwng y chwaraewyr o fewn y Parc. Mae ei strategaeth twristiaeth yn anelu at gynyddu cynaladwyedd a sicrhau budd economaidd a chymunedol. Fel yr awdurdod cynllunio lleol, mae gan APC ran i'w chwarae hefyd mewn rheoli datblygiad.

13.5 Rhan o weledigaeth APC yw bod croeso i ymwelwyr i'r Parc a bod diwydiant twristiaeth gynaliadwy yn cyfrannu i'w mwynhad hwy ac i'r economi lleol. Gweler penodau eraill ar gyfer amcanion APC mewn perthynas â gweithgareddau hamdden, pwysau ymwelwyr, darparu gwybodaeth, ac ar gyfer strategaeth drafnidiaeth APC, sy'n cynnwys trafnidiaeth twristiaid.

**PYNCIAU**

I. **Strategaeth ar y cyd ar gyfer twristiaeth gynaliadwy.** Mae cyrff sy'n ymwneud â thwristiaeth yn y Parc yn cynnwys naw Awdurdod Unedol, Bwrdd Croeso Cymru, dau gwmni twristiaeth rhanbarthol, Twristiaeth Bannau Brycheiniog a dwy gymdeithas dwristiaeth arall a Marchnata Bannau Brycheiniog Cyf, yn ogystal ag APC. Mae'n rhaid wrth gytgord rhwng y chwaraewyr allweddol hyn er mwyn osgoi cystadleuaeth niweidiol, gorgyffwrdd a defnydd aneffeithiol o adnoddau. Sefydlwyd Fforwm Ymwelwyr, partneriaeth waith ar y cyd rhwng y buddiannau hyn, er mwyn datblygu strategaeth ar gyfer twristiaeth gynaliadwy yn y Parc. Cwblheir hyn a'i roi ar waith yn ystod cyfnod y Cynllun. Cynhwysir ei nodau a'i amcanion a'u dulliau gweithredu yn y Cynllun hwn.

II. **Manteision i'r gymuned**. Gall twristiaeth foddi bywyd lleol, ond gall hefyd gefnogi siopau pentref a darparu gwaith. Mae angen i gymunedau allu rheoli twristiaeth fel y gallant gefnogi eu hamgylchedd a'u ffordd o fyw yn hytrach na'u niweidio a'u disodli, a sefydlwyd y Grwpiau Gweithredu Twristiaeth er mwyn gwneud hyn.

III. **Hyrwyddo a marchnata'r Parc**. Mae'r strategaeth dwristiaeth yn ceisio cysoni gweithgareddau hyrwyddo'r partneriaid, a gwella manteision economaidd twristiaeth. Mae twristiaeth yn cefnogi amaethyddiaeth a'r economi drwy ddarparu incwm ychwanegol yn ogystal â marchnad ar gyfer cynnyrch a gwasanaethau lleol. Byddai rhagor o ymwelwyr dros nos yn cynyddu gwariant. Mae gan barc cenedlaethol ddelwedd 'brand' gref, a gellir ei defnyddio i hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy.

IV. **Datblygu 'cynhyrchion' twristiaeth werdd**. Mae twristiaeth werdd yn galluogi ymwelwyr i werthfawrogi nodweddion arbennig y Parc heb eu niweidio, ac yn defnyddio cynnyrch ac adnoddau lleol heb eu dihysbyddu, ac felly er budd i'r gymuned. Mae datblygu twristiaeth o'r fath yn un o amcanion pwysig y Cynllun hwn. Gall olygu hyfforddi ar gyfer rhai sy'n ei gweithredu. Ymdrinnir â'r defnydd o gynnyrch bwyd a choed lleol yn y bennod ar Ffermio a choedwigaeth.

V. **Cyfleusterau twristiaid**. Mae'r strategaeth dwristiaeth yn dibynnu'n bennaf ar weithredwyr preifat i ddarparu cyfleusterau, nwyddau a gwasanaethau. Mae angen nodi'r galw am y rhain mewn cymhariaeth â'r cyflenwad; bydd arolygon ymwelwyr y GGD o help. Efallai nad oes prinder llety i ymwelwyr, ond hwyrach nad oes cystal darpariaeth ar gyfer rhai sectorau, fel y sector beicio. Ymdrinnir â materion cynllunio'n ymwneud ag adeiladau, safleoedd carafannau etc yn y Cynllun Datblygu Unedol (gweler y bennod Cynllunio).

VI. **Effeithiau amgylcheddol**. Mae twristiaeth gynaliadwy addas yn help i ymwelwyr werthfawrogi'r angen am gadwraeth, a chyda rheolaeth dda, gellid croesawu mwy o ymwelwyr i'r Parc heb effeithiau andwyol. Byddai Cronfa Ymddiriedolaeth Amgylcheddol yn galluogi ymwelwyr a busnesau i gefnogi gwaith cadwraeth yn ariannol. Fodd bynnag, gallai datblygiadau anaddas, diffyg rheolaeth neu ormod o ymwelwyr wneud niwed i'r amgylchedd yn ogystal ag i fuddiannau economaidd a chymunedol tymor hir. Mae'r GGD yn asesu yr hyn y gall rhai aneddiadau ymdopi ag ef.

VII. **Arwyddion gwyn ar frown**. Mae'r rhain, ar gyfer atyniadau twristiaid, yn helpu ymwelwyr a gweithredwyr fel ei gilydd, ond os cânt eu gor-ddefnyddio gallant ddifetha'r amgylchedd gweledol, a dibrisio eu swyddogaeth. Codir yr arwyddion gan yr AP a'r Cynulliad Cenedlaethol, ond mae APC am iddynt ymgynghori â hwy ymlaen llaw. Ymdrinnir ag effaith amgylcheddol hysbysebion twristaidd eraill yn y CDU.

VIII. **Mynediad a thrafnidiaeth i ymwelwyr**. Mynediad o ansawdd da i'r Parc ac o'i fewn yw'r allwedd i dwristiaeth. Gweler y bennod Mynediad i gefn gwlad. Gellid lleihau defnydd ymwelwyr o geir modur drwy ddatblygu cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus a hyrwyddo gwyliau beicio a cherdded. Byddai hyn yn fwy cynaliadwy, ac yn gwneud y Parc yn fwy hygyrch i'r rhai heb gar. Gweler y bennod Trafnidiaeth.

IX. **Gwybodaeth i ymwelwyr**. Mae'r GGD wedi nodi'r angen am arwyddion a byrddau gwybodaeth; fe ddaw hyn yn rhan o strategaeth gyfathrebu APC (gweler y bennod Gwybodaeth a dehongli).

X. **Monitro**. Mae'n bwysig gwybod lefelau defnydd a gwariant ymwelwyr yn y Parc. Byddai'n help petai'r Parc yn cael ei nodi ar wahân mewn data a gasglwyd eisoes. Mae'r GGD yn cynnal arolygon ymwelwyr i fesur llwyddiant marchnata ac i ddarparu maen prawf ar gyfer monitro effeithiau economaidd twristiaeth yn lleol. Bydd angen arolygon ychwanegol hefyd.

**NOD, AMCANION A GWEITHREDU**

| **Nod: Datblygu twristiaeth gynaliadwy, er mwyn cynyddu mwynhad y cyhoedd o briodoleddau arbennig y Parc a meithrin bywiogrwydd cymunedau lleol.** | | |
|---|---|---|
| **AMCAN** | **GWEITHREDU/TARGED** | **GWEITHREDU GAN:** |
| 1. Sicrhau gweledigaeth glir a chytûn ar gyfer dyfodol twristiaeth gynaliadwy yn y Parc | i) Cwblhau argraffiad cyntaf y strategaeth dwristiaeth yn gynnar yng nghyfnod y Cynllun | Partneriaid y Fforwm Ymwelwyr. |
| | ii) Adolygu aelodaeth a chylch gwaith Fforwm Ymwelwyr y Bannau | Fforwm Ymwelwyr, APC, YG |
| | iii) Archwilio'r posibilrwydd o gyflogi swyddog prosiect twristiaeth gynaliadwy | APC, AU, BCC |
| 2. Cymunedau i chwarae rhan flaenllaw mewn datblygiad twristiaeth er mwyn sicrhau mwy o fudd economaidd a chymdeithasol | i) Sefydlu a chefnogi grwpiau gweithredu twristiaeth yng nghyfnod y Cynllun | GGD, Fforwm Ymwelwyr, ACT, APC |
| | ii) Cefnogi prosiectau twristiaeth gyda'r gymuned yn cymryd rhan | GGD, Fforwm Ymwelwyr, GTG, APC |
| | iii) Defnyddio CRhA i nodi cyfleoedd a datblygu cefnogaeth gymunedol | APC, Fforwm Ymwelwyr, GTG, BCC, cwmnïau twristiaeth |
| 3. Datblygu dull integredig o hyrwyddo a marchnata'r Parc a'i hunaniaeth | i) Cytuno ar strategaeth farchnata 5 mlynedd o fewn cyfnod y Cynllun | Fforwm ymwelwyr, partneriaid, YG |
| | ii) Datblygu corff marchnata ar gyfer y Parc | Marchnata Bannau Brycheiniog Cyf, Fforwm Ymwelwyr, YG |
| | iii) Paratoi deunydd hyrwyddo y cytunwyd arno i dynnu sylw at y Parc yn benodol, gan gynnwys llyfryn blynyddol | Fforwm Ymwelwyr, Marchnata Bannau Brycheiniog Cyf, gweithredwyr |
| | iv) Paratoi bas data postio ar y cyd | Partneriaid |
| | *v) Gweler y bennod Ffermio a choedwigaeth* | |
| 4. Datblygu a hyrwyddo cynhyrchion twristiaeth werdd, yn seiliedig ar briodoleddau | i) Datblygu pecynnau gweithgaredd gwyrdd gwyliau byr cyfnod 'ysgwydd' | Gweithredwyr twristiaeth, BCC, APC, YG, YN |
| | ii) Datblygu cynllun achredu | Fforwm ymwelwyr, YN |

| | | |
|---|---|---|
| arbennig a chynnyrch lleol y Parc | iii) Hyfforddi gweithredwyr yn *Cynllun Croeso* | Twristiaeth Bannau Brycheiniog, YG |
| | iv) Datblygu a gweithredu polisïau Cynllun Datblygu Unedol | APC |
| | v) *Gweler pennod Ffermio a choedwigaeth* | |
| 5. Nodi'r galw a'r potensial am lety ymwelwyr, cyfleusterau a gwasanaethau | i) Defnyddio CRhA i nodi galw a photensial | GGD, APC, partneriaid |
| | ii) Adolygu pa wasanaethau sydd ar gael ar gyfer beicwyr ar daith yng nghyfnod y Cynllun | APC, GGD, cymdeithasau beicio, partneriaid |
| | iii) Datblygu a gweithredu polisïau CDU | APC |
| 6. Cynyddu twristiaeth, cynaladwyedd a chefnogaeth i ddibenion y Parc, a lleihau'r effaith andwyol ar yr amgylchedd ac ar gymunedau lleol. | i) Gweithredu canllaw BCC 'Gwyrddhau eich Busnes' | Fforwm ymwelwyr, gweithredwyr, BCC, APC |
| | ii) Sefydlu Cronfa Ymddiriedolaeth Amgylcheddol yng nghyfnod y Cynllun | Fforwm Ymwelwyr, gweithredwyr, APC |
| | iii) Datblygu gwaith y GGD | GGD, ACT, APC, Fforwm Ymwelwyr |
| | iv) Datblygu meini prawf ar gyfer rhoi barn ar arwyddion gwyn ar frown | APC, AP, gweithredwyr, CCC |
| | v) Datblygu a gweithredu polisïau CDU | APC |
| 7. Gwella monitro twristiaeth | i) Edrych ar y Parc fel ardal fonitro ar wahân | AU, BCC, APC |
| | ii) Defnyddio GGD a CRhA i gasglu data ar weithgaredd ac effeithiau twristiaeth | Fforwm Ymwelwyr, GGD, APC, YG, partneriaid |
| | iii) Clymu'r gwaith o adnabod anghenion a dulliau monitro pellach i'r strategaeth dwristiaeth | Fforwm Ymwelwyr, APC |

**MONITRO**

13.6 Y ddwy broblem fawr sy'n ymwneud â monitro twristiaeth yw i) diffyg data ar dwristiaeth yn y Parc a'i effeithiau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol, a ii) y ffaith fod y data sydd ar hyn o bryd yn cael ei gasglu gan y Bwrdd Croeso a'r AU yn cyfateb i ardaloedd AU yn hytrach na'r Parc. Mae'n nod gan y strategaeth dwristiaeth i newid y ddau beth hyn yn ystod cyfnod y Cynllun. Bydd angen datblygu dangosyddion ar gyfer yr adroddiad ar Gyflwr y Parc.

**STRATEGAETHAU A PHOLISÏAU CYSYLLTIEDIG**

13.7 Nodir strategaeth lawn APC ar gyfer twristiaeth yn *Strategaeth ar gyfer Twristiaeth Gynaliadwy ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog*. Mae hon yn cynnwys mewn mwy o fanylder, nod ac amcanion, dulliau gweithredu a pholisïau, gan ddangos pa bartneriaid sy'n ymwneud â beth, ac yn nodi blaenoriaethau.

13.8 Mae APC wedi gofyn i AP hysbysu APC pan fyddant yn derbyn cais am arwyddion twristiaid gwyn ar frown. Fe fydd meini prawf y bydd APC yn seilio ei ymateb arnynt yn cael eu datblygu o fewn cyfnod y Cynllun.

# 14 TRAFNIDIAETH

14.1 Mae angen trafnidiaeth ar gyfer y rhan fwyaf o siwrneiau i'r Parc Cenedlaethol, ac o'i fewn – gan drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd. Mae'r Parc yn neilltuol o ddibynnol ar drafnidiaeth ffordd ar gyfer pobl a nwyddau. Nid oes yr un orsaf reilffordd, ac mae Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu wedi ei chyfyngu i ddefnydd pleser ar hyn o bryd. Gweithgareddau hamdden yn bennaf yw beicio a marchogaeth, a'r tu allan i Aberhonddu mae trafnidiaeth gyhoeddus yn anaddas i gwrdd â'r rhan fwyaf o anghenion. Mae cerbydau preifat felly'n hanfodol ar gyfer trigolion, ymwelwyr, busnesau ac amaethyddiaeth o fewn y Parc. Mae 92% o ddyddiau ymwelwyr yn cynnwys defnydd o gerbyd preifat.

14.2 Ym mhobman, mae traffig wedi cynyddu dros y degawdau diwethaf. Mae 1,264,000 o gerbydau ffordd wedi eu cofrestru yng Nghymru, cynnydd o 35% dros y 15 mlynedd diwethaf. Bydd y raddfa hon o dwf yn cynyddu'r pwysau i wella ac adeiladu ffyrdd newydd, gan gymryd tir, difa cynefinoedd a chefn gwlad, ac arwain at gynnydd pellach yn y defnydd o geir. Fodd bynnag, y cwbl fyddai cyfyngu ar adeiladu ffyrdd heb leihau nifer y cerbydau yn ei wneud fyddai cynyddu tagfeydd, llygredd a diraddio amgylcheddol.

14.3 Er mwyn cynaladwyedd tymor-hir, rhan o weledigaeth APC yw ceisio lleihau dibyniaeth ar gerbydau modur preifat i wneud siwrneiau i'r Parc ac o'i fewn. Dylid lleihau ar yr angen i deithio, a gwneud trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy atyniadol, heb effeithio'n andwyol ar ansawdd gyffredinol bywydau pobl. Byddai gwell cysylltiadau rhwng trafnidiaeth gyhoeddus, teithio hamdden a mynediad i gefn gwlad o fudd i ymwelwyr a thrigolion fel ei gilydd.

14.4 Ond, mae yna rai o fewn ac oddi allan i'r Parc sy'n methu teithio rhyw lawer oherwydd diffyg trafnidiaeth, ac mae yna alw sydd heb ei gwrdd am fynediad drwy drafnidiaeth gyhoeddus i gyrchfannau y naill ochr a'r llall i derfynau'r Parc. Mae hyrwyddo mynediad i'r Parc cyfan, a sicrhau bod gwasanaethau a chyfleusterau o fewn cyrraedd trigolion yn amcanion pwysig i APC (gweler y penodau Mynediad a Chymuned).

14.5 Mae rheidrwydd ar Awdurdodau Priffyrdd (AP) i amlinellu eu strategaeth drafnidiaeth mewn Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol (CTLl) pum mlynedd, gyda'r nod o ddarparu system drafnidiaeth integredig. Mae'n rhaid cael targedau lleol sy'n mynd i'r afael â llygredd a thagfeydd, mwy o reolaeth traffig, diogelwch ffyrdd, trafnidiaeth gyhoeddus a dulliau eraill o drafnidiaeth. Bydd mwy o sicrwydd cyllid ar gyfer mentrau, ymgynghori ehangach â'r cyhoedd, a phwerau i godi tâl am ddefnyddio ffyrdd ac am barcio. Bydd disgwyl hefyd i AP lunio datganiadau rhanbarthol ar strategaethau cludiant y gellir datblygu CTLl ohonynt. Rhaid i'r CTLl hefyd fod yn gyson ac wedi eu hintegreiddio gyda'r strategaeth defnydd tir a gynhwysir yn y CDU.

14.6 Nid APC yw'r AP ar gyfer y Parc, ond mae canllawiau drafft y Cynulliad Cenedlaethol yn pwysleisio y dylai awdurdodau weithio gyda'i gilydd i sicrhau trafnidiaeth integredig ar gyfer ac o fewn eu hardaloedd, yn enwedig o fewn Parciau Cenedlaethol. Mae Deddf yr Amgylchedd 1995 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gymryd sylw o ddibenion Parciau Cenedlaethol, ac i ddangos eu bod wedi gwneud hynny. Mae'n datgan "fe fydd hi'n bwysig sicrhau cydweithio er lles pawb ar draws terfynau'r Parciau, yn enwedig o safbwynt materion cynllunio a

14.7 I fynd â hyn ymhellach, mae Cymdeithas y Syrfewyr Sirol, Grðp Swyddogion Parciau Cenedlaethol, y Comisiwn Cefn Gwlad a CCGC wedi cyhoeddi Datganiad ar y Cyd ar Bolisi a Gweithrediad Traffig a Thrafnidiaeth mewn Parciau Cenedlaethol. Mae'n cynnwys ymrwymiad i weithio gyda'i gilydd i sicrhau cynllunio da a systemau traffig a thrafnidiaeth sy'n cefnogi dibenion Parciau Cenedlaethol, yn cwrdd ag anghenion cymunedau lleol, ac

sydd wedi eu hintegreiddio'n llwyr â strategaethau defnydd a rheolaeth tir. Mae'r ymgynghoriadau ar y Cynllun hwn yn rhan o'r broses hon, ac mae APC wedi bwrw ati gyda'i bartneriaeth Bws y Bannau.

**PYNCIAU**

I. **Gweithio'n agosach gyda'r awdurdodau priffyrdd.** Mae materion trafnidiaeth o bwys mawr i APC, oherwydd eu heffaith ar gynaladwyedd, yr amgylchedd a chymunedau, a'u pwysigrwydd i dwristiaeth ac ymwelwyr. Ond, cyfyng yw ei ddylanwad. Mae'r pwerau a'r adnoddau perthnasol gan y Cynulliad Cenedlaethol a'r AP, sydd â dyletswydd i gymryd sylw o ddibenion parciau cenedlaethol. Yn ystod cyfnod y Cynllun hwn, bydd APC yn ceisio cydweithio'n agosach gyda'r Cynulliad Cenedlaethol a'r AP ar faterion a nodwyd yn y datganiad ar y cyd ym 1996, sy'n cynnwys lleihau traffig trwodd ac integreiddio defnydd tir, rheolaeth tir a chludiant drwy'r CDU. Bydd APC yn disgwyl i AP ymgynghori ag ef yn gynnar ar eu CTLl a'r holl weithfeydd priffyrdd o bwys, ac i gymryd sylw llawn o ffactorau amgylcheddol mewn cynlluniau newydd ac mewn rhaglenni cynnal a chadw.

II. **Strategaeth trafnidiaeth gynaliadwy.** Yn ystod cyfnod y Cynllun hwn, bydd datblygu strategaeth integredig trafnidiaeth gynaliadwy ar gyfer y Parc yn her fawr i bartneriaeth o APC, y Cynulliad Cenedlaethol, AP, CCGC ynghyd ag eraill perthnasol. Bydd hyn yn golygu cynyddu darpariaeth a defnydd trafnidiaeth gyhoeddus, rheoli parcio, gan integreiddio hyn gyda dulliau eraill o drafnidiaeth megis beicio, a chanfod ffyrdd o leihau'r angen i deithio. Dylid hefyd, cyn belled ag sy'n bosib, leihau effeithiau andwyol ar yr amgylchedd a chymunedau yn sgil defnydd anochel o gerbydau modur.

III. **Trafnidiaeth gynaliadwy.** Bydd y strategaeth drafnidiaeth yn cynnwys mentrau trafnidiaeth gyhoeddus o fewn y Parc a thros ei derfynau, i'w gweithredu gan bartneriaethau o gyrff gan gynnwys APC. Y cyntaf o'r rhain yw'r cynllun Bws y Bannau, a'i nod yw gwneud y Parc yn fwy hygyrch i'r rhai sydd naill ai heb gar neu sy'n dymuno ei adael gartref. Sicrhawyd cyllid o'r Undeb Ewropeaidd i wella'r gwasanaethau a'u hyrwyddo.

IV. **Hierarchaeth ffyrdd y Parc Cenedlaethol.** (Gweler tudalen 42). Rhan o broses ymgynghori'r Cynllun Rheoli yw ceisio cefnogaeth i Hierarchaeth Ffyrdd y Parc Cenedlaethol gan AP a'r Cynulliad Cenedlaethol, fel y caiff ei ddefnyddio i ddylanwadu ar ddefnydd trafnidiaeth ac ar raglenni gwelliant a chynnal a chadw. Bydd CRhA yn rhoi'r cyfle i'w adolygu, ac eir i'r afael ag unrhyw wrthdaro â chategorïau'r AP wrth baratoi'r CDU.

V. **Cynllunio priffyrdd.** Mae angen canllaw cynllunio ar gyfer priffyrdd o fewn y Parc, i'w gynhyrchu mewn partneriaeth rhwng APC, AP, CCGC a grwpiau defnyddwyr ffyrdd. Dylai adlewyrchu'r Hierarchaeth Ffyrdd a chymeriad gwahanol rannau'r Parc, a phwysleisio diogelwch i holl ddefnyddwyr ffyrdd. Dylai hefyd gynnwys

VI. **Beicio.** Gweithgaredd hamdden yw beicio, elfen ymarferol ac amgylcheddol sicr o dwristiaeth gynaliadwy, a ffurf gynaliadwy o ddarpariaeth neu drafnidiaeth gymudol. Mae datblygiad rhwydwaith cenedlaethol o lwybrau beicio sy'n mynd trwy'r Parc ar y gweill. Mae Strategaeth Feicio Leol wrthi'n cael ei datblygu ar gyfer y Parc, i gynnwys llwybrau pellter hir a rhai a rennir â'r bobl leol, yn ogystal â llwybrau fforest a llwybrau beicio mynydd. Gweler hefyd bennod 9.

**NOD, AMCANION A GWEITHREDU**

| **Nod: Datblygu ffyrdd mwy cynaliadwy o deithio i'r Parc Cenedlaethol, ohono, ac o'i fewn, ar gyfer pobl a nwyddau** | | |
|---|---|---|
| **AMCAN** | **GWEITHREDU/TARGED** | **GWEITHREDU GAN:** |
| 1. Datblygu perthynas agosach â'r AP, i sicrhau bod CTLl yn hyrwyddo amcanion y Parc Cenedlaethol ymhellach | i) Dechrau cyfarfodydd rheolaidd gyda'r holl AP sydd â chyfrifoldeb dros y Parc | APC, AP |
| | ii) Cydweithio'n agos ar baratoi ac arolygu CTLl | AP, APC |
| 2. Datblygu a hyrwyddo strategaeth integredig ar gyfer trafnidiaeth gynaliadwy i'r Parc ac o'i fewn | i) Gweithio gydag AP ac eraill i lunio strategaeth drafnidiaeth i ffurfio rhan o'r | APC, AP, YG, DP, CPC, CCGC, cymunedau, grwpiau defnyddwyr ffyrdd |
| 3. Hyrwyddo mentrau trafnidiaeth gynaliadwy i'r Parc | i) Ehangu prosiect Bws y Bannau | APC, AP, cwmnïau trafnidaeth |
| | ii) Cyhoeddi amserlen gyfansawdd trafnidiaeth gyhoeddus | APC, AP, cwmnïau trafnidaeth, BCC |
| | iii) Gweithio ar y cyd i ddatblygu a hyrwyddo'r rhwydwaith | APC, AP, cwmnïau trafndiaeth a thwristiaeth, BCC, YG, CCGC |
| 4. Sicrhau mai ansawdd amgylcheddol yw'r prif ystyriaeth wrth benderfynu ar ddefnydd addas a gwelliant ffyrdd, yn amodol ar ddiogelwch yn unig, trwy weithredu penderfyniadau'r Hierarchaeth Ffyrdd | i) Cynnwys Hierarchaeth yn y CDU a datblygu a gweithredu polisïau'r CDU | APC |
| | ii) Cydweithio'n agos a gweithredu Hierarchaeth wrth baratoi ac adolygu rhaglenni CTLl ac AP | APC, AP |
| | iii) defnyddio CRhA i adolygu Hierarchiaeth | APC, AP, cymunedau, grwpiau defnyddwyr |
| 5. Cynhyrchu canllaw cynllunio priffyrdd yn ymgorffori diogelwch i holl ddefnyddwyr ffyrdd | i) Cwblhau canllawiau o fewn cyfnod y Cynllun | AP, CCGC, APC, CGGP, beicwyr, gyrwyr tacsi |
| 6. Ymgynghori ar strategaeth feicio o fewn cyd-destun strategaethau cenedlaethol, a'i | i) Datblygu Strategaeth Feicio Leol i helpu cynhyrchu CTLl | AP, Sustrans, APC, BCC, DP, cymdeithasau beicio |

| | | |
|---|---|---|
| gweithredu | ii) Hyrwyddo 'Llwybrau diogel i'r Ysgol' | AP, Sustrans, APC |
| | *iii) Gweler hefyd y bennod Mynediad* | |
| 7. Integreiddio amcanion APC ar gerdded i CTLl yr AP | *i) Gweler uchod a'r bennod Mynediad* | |
| 8. Monitro ffyrdd a thrafnidiaeth | i) Datblygu strategaeth fonitro yn ystod cyfnod y Cynllun | APC, AP |

**MONITRO**

14.8 Mae'r Cynulliad Cenedlaethol a'r AP yn monitro traffig ffyrdd, ond os yw APC i gael mewnbwn ystyrlon i gynllunio trafnidiaeth o fewn y Parc, bydd angen mwy o ddata neilltuol i'r Parc. Bydd angen datblygu dangosyddion ar gyfer adroddiad ar Gyflwr yr Amgylchedd. Bydd y CRhA yn darparu fframwaith ar gyfer monitro ardaloedd neu broblemau neilltuol.

**STRATEGAETHAU CYSYLLTIEDIG**

14.9 Un o amcanion y Cynllun hwn yw fod strategaeth integredig trafnidiaeth gynaliadwy yn cael ei datblygu ar gyfer ardal y Parc, gan yr AP, grwpiau defnyddwyr a buddiannau twristiaeth ac amgylcheddol, ar y cyd gydag APC. Bydd hon yn tynnu oddi ar CTLl yr AP, a gynhyrchir o 1999 ymlaen.

14.10 Paratowyd Strategaeth Feicio Leol ar gyfer y Parc gan ymgynghorwyr. Bydd y dasg o'i gweithredu yn dechrau yn gynnar yng nghyfnod y Cynllun, mewn ymgynghoriad â'r AU, defnyddwyr a phartneriaid eraill. Bydd hyn yn ffurfio

**HIERARCHAETH FFYRDD PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG** (Map 2)

**1. Ffyrdd trwodd cenedlaethol**

Y rhain yw'r ffyrdd a ddefnyddir gan draffig cenedlaethol i deithio trwodd. Rhaid i unrhyw welliannau gynyddu cynhwysedd traffig neu wella diogelwch gael eu gwneud i'r safonau uchaf, gyda blaenoriaeth yn cael ei rhoi i ansawdd amgylcheddol. Gellir caniatáu datblygiadau sy'n debygol o arwain at gynnydd sylweddol mewn traffig, neu gerbydau mawr fel loriau, ôl-gerbydau, carafannau neu fysus, cyn belled â'u bod yn dderbyniol fel arall.

A465T

A470T yn cynnwys ffordd osgoi Aberhonddu

**2. Ffyrdd dosbarthol rhanbarthol**

Y ffyrdd hyn sy'n cael eu defnyddio gan draffig sy'n teithio o fewn rhanbarth de/gorllewin Cymru, ond mae'n bosib i draffig trwm a phellter-hir ddefnyddio ffyrdd eraill megis yr M4/M5, A465T, A470T. Mae 'gwelliant' yng nghynhwysedd cludiant y ffyrdd dosbarthol lleol rhanbarthol yn gwneud i yrwyr eu dewis fel ffyrdd trwodd cenedlaethol, sy'n groes i bolisi'r llywodraeth ac sy'n cael ei anghymeradwyo gan APC. O bwyso a mesur, anaml y bydd ffyrdd osgoi i aneddiadau ar hyd y ffyrdd hyn yn addas, oherwydd anaml y bydd yr effaith negyddol ar y tirlun amgylchynol uchel ei ansawdd yn cael ei wrthbwyso gan y rhyddhad amgylcheddol i'r anheddiad.

A40T ac eithrio ffordd osgoi Aberhonddu

A479T

A4059

A4067

**3. Ffyrdd dosbarthol lleol**

Mae'r ffyrdd hyn yn cysylltu aneddiadau â'i gilydd neu â chategorïau uwch o ffyrdd. Tra'u bod yn cludo peth traffig cymudol a masnachol gyda'i ffynhonnell neu gyrchfan o fewn y Parc, ni chânt eu hystyried fel rhan o rwydwaith ffyrdd trwodd.

Dylai gwelliannau i'r ffyrdd hyn fod am resymau diogelwch yn unig, nid er mwyn cynyddu eu gallu cludiannol. Dylai gwarchod eu cymeriad fod yn brif nod. Bydd datblygiadau a fydd yn creu traffig yn cael eu hystyried mewn perthynas â galluoedd cludiannol y ffordd berthnasol, gan gynnwys ei agosrwydd at ffyrdd o gategorïau uwch. Anghymeradwyir cynigion a fydd yn debygol o gynyddu'r galw am welliannau na ellir cwrdd â hwy heb ddifrod sylweddol i gymeriad y ffordd, neu a fyddai'n achosi peryglon ychwanegol neu anhwylustod i ddefnyddwyr presennol y ffordd.

A4069 Brynaman - Llangadog

A4077 Crughywel - Gilwern

A4078 Talgarth - Pontithel

A4215 Defynnog - Libanus

B4248 Brynmawr - Blaenafon

B4350 Y Clas ar Wy – Y Gelli Gandryll

B4520 Aberhonddu – Capel Isaf

B4560 Llangynidr - Beaufort

B4601 Aberhonddu Dorlangoch

B4602 Aberhonddu - Bishop's Meadow - Troed-yr-harn

Cefn Coed - Pontsticill

**4. Ffyrdd lleol**

Mae'r categori hwn yn cynnwys llawer o ffyrdd mwyaf atyniadol y Parc, rhai ohonynt yn cludo cyfran sylweddol o drafnidaeth hamdden neu ymwelwyr, ond heb i hyn fod yn broblem fawr. Gallant fod yn cysylltu ardaloedd gwledig ag aneddiadau, neu'n cynnig dewis i draffig lleol a hamdden rhag gorfod defnyddio ffyrdd o gategori uwch.

Y prif nod yw gwarchod cymeriad y ffyrdd hyn, a'r nodweddion sy'n cyfrannu at eu cymeriad. Fe fydd twf cyfyngedig o drafnidaeth leol neu hamdden yn aml yn dderbyniol. Ond, anghymeradwyir datblygiadau a fyddai'n debygol o gynyddu'r galw am welliannau na ellid eu gwneud heb ddifrod sylweddol i gymeriad y ffyrdd, neu a fyddai'n achosi peryglon ychwanegol neu anhwylustod i ddefnyddwyr presennol y ffyrdd.

Ffairfach - Trapp - Carreg Cennen

Trapp - Llandyfan - Twynmynydd

Ffairfach – Bethlehem

Pontarllechau - Twynllannan – Trecastell

Ysbardun Llyn Wysg

Tafarn-y-garreg - Pont-ar-Hydfer

Ystradfellte - A4059

Talgarth – Felindre - Llanigon – Y Gelli

Blaen Onneu – Llangatwg

Crughywel – Llanbedr

Llangenni – Glangrwyne

Brynmawr – Cheltenham – Clydach

B4248 – Bryn Llanelly

De Clydach – Bryn Llanelli

Cnewr - Heol Senni - A4215

Heol Senni - Ystradfellte

Aberhonddu - Cradoc

Aber – Talybont

Talybont - A40

B4558 Brynich – Talybont - Llangynidr – Llangatwg

Pentref Llanfrynach

Brynich - Groesffordd – Llangors

B4560 Talgarth - Bwlch - Llangynidr

Gilwern – Gofilon – Llanfoist

Gofilon – Blaenafon

Y Fenni – Pwll glo Fforest

Y Fenni – Crossways

Llanfihangel Crucornau – Llanddewi Nant Hoddni

Pandy – Oldcastle

Pen-croes-oped – Mamhilad

B4521 Y Fenni - Ynysgynwraidd

**5. Ffyrdd o dan bwysau twristiaeth**

Ffyrdd yw'r rhain a fyddai'n dod o dan gategorïau 4 neu 6, ar wahân i'r ffaith mai trafnidiaeth hamdden sy'n gyfrifol i raddau helaeth am eu defnyddio. Mae hyn yn achosi problemau o wahanol raddau. Y prif nod yw gwarchod cymeriad y ffyrdd hyn, a'r nodweddion sy'n cyfrannu at eu cymeriad. Yn gyffredinol, ni fydd datblygiadau sy'n debygol o arwain at gynnydd andwyol mewn trafnidiaeth hamdden yn dderbyniol, er y bydd gallu cludiannol unigol y ffordd a strategaeth APC ar gyfer hamdden yn cael ei ystyried. Ar wahân i beth darpariaeth o fannau pasio, ni fydd gwelliannau ar gyfer cynnwys trafnidiaeth hamdden yn dderbyniol fel arfer.

Twynllannan – Llanddeusant - Llyn y Fan

Ystradfellte – Pontneddfechan

Comin y Rhos - Pont Melin Fach

Libanus – Canolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol

Pontsticill – Aber

Pant – Pontsticill – rheilffordd

Ystradgynwyn - Neuadd Pumphouse

Brynmawr – Allt Llangatwg

UC583, UC584, UC585 Allt Llangatwg

Pwll glo Fforest - Grwyne Fawr

Cwm Coed-y-cerrig

Y Gelli - Bwlch yr Efengl – Llanddewi Nant Hoddni

Pen-y-fal o Pentre, Y Fenni

**6. Ffyrdd llai**

Mae'r categori hwn yn cynnwys yr holl ffyrdd eraill yn y Parc, llawer ohonynt yn lonydd culion iawn. Ar y cyfan maent yn gwasanaethu pentrefi bychain, ffermydd neu aneddiadau anghysbell eraill, er bod rhai yn cludo trafnidiaeth hamdden gyfyngedig.

Y prif nod yw gwarchod cymeriad y ffyrdd hyn, a'r nodweddion sy'n cyfrannu at y cymeriad hwn. Gall mannau pasio bychain fod yn dderbyniol, fel y gall cyfleusterau hamdden neu lety i ymwelwyr cyn belled â'u bod yn fach iawn ac nad ydynt yn tynnu gormod o sylw. Byddai mwy o sgôp am y rhain yn agos i ffyrdd o gategorïau uwch,

# 15 FFERMIO A CHOEDWIGAETH

15.1 Defnydd tir yw'r allwedd i dirluniau a bioamrywiaeth y Parc, ac i'r llawer o gyfleoedd y mae'n eu cynnig er mwynhad y cyhoedd. Amaethyddiaeth yw prif ddefnydd tir y Parc: mae 51% ohono mewn daliadau amaethyddol, sy'n cynnwys rhandiroedd sylweddol o goetir, gyda 38% yn dir pori comin. Mae'r fforestydd - conifferaidd i raddau helaeth – a blannwyd ar gyfer cynhyrchu coed gan berchnogion cyhoeddus a phreifat yn cyfrif am tua 9%

15.2 Mae tir amaethyddol a choedwigoedd felly'n gorchuddio 98% o'r Parc. Y rhain yw cefndir ei archeoleg, ei amgylchedd adeiledig a'i dreftadaeth ddiwylliannol, a rhaid ystyried hyn wrth feddwl am fynediad a hamdden y cyhoedd. Maent yn rhoi bywoliaeth amser-llawn uniongyrchol i tua 1500 o drigolion y Parc (yn ôl cyfrifiad 1991) ac yn cefnogi bywoliaeth llawer mwy. Roedd yr harddwch y maent yn ei greu yn ffactor wrth bennu'r Parc, ac mae'n cael ei fwynhau gan y gymuned leol ac ymwelwyr fel ei gilydd. Felly, mae newidiadau sy'n effeithio ar y diwydiannau hyn yn cael effaith bellgyrhaeddol ar bob agwedd ar fywyd a gwaith o fewn y Parc.

15.3 Mae'r tir amaethyddol yn y Parc yn nwylo ffermwyr teuluol yn bennaf, boed y rheiny'n berchnogion neu'n denantiaid. Mae llawer o'r coetiroedd a'r fforestydd hefyd yn nwylo perchnogion preifat, ond mae hefyd randiroedd eang yn nwylo'r Comisiwn Coedwigaeth a Dŏr Cymru.

15.4 Mae amaethyddiaeth Prydain mewn cyfnod o argyfwng. Mae'r bunt gref, diffyg hyder y cyhoedd mewn cig o ganlyniad i BSE a ffactorau allanol eraill yn effeithio ar ffermwyr yn y Parc fel ym mhobman arall. Gall effeithiau tymor hir gynnwys methdaliadau a cholli ffermydd teuluol bach, yn ogystal â chynnydd mewn coedwigaeth a choetiroedd. Gallai diffyg adnoddau ar gyfer cynnal a chadw gael effeithiau andwyol ar y tirlun a'r amgylchedd. Mae'r gweithlu amaethyddol wedi parhau i ostwng dros gyfnod y Cynllun Parc diwethaf, gyda mwy o lafur rhan-amser ac achlysurol yn cael ei ddefnyddio ar ffermydd, a mwy o waith yn cael ei wneud gan gontractwyr. Mae hyn yn wir hefyd am goedwigaeth.

15.5 Mae angen ffermio a choedwigaeth er mwyn gwarchod harddwch y Parc a chynnal bywiogrwydd tymor hir ei gymunedau a'i ffordd o fyw, ond mae angen i ddefnydd tir fod yn gynaliadwy, yn unol ag amcanion AL21. Dylai arferion ffermio a choedwigaeth gefnogi a gwella bioamrywiaeth a harddwch y tirlun, tra'n darparu bywoliaeth dda ar ffermydd teuluol ac yn y diwydiant coedwigaeth. Mae angen i gefnogaeth o du'r llywodraeth a'r UE gael ei dargedu i gyrraedd y ddau nod hyn.

15.6 Gall Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gyflwyno polisïau cynaliadwy a phrofi arferion cydnaws â'r amgylchedd. Dylai'r Cynlluniau Rheoli Ardal ddarparu ffordd o integreiddio cyngor ar reolaeth tir amaethyddol a fforestydd gyda ffactorau pwysig eraill megis bioamrywiaeth, archeoleg a gweithgareddau hamdden.

15.7 Rhan o weledigaeth APC yw bod: economi amaethyddol llewyrchus; tir pori comin yn cael ei gynnal a'i gadw, coedwigoedd yn cael eu rheoli'n dda, diwydiant cynnyrch pren yn cael ei ddatblygu, a sgiliau traddodiadol yn

**PYNCIAU**

I. **Polisi'r UE.** Mae argymhellion Agenda 2000 yn dangos tueddiad tuag at ddatgysylltu cymorth prisiau oddi wrth gynhyrchu, gyda thaliadau uniongyrchol uwch a pharhad mesurau amaeth-amgylcheddol i wneud iawn am hynny. Dylai hyn fod o fudd i'r Parc. Ond, bydd angen sicrhau bod Agenda 2000 fel y caiff ei gweithredu yng Nghymru yn cyfrannu at ddiogelu'r amgylchedd, er enghraifft drwy roi anogaeth i ffermwyr reoli coetiroedd. Bydd y PAC diwygiedig hefyd yn cynnwys polisi gwledig integredig. Bydd APC yn defnyddio ei esiamplau o arferion cynaliadwy i helpu'r ymgyrch i ddiwygio'r PAC.

II. **Cynlluniau amaeth-amgylcheddol.** Dylid cyflwyno Tir Gofal yn gynnar yn ystod cyfnod y Cynllun. Os bydd y llywodraeth yn sicrhau adnoddau digonol, dylai helpu gwarchod dolydd gwair, waliau a hen adeiladau fferm, ac integreiddio ffermio a choedwigaeth, gan annog defnydd o goed a gynhyrchwyd ar y fferm. Fodd bynnag, os mai'r canlyniad fydd mwy o bwysau pori ar dir comin, bydd cynefinoedd yn cael eu difrodi. Ymgynghorir ag APC, ac mae'n bwriadu parhau cysylltiad rheolaidd gyda'r gweinyddwyr yn CCGC.

III. **Rheoli tir comin**. Mae perchnogaeth APC o ardaloedd eang o gomin, y gwersi a ddysgwyd o'r prosiect Meithrin Mynydd, a'r deddfwriaethau arfaethedig ar fynediad i dir agored, gyda'i gilydd yn creu'r cyfle i gydweithio rhwng APC a'r cominwyr er lles y ddwy ochr. Ond, gall fod yn anodd cynnwys rheolaeth tir comin o fewn Tir Gofal, felly gallai fod newid mewn pwysau pori ar diroedd comin. Mae materion eraill perthnasol i dir comin yn cynnwys bioamrywiaeth (pennod 5), mynediad (pennod 9), hamdden (pennod 10) a defnydd milwrol (pennod 16).

IV. **Gwerth ychwanegol ac arallgyfeirio**. Mae troi at amaethyddiaeth organig, ychwanegu gwerth i gynhyrchion fferm a choedwigaeth, hyrwyddo cynnyrch lleol o ansawdd, ac arallgyfeirio i fusnesau cysylltiedig neu dwristiaeth yn ffyrdd sydd â photensial i gynyddu incwm ffermydd. Mae APC wrthi'n weithredol yn cefnogi amaethyddiaeth yn y Parc trwy ei fentrau bwyd a thwristiaeth. Mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau twristiaeth cymuned, annog defnydd o gynnyrch lleol gan westai, tai bwyta a mentrau twristaidd eraill, a chefnogi prosiect marchnata da byw a chynnyrch da byw lleol, Cig Oen Bannau Brycheiniog. Bydd ardystio o dan gynllun ardystio coedwigaeth yn helpu i gwrdd â galw defnyddwyr am gynhyrchu cynaliadwy.

V. **Coetiroedd a choedwigoedd.** Gall y cwymp cyson mewn prisiau amaethyddol a thir, cymorthdaliadau plannu wedi eu targedu a pholisi'r llywodraeth o ehangu'r clystyrau coed wneud plannu o'r newydd yn ddeniadol i berchnogion tir. Gall coedwigo ehangach gael effaith andwyol ar dirlun a chadwraeth natur. Ymgynghorir yn ffurfiol ag APC gan y Comisiwn Coedwigaeth ar gynigion plannu coed gyda help grantiau ar safleoedd preifat dros 5ha ac ar newidiadau i Gynlluniau Dylunio Fforest Menter Coedwigaeth. Rhoir ystyriaeth i goedwigaeth hefyd yn y bennod bioamrywiaeth.

**NOD, AMCANION A GWEITHREDU**

**Nod: Hyrwyddo a chefnogi economi wledig lewyrchus wedi ei seilio ar asedau naturiol y Parc**

| AMCAN | GWEITHREDU/TARGED | GWEITHREDU GAN: |
|---|---|---|
| 1. Cefnogi amaethyddiaeth a datblygu gwledig cynaliadwy | i) Ymgyrchu am PAC diwygiedig i gwrdd ag amcanion amgylcheddol a datblygu gwledig | CCGC, APC |
| | ii) Hyrwyddo partneriaeth ymhlith asiantaethau cefn gwlad a datblygu gwledig | CCGC, ADC, AFfCG, CC, APC, AA, YG |
| | iii) Dadlau dros gyllido uchel i Tir Gofal | CCGC, APC |
| | iv) Cynghori ffermwyr ar ymuno â Tir Gofal | CCGC, AFfCG, CC, AA, Cadw, APC, ffermwyr |
| | v) Cynghori ffermwyr ar arferion amaethyddol cynaliadwy ac organig | AFfCG, AACCC, CCGC, APC, YG |
| | vi) Datblygu a gweithredu polisïau CDU | APC |
| | vii) Gweithredu cynllun ailgylchu plastigau fferm | Ffermwyr, gweithredwyr, APC |
| 2. Gwella'r tirlun, cadwraeth natur, gwerth hanesyddol ac amaethyddol tir comin trwy reolaeth gynaliadwy, tra'n parhau hawl mynediad y cyhoedd | i) Dilyn y prosiect Meithrin Mynydd | *Gweler y bennod Tirlun* |
| | ii) Hyrwyddo Tir Gofal ymhlith cymdeithasau cominwyr | CCGC, APC, cominwyr |
| | *iii) Gweler y penodau Tirlun a Mynediad* | |
| 3. Gwella tirlun, gwarchodaeth natur a gwerth amaethyddol ffermdiroedd | i) Cynghori perchnogion tir, yn cynnwys drwy Tir Gofal | CCGC, AFfCG, APC, YN |
| | *ii) Gweler y bennod Bioamrywiaeth* | |
| 4. Cefnogi cynhyrchu coed a fforestydd cynaliadwy addas i dirlun y Parc | i) Rheoli fforestydd cynhyrchiol yn gynaliadwy yn unol â safonau ardystio fforestydd | MC, CC |
| | ii) Dod â choetiroedd fferm o dan reolaeth fel rhan o Tir Gofal a'r Cynllun Cymhorthdal Coetiroedd | CCGC, CC, AA, Cadw, APC, YG, ffermwyr, Coed Cymru |
| | iii) Cyfrannu i raglenni Coed Cymru. | Coed Cymru, APC |
| | iv) Gweithio gyda pherchnogion coetiroedd a fforestydd i ymgyrraedd â safonau ardystio coedwigaeth | APC, CC, MC, YG, Coed Cymru, perchnogion coetiroedd |
| | v) Cyngor i ffermwyr a pherchnogion tir | CC, Coed Cymru, APC |
| | vi) Datblygu a gweithredu polisïau CDU | APC |
| | *vii) Gweler y bennod Bioamrywiaeth* | |
| 5. Datblygu strategaeth ar gyfer hyrwyddo bwyd, coed, cynnyrch arall a chrefftau lleol | i) Cefnogi Cig Oen Bannau Brycheiniog | Grðp cynhyrchwyr, APC, AACCC, Sefydliad Astudiaethau Gwledig Cymru |
| | ii) Datblygu menter bwyd a thwristiaeth | Fforwm Twristiaeth y Bannau, GTG, Grðp Prosiect Bwyd, APC |
| | iii) Cefnogi mentrau marchnata: hyrwyddiadau organig, marchnad ffermwyr, cyfeirlyfr bwyd lleol, cynhyrchion coed | APC, Coed Cymru, grwpiau LEADER, ADC, cynhyrchwyr lleol |
| | iv) Trefnu gwyliau – bwyd, coed, Gwnaed yn y Parc | APC, Coed Cymru, cynhyrchwyr |
| | v) Defnyddio nwyddau a chynnyrch lleol yng nghanolfannau PCBB | APC, Coed Cymru |
| 6. Rheoli datblygiadau adeiledig fferm a choedwigaeth yn addas | i) Datblygu a gweithredu polisïau CDU | APC |
| | *ii) Gweler y bennod Cynllunio* | |
| 7. Cefnogi arallgyfeirio addas ar ffermydd | i) Datblygu a gweithredu polisïau CDU | APC |
| | ii) Cydlynu a chynghori | CCGC, APC, CC, Coed Cymru, Cyswllt Busnes, ADC, BCC |
| | *iii) Gweler hefyd y bennod Twristiaeth* | |
| 8. Monitro ffermio a choedwigaeth | i) Cyflwyno ystadegau amaethyddol ar ardal y Parc erbyn diwedd cyfnod y Cynllun | AACCC |
| | ii) Datblygu dangosyddion ar gyfer gwaith cydgysylltu rhwng APC a ffermwyr yn ystod cyfnod y Cynllun | APC, AACCC, undebau ffermio |
| | iii) Cyflwyno system fonitro coetiroedd CAPC/CC | CAPC, CC, APC |

**MONITRO**

15.8 Ychydig iawn o ddylanwad a gaiff gweithrediadau'r PCA ar dueddiadau amaethyddol o gymharu â grymoedd y farchnad a newidiadau yng nghefnogaeth yr UE a'r llywodraeth. Cesglir ystadegau amaethyddol gan Adran Amaeth y Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar sail cymuned, sydd yn ei gwneud yn anodd i ddarganfod data cywir

am y Parc. Mae APC yn gobeithio newid hyn yn ystod cyfnod y Cynllun. Bydd ganddo ddiddordeb neilltuol yn niferoedd a maint y ffermydd fydd yn ymuno â Tir Gofal a'r Cynllun Cymorth Organig. Gall dangosyddion Tir Gofal CCGC fod yn offeryn monitro defnyddiol.

15.9 Mae gan APC swyddogaeth i gefnogi amaethyddiaeth yn y Parc, ac mae angen dangosyddion i ddangos effeithiau ei waith. Gallai fod yn ddefnyddiol casglu data ar, er enghraifft, ailgylchu plastigau fferm, defnydd y Weinyddiaeth Amddiffyn o dir comin, defnydd o farchnadoedd ffermwyr, cyhoeddi cyfeirlyfr bwyd, presenoldeb mewn gwyliau, a mentrau arallgyfeirio ffermydd. Mae gan gynlluniau a gyllidir gan yr UE, fel Cig Oen Bannau Brycheiniog, eu systemau monitro eu hunain.

15.10 Mae gan APC ddata da ar goetiroedd yn y Parc, a fydd yn cael eu diweddaru ar gyfer adroddiad Cyflwr y Parc, ac a fydd yn dangos unrhyw fylchau. Bydd gweithgor CAPC a CC yn cyflwyno system fonitro coetiroedd ym 1999/2000 ac mae APC yn bwriadu ei fabwysiadu. Mae MC yn monitro ei ddaliadau tir ei hun.

# 16 DEFNYDD MILWROL O'R PARC

16.1 Er nad yw'r defnydd milwrol o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar yr un raddfa ag yw yn Dartmoor neu Northumberland, mae ei effeithiau'n ddigon eang i gyfiawnhau pennod ar wahân yn y Cynllun hwn. Mae gan ardal Aberhonddu hanes hir o gysylltiadau milwrol, ac mae pencadlys y Fyddin ar gyfer unedau yng Nghymru yn parhau i fod yn y Barics. Tra nad yw'r Weinyddiaeth Amddiffyn (WA) bellach yn berchen ar unrhyw lecynnau hyfforddi o bwys yn y Parc, mae ganddi diroedd eang yn union ar gyrion ei derfynau. Mae'n defnyddio tir agored a gofod awyr y Parc ar gyfer gweithgareddau antur a hyfforddi. Mae'r gweithgareddau hyn yn effeithio ar sawl agwedd ar fywyd a gwaith y Parc, ac felly maent yn destun pryder i APC.

16.2 Mae'r WA ar hyn o bryd yn berchen ar tua 114ha o dir yn y Parc. Mae hyn yn cynnwys Maes Tanio'r Ynys Rufeinig, darn o dir uwchben Trecastell; y gwersyll ym Mhontsenni, safle'r Maes Hyfforddi i'r gogledd o'r Parc; yn Aberhonddu, gwersyll hyfforddi Dering Lines a'r caeau chwarae a'r Barics, pencadlys Brigâd 160 (Cymru); a Cwrt y Gollen ger Crughywel, gynt yn ganolfan i'r Fyddin Diriogaethol, ond sydd bellach mwy neu lai yn ddianghenraid. Mae dwy ganolfan gweithgareddau awyr agored fach sy'n eiddo i'r Llynges yn y Parc.

16.3 Mae hyfforddi milwrol yn digwydd ar safleoedd y WA ei hun, ac mae traffig sylweddol o gerbydau i ac o Aberhonddu a Phontsenni, ar eu ffordd i Faes Hyfforddi Pontsenni. Defnyddir hofrenyddion ar gyfer symud personél ac ar gyfer hyfforddi. Mae awyrennau jet a Hercules yn defnyddio gofod awyr y Parc ar gyfer hyfforddi hedfan isel. Mae swyddogion y Gwasanaethau'n defnyddio'r bryniau a'r llwybrau cyhoeddus ar gyfer hyfforddi milwrol a thactegol mewn iwnifform gyda phaciau ac arfau, ac ar gyfer gweithgareddau antur megis cerdded mynyddoedd a dringo creigiau. Mae canðio, ogofa a barcuta hefyd yn digwydd.

16.4 Mae presenoldeb milwrol yn y Parc yn rhan o hanes, diwylliant ac economi'r ardal. Barics Aberhonddu oedd cartref catrawd Cyffinwyr De Cymru, sydd â'u hamgueddfa'n agored i'r cyhoedd. Mae'r amrywiol sefydliadau'n cynnig gwaith i weithwyr preifat lleol ac yn defnyddio gwasanaethau lleol, sy'n gyfraniad pwysig i'r economi. Mae'r staff parhaol a'u teuluoedd, gan gynnwys Cwmni o filwyr Gurkha, yn ychwanegu amrywiaeth i fywyd diwylliannol Aberhonddu. Mae tai staff yn Aberhonddu a Cwrt y Gollen yn arwyddocaol yn nhermau cynllunio.

16.5 Mae'r Parc yn manteisio ar help unedau milwrol sy'n hyfforddi yn y Parc drwy 'Ymarferiad Dipper' (*Exercise Dipper*), lle mae sgiliau, gweithluoedd a hofrenyddion o unedau sy'n ymweld yn cael eu defnyddio i adeiladu pomprennau troed, atgyweirio llwybrau a thasgau eraill o'r fath. Mae APC yn cadw cysylltiad gyda 'Defence Estates', y rhan o'r WA sy'n rheoli ei thiroedd, a chyda Brigâd Pencadlys 160 (C) sy'n rheoli unedau sy'n defnyddio tiroedd comin APC ar gyfer hyfforddi. Fel corff cyhoeddus, mae'n rhaid i'r WA o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 ystyried dibenion y parc cenedlaethol wrth weithredu ei weithgareddau.

16.6 Mae gweledigaeth APC ar gyfer y Parc yn cynnwys parhad y defnydd milwrol cyn belled â bod cysylltiadau'n cael eu cynnal a'u gwella, ond mae'n ceisio lleihad o'r tarfu gan awyrennau'n hedfan yn isel.

**PYNCIAU**

I. **Priodoleddau arbennig.** Un o briodoleddau arbennig y Parc yw heddwch a thawelwch, a gall y sðn oddi wrth awyrennau'n hedfan yn isel a hofrenyddion darfu'n ddifrifol arno. Mae'r pryder a achosir gan y mater hwn yn amrywio gyda threfniadau hyfforddi, ond nid yw'n agored i gael ei ddylanwadu gan APC, yr AU na mudiadau

II. **Strategaeth Ystadau Gwledig y WA**. Mae'r WA yn argymell datblygu strategaeth sy'n cymryd ystyriaeth briodol o bryderon y deiliaid, gan ymgynghori â hwy ar godau ymarfer manwl mewn perthynas â'i amcanion rheoli a'i ffyrdd o'u gweithredu. Ychydig o dir gwledig yn y Parc sy'n eiddo i'r WA, ond gallai unrhyw newid yn y defnydd o Feysydd Tanio Pontsenni fod yn arwyddocaol.

III. **Hyfforddi anturus**. Mae effeithiau defnydd milwrol o'r Parc ar gyfer ymarferion a hyfforddi anturus yn debyg i'r rhai a achosir gan grwpiau gweithgareddau awyr agored wedi eu trefnu. Os wedi eu rheoli'n wael neu eu gorwneud, gallant achosi traffig ar lonydd culion, tarfu ar anifeiliaid, erydu llwybrau, sbwriel ac anhwylustod i ffermwyr oherwydd difrod achlysurol i waliau a ffensys. Ffactor ychwanegol yw'r effaith y mae gweld milwyr arfog mewn iwnifform yn ei gael ar fwynhad rhai. Lle bo'n berthnasol, dylid cynnwys digwyddiadau antur yn y polisi ar ddigwyddiadau chwaraeon a her sy'n cael ei ddatblygu gan APC.

IV. **Cydlynu.** Mae cydlynu rhwng APC a'r WA wedi gwella'n sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae Memorandwm Dealltwriaeth eisoes yn bod rhwng y WA a CAPC, ac mae un lleol yn cael ei ddatblygu. Bydd hwn yn mynd i'r afael â hysbysiadau am ddefnydd tir, graddfeydd y defnydd ac ardaloedd sensitif. Ni ddisgwylir i'r Arolwg Strategol Amddiffyn gael effaith sylweddol ar raddfa'r defnydd milwrol o'r Parc. Mae 'Ymarferiad Dipper' yn rhoi cyfle i unedau sy'n ymweld gyfrannu at y Parc.

V. **Datblygu**. Cadarnhad cynllunio yn hytrach na chaniatâd cynllunio sydd ei angen ar y WA i ddatblygu ar dir y Goron. Bydd APC yn defnyddio'r un meini prawf dyluniad ag mewn achosion eraill wrth wneud sylwadau, a bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gweithredu fel canolwr mewn unrhyw anghydfod. Gweler y bennod Cynllunio.

**NODAU, AMCANION A GWEITHREDU**

| **Nod: Lleihau effaith andwyol defnydd milwrol o’r Parc, a chynyddu i’r eithaf y budd** | | |
|---|---|---|
| **AMCAN** | **GWEITHREDU/TARGED** | **GWEITHREDU GAN:** |
| 1. Gwarchod a gwella heddwch a thawelwch y Parc | i) Ceisio lleihad mewn hedfan milwrol isel a hedfan hofrenyddion | APC, cymunedau, WA |
| 2. Lleihau’r effeithiau andwyol a achosir gan ymarferiadau milwrol a hyfforddi antur ar dirlun, bioamrywiaeth, diddordeb hanesyddol a mwynhad eraill o’r Parc | i) Datblygu a gweithredu Memorandwm Dealltwriaeth yn ystod cyfnod y Cynllun | APC, WA, perchnogion tir, cominwyr |
| | ii) Cydlynu buan rhwng y WA, defnyddwyr gwasanaethau a pherchnogion tir | APC, WA, perchnogion tir, cominwyr |
| | iii) Defnyddio monitro i rannu’r gwaith yn briodol | APC, WA, perchnogion tir, cominwyr |
| | *iv) Gweler y penodau Tirlun, Mynediad a Hamdden* | |
| 3. Addysgu defnyddwyr gwasanaethau ar ddefnydd cyfrifol, cynaliadwy a phriodol o’r Parc | i) Datblygu a gweithredu Memorandwm Dealltwriaeth a datblygu rhaglen gydlynu gyda’r WA a defnyddwyr gwasanaethau | APC, WA |
| | ii) Datblygu Ymarferiad Dipper | APC, WA |
| 4. Sicrhau bod datblygiadau’r WA yn gyson ag amcanion y Parc lle bo modd | i) Cydlynu â’r WA ynghylch defnydd a dyluniad tir | APC, WA |
| | *ii) Gweler y bennod Cynllunio* | |
| 5. Rheoli tir gwledig y WA o fewn y Parc ac sy’n effeithio arno, fel y bo’n cefnogi dibenion y Parc | i) Cysylltu ynghylch Memorandwm Dealltwriaeth a datblygu Strategaeth Ystadau Gwledig | WA, APC, |
| 6. Monitro defnydd gwasanaethau o’r Parc | i) Cynnwys monitro yn y Memorandwm Dealltwriaeth | WA, APC |

**MONITRO**

16.7 Bydd angen monitro’r defnydd o’r Parc gan unedau milwrol, gyda’r bwriad o leihau problemau a rhannu’r pwysau os yn briodol. Bydd hyn yn digwydd mewn cysylltiad â’r WA.

# 17 MEITHRIN FFYNIANT ECONOMAIDD A CHYMDEITHASOL Y GYMUNED LEOL

17.1 Mae gan Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog boblogaeth o tua 32,000, y nifer fwyaf yn nyffryn Wysg rhwng Aberhonddu a Gilwern, ac yng Ngheunant Clydach rhwng Gilwern a Brynmawr. Y prif aneddiadau yw Aberhonddu (pob. 7,500), Gilwern, Y Gelli Gandryll, Crughywel, Talgarth a Phontsenni. Mae llawer o bentrefi llai, mân aneddiadau a ffermydd gwasgaredig.

17.2 Er i amaethyddiaeth fod yn sylfaen i economi'r Parc ers amser maith, dim ond degfed ran o'r boblogaeth sy'n gweithio sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol yn y diwydiant. Gwasanaethau cyhoeddus, ariannol ac eraill yw prif gyflogwyr trigolion y Parc, yn cael eu dilyn gan ddosbarthu ac arlwyo. Fel ym mhob ardal wledig, mae canoli siopau a gwasanaethau eraill a lleihad trafnidiaeth gyhoeddus wedi cael effaith bellgyrhaeddol ar y ffordd o fyw.

17.3 Mae gweledigaeth APC ar gyfer y Parc Cenedlaethol yn cynnwys cymunedau iach a chymdeithasol gynhwysol a bywyd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol llewyrchus a chynaliadwy. Mae APC wrth geisio gweithredu ei ddwy swyddogaeth statudol yn gorfod "ceisio meithrin ffyniant economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol". Mae dan orchymyn i beidio gwario'n sylweddol ar hyn, ond yn hytrach i weithio ar y cyd gydag asiantaethau eraill. Nid yw datblygu economaidd yn un o gyfrifoldebau craidd APC, ond mae'n gatalydd pwysig yn ei swyddogaeth fel yr ACLl, yn pennu tir ar gyfer datblygiad ac anghenion cymunedol. Mae elfennau pwysig o'r economi lleol, yn enwedig amaethyddiaeth a thwristiaeth, yn perthyn yn uniongyrchol i swyddogaethau statudol APC, tra bod safle'r Parc Cenedlaethol yn agos i ardal ddiwydiannol de Cymru yn bwysig wrth ddenu diwydiant yno. Felly mae gwaith APC yn cyfrannu'n uniongyrchol i'r bywyd economaidd.

17.4 Mae dull APC o weithredu'r dyletswydd hwn wedi ei wreiddio yn ei ymrwymiad i gynaladwyedd ac i Agenda Leol 21. AL21 yw'r broses lle mae pobl yn dyfeisio eu strategaethau eu hunain i wneud eu cymuned, eu hamgylchedd a'u heconomi yn iach ac yn gynaliadwy. Iechyd, addysg ac allgau cymdeithasol yw blaenoriaethau'r llywodraeth ar gyfer AL21 ac i'r rhain y bydd amcanion APC ar gyfer mynediad a hamdden cefn gwlad yn cyfrannu.

17.5 Mae cynaladwyedd tymor hir polisïau APC yn ddibynnol ar berthynas waith dda gydag asiantaethau eraill, a chyda phobl leol. Nid yw cylch gwaith APC yn cynnwys holl agweddau AL21, ac mae gweithio ar y cyd yn hanfodol gydag AU, sydd â chyfrifoldeb neilltuol dros ddatblygu AL21, a chyda mudiadau gwirfoddol. Am y rheswm hwn, ni fydd APC yn llunio strategaeth AL21 fel y cyfryw; mae'r Cynllun Rheoli hwn yn cynnwys pob

17.6 Mewn datganiad ar y cyd ar AL21, mae tri APC Cymru wedi gwneud ymrwymiad i:

- gynnwys pobl leol wrth ddatblygu polisïau priodol, a chydnabod pwysigrwydd a gwerth dyheadau a sgiliau lleol, yn ogystal â phwysigrwydd amcanion a dulliau gweithredu cenedlaethol;
- geisio sicrhau bod pob sector o'r boblogaeth leol yn cael cyfle i chwarae rhan yn y broses hon;
- helpu cymunedau lleol i gwrdd ag anghenion datblygu cynaliadwy er gwaethaf unrhyw anawsterau sy'n deillio o fod yn anghysbell neu sylfaen economaidd gyfyng.

17.7 Mae cynghorau cymuned yn cynrychioli democratiaeth leol agos at y bobl, ac mae gan APC gyfrifoldeb statudol i ymgynghori â nhw ynghylch materion rheoli datblygiad. Yn ogystal, mae perthynas waith agos gyda'r 50 o gynghorau yn y Parc o fudd i'r ddwy ochr wrth gyflawni amcanion APC a gwella ansawdd bywyd yn lleol.

**PYNCIAU**

I. **Agenda Leol 21.** Mae llawer o waith APC yn cyfrannu at AL21, fel sy'n cael ei nodi ymhob pennod yn y Cynllun hwn. Mae APC yn buddsoddi mewn datblygiadau cymunedol a chefnogaeth i fentrau lleol, yn helpu meithrin sgiliau, hyder ac ymwybyddiaeth yng nghyd-destun ehangach bywyd yn y Parc. Bydd hyn nid yn unig yn help i gynnal cymeriad y Parc fel tirlun cyfannedd; dylai hefyd arwain at gynnydd mewn hyfywedd ac at gyfranogiad lleol wrth weithredu amcanion statudol APC.

II. **Cyflogaeth**. Tra nad oes gan APC ran uniongyrchol mewn datblygu economaidd, gall chwarae rhan mewn cefnogi ffyniant economaidd cymunedau'r Parc. Mae'n cefnogi datblygu gwledig cynaliadwy yn ei swyddogaeth fel ACLl, drwy'r CDU a rheolaeth datblygiad. Mae'n helpu cefnogi crefftwyr a chynhyrchwyr eraill drwy annog arloesi a marchnata. Mae'n ymwneud yn agos â diwydiannau fel amaethyddiaeth a thwristiaeth. Mae APC hefyd yn creu gwaith ei hun, gan ddefnyddio cyllid o'r UE a ffynonellau eraill i weithredu cynlluniau cadwraeth neu reolaeth hamdden.

III. **Cyllid o'r UE**. Mae gan Sir Gaerfyrddin a'r Awdurdodau Unedol ar hyd ymyl ddeheuol y Parc statws Amcan 1, ac maent yn gymwys am gymorth grant o 75% ar gyfer prosiectau a gymeradwywyd. Mae gan orllewin Powys statws Amcan 2, gyda grantiau o hyd at 50% ar gyfer rhychwant mwy cyfyng o brosiectau. Fodd bynnag, statws Amcan 3 yn unig sydd gan ddwyrain Powys a Sir Fynwy. Rhaid i APC wneud y defnydd gorau o'r cronfeydd strwythurol newydd hyn.

IV. **Tai**. Bydd tai, yn enwedig tai cost-isel i bobl leol, yn bwnc trafod o bwys yn ystod cyfnod y Cynllun hwn. Rhaid amcangyfrif newidiadau ym mhoblogaeth y Parc, a phenderfynu ar ei anghenion tai am y 10 mlynedd nesaf, er mwyn darparu gwybodaeth i CDU APC ar gyfer ardal y Parc. Yn ôl canllawiau'r llywodraeth, rhaid i ACLl fod â chyflenwad 5 mlynedd o dir cymwys i adeiladu tai wrth law yn wastadol, drwy ofalu bod digon o dir wedi ei neilltuo yn y CDU.

V. **Cefnogaeth gymunedol arall.** Mae APC, ynghyd â chyrff eraill, yn gallu defnyddio ei gysylltiadau a'i arbenigedd i helpu cymunedau i gadw, darparu a gwella cyfleusterau ac adnoddau. Gall hyn yn ei dro helpu cymunedau i barhau'n ymarferol, yn unol â gweledigaeth APC ar gyfer y Parc.

**NOD, AMCANION A GWEITHREDU**

**Nod A: Galluogi cymunedau i ddatblygu'r sgiliau, yr hyder a'r wybodaeth i gwrdd â phryderon lleol yn llwyddiannus ac yn gynaliadwy, yn unol ag Agenda Leol 21.**

| AMCAN | GWEITHREDU/TARGED | GWEITHREDU GAN: |
|---|---|---|
| 1. Trefnu cysylltiadau a hyfforddiant ar gyfer cynghorau cymuned | i) 7 cyfarfod ardal, 2 ddigwyddiad hyfforddi a 4 taflen briffio bob blwyddyn | APC, AU |
| 2. Darparu hyfforddiant a chefnogaeth prosiect i grwpiau cymunedol | i) Cefnogi 3 prosiect cymunedol mawr a 10 o rai bach bob blwyddyn | APC, grwpiau LEADER, cymunedau, asiantaethau gwirfoddol |
| 3. Hyrwyddo gwerthuso a phrosiectau AL21 eraill sy'n annog nodi anghenion lleol neu warchod hunaniaeth leol | i) Datblygu mentrau AL21 mewn 2 gymuned | APC, Ymddiriedolaeth y Tywysog, AU, CDCW, cymunedau, asiantaethau gwirfoddol |
| | ii) Cadw cysylltiad agos â swyddogion AL21 AU | APC, AU |
| | *iii) Gweler hefyd y penodau Diwylliant a thraddodiad a Thwristiaeth* | |
| 4. Monitro llwyddiant prosiectau cymunedol | i) Datblygu dulliau monitro yng nghyfnod y Cynllun | AU, APC |

**Nod B: Datblygu sylfaen economaidd y Parc er mwyn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth mewn sectorau sy'n addas i briodoleddau arbennig y Parc**

| AMCAN | GWEITHREDU/TARGED | GWEITHREDU GAN: |
|---|---|---|
| 1. Galluogi diwydiannau priodol i sefydlu ac ehangu | i) Dosrannu tir yn y CDU | APC, ADC |
| | ii) Datblygu a gweithredu polisïau CDU ar ddefnydd safleoedd | APC, ADC |
| 2. Hyrwyddo crefftau a chynnyrch lleol, gan gydweithio â chynhyrchwyr | i) Parhau i gynnal gwyliau yn y Ganolfan Fynydd a mannau eraill | APC, ADC, cynhyrchwyr |
| | ii) Cefnogi rhwydweithiau cynhyrchwyr, hen a newydd | APC, ADC, cynhyrchwyr |
| | *iii) Gweler y penodau Twristiaeth a Ffermio a choedwigaeth* | |
| 3. Creu gwaith gan ddefnyddio rhaglenni a gyllidir gan yr UE a'r Fargen Newydd | i) Prosiect erydu'r ucheldiroedd *(gweler y bennod Mynediad)* | APC |
| | ii) Defnyddio cyllid LEADER III, Amcan 1 a 2 ac unrhyw gyfleoedd eraill sy'n codi | AU, APC, grwpiau LEADER |
| 4. Cefnogi'r diwydiannau amaethyddiaeth a thwristiaeth | *i) Gweler y penodau Twristiaeth a Ffermio a Choedwigaeth* | |
| 5. Monitro ac adolygu cyflogaeth | i) Parhau i gasglu ystadegau cyflogaeth a chynghori APC ar anghenion tir | ADC, AU |

**Nod C: Sicrhau bod tai a rhychwant lawn o wasanaethau a chyfleusterau i gwrdd ag anghenion bob dydd ar gael i gymunedau o fewn y Parc**

| AMCAN | GWEITHREDU/TARGED | GWEITHREDU GAN: |
|---|---|---|
| 1. Nodi strwythur, cyfeiriad ac anghenion tai y boblogaeth | i) Cael gafael ar ddata cyfrifiad a'i asesu | APC, |
| | ii) Ymgynghori ar ddosraniadau tai CDU | APC, AU, cymunedau |
| 2. Nodi anghenion tai cost-isel | i) Cynnal arolygon anghenion tai | AU, cymunedau, APC |
| | ii) Ymgynghori ar ddosraniadau tai CDU | APC, AU, cymunedau |
| | iii) Datblygu a gweithredu polisïau CDU | APC |
| 3. Cefnogi grwpiau cymunedol drwy ddarparu a chynnal cyfleusterau a mwyniannau | i) Hyrwyddo a chefnogi cynlluniau gwerthuso cymunedol a phrosiectau eraill o'r fath | Cymunedau, AU, grwpiau LEADER, asiantaethau gwirfoddol, APC |
| | ii) Datblygu a gweithredu polisïau CDU | APC |
| | iii) Defnyddio eiriolaeth ar gyfer cynnal gwasanaethau | APC, AU |
| | *iv) Gweler Nod A 2. I) uchod* | |
| 4. Monitro cyfleusterau tai a chymuned | i) Monitro anghenion a chyflenwad tai drwy'r CDU | APC |
| | ii) Cadw golwg ar anghenion cymunedol | AU, APC |

**MONITRO**

17.8 Bydd darpariaeth tai yn cael ei fonitro drwy broses y CDU, a mater i'r AU yw datblygiad economaidd yn ei gyfanrwydd. Mae angen i APC fonitro ei gyfraniad ei hun i ffyniant economaidd a chymdeithasol y gymuned leol. Gellir cyflawni hyn drwy fesur:

- y swm a'r math o gyllido allanol a ddenir i'r Parc, gan APC neu gan grwpiau cymunedol yn gweithredu ar gyngor APC;
- nifer y prosiectau wedi eu cyllido a gefnogir;
- nifer y bobl a gafodd fudd o'r prosiectau a gyllidwyd;
- y nifer a'r math o brosiectau eraill a gefnogwyd a'r nifer o bobl a gafodd fudd ohonynt.

17.9 Rhaid i brosiectau a gyllidir gan yr UE gynnwys mesurau monitro, a fydd yn cael eu gweithredu. Bydd mewnbwn APC i brosiectau yn amrywio. Bydd ei gyfraniad i bob un yn cael ei fesur mewn dyddiau staff.

17.10 Bydd angen i APC fonitro effeithiolrwydd ei waith datblygu cymunedol, a datblygir dangosyddion ar gyfer hyn yn ystod cyfnod y Cynllun hwn.

# 18 BLAEN-GYNLLUNIO A RHEOLI DATBLYGIAD

18.1 APC yw awdurdod cynllunio lleol ardal y Parc, ac mae ganddo'r swyddogaethau statudol o reoli datblygiad a chynhyrchu cynllun datblygu ar gyfer y Parc. Mae gan APC Gynllun Lleol mabwysiedig, a bydd yn ymgynghori ar Gynllun Datblygu Unedol yn ystod cyfnod y Cynllun Rheolaeth hwn ac yn ei gyhoeddi. Mae APC yn gweithio gydag ACLl cyfagos i lunio canllawiau cynllunio strategol. Oherwydd ei leoliad, mae'n cael ei gynrychioli ar dri allan o bedwar grðp cynllunio is-ranbarthol Cymru.

18.2 Wrth gyflawni eu swyddogaethau cynllunio, mae APC ac ACLl eraill yn rhwym i ddeddfwriaeth cynllunio, canllawiau'r llywodraeth a rheoliadau. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r rhain yn berthnasol o fewn yn ogystal ag oddi allan i Barciau Cenedlaethol, er enghraifft yn y rheolaeth lem ar ddatblygiadau trigiannol yng nghefn gwlad. Mae canllawiau cynllunio'r llywodraeth ar gyfer Cymru'n gorfodi APC i roi pwyslais mawr ar gadwraeth ac ychwanegu at harddwch naturiol o fewn y Parc. Mae'n datgan na ddylai datblygiadau mawr ddigwydd, oni bai fod amgylchiadau eithriadol.

18.3 Mae APC yn defnyddio ei swyddogaeth cynllunio i'w helpu i gyflawni ei nodau a'i amcanion ehangach. Mae Cynllunio'n ffordd o warchod y tirlun ac aneddiadau rhag datblygiadau anaddas, integreiddio datblygiad gyda thrafnidiaeth, gan ganiatáu cyfleusterau hamdden a darparu tai a chyflogaeth i bobl leol. Felly mae llawer o'r amcanion yn y Cynllun hwn yn ymwneud â gweithredu i gynnwys polisïau perthnasol yn y CDU. Cysylltir defnydd tir a chynllunio trafnidiaeth trwy'r Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol.

18.4 Rhan o weledigaeth APC yw fod datblygiad o fewn y Parc yn gynaliadwy. Mae ei swyddogaeth fel ACLl yn rhoi llawer o gyfleoedd i APC weithredu egwyddorion cynaladwyedd ac AL21. Mae cynaladwyedd yn golygu sicrhau dyfodol gwell i amgylchedd a phobl y blaned drwy warchod adnoddau a chynnwys pobl leol yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae APC yn datblygu ei ddosraniadau tir, polisïau a chanllawiau dylunio yn y fath fodd ag i arbed ynni a lleihau gwastraff, llygredd a'r angen i deithio. Defnyddiwyd technegau *Planning for Real*™ i gynnwys trigolion y Parc yn y gwaith o ddatblygu'r Cynllun Lleol. Bydd y cyhoedd hefyd yn cael eu cynnwys mewn ymgynghoriadau ar agweddau strategol a lleol y CDU.

**PYNCIAU**

I. **Datblygu cynaliadwy.** Yr egwyddor bwysicaf sydd wrth wraidd polisïau cynllunio APC yw anelu at ddatblygu cynaliadwy, mewn ffyrdd sy'n addas ar gyfer amcanion statudol y Parc a'i safle gwledig. Bydd angen strategaeth tymor-hir yn y CDU, yn cynnwys rheolaeth adnoddau, dosraniad tir, polisïau defnydd tir a safle a dyluniad adeiladau.

**NOD, AMCANION A GWEITHREDU**

**Nod: Darparu fframwaith polisi i roi arweiniad ar ddatblygu cynaliadwy a defnydd tir o fewn y Parc yn unol â dibenion statudol APC.**

| AMCAN | GWEITHREDU/TARGED | GWEITHREDU GAN: |
|---|---|---|
| 1. Cyfrannu at gynllunio strategol rhanbarthol | i) Cymryd rhan mewn fforymau cynllunio rhanbarthol perthnasol | APC, AU |
| 2. Paratoi CDU ar gyfer y Parc yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy | i) Cynnwys cyrff cyhoeddus, y cyhoedd ac ymgynghori ag eraill wrth ffurfio polisïau | APC, ymgynghorwyr |
| | ii) Mabwysiadu'r CDU erbyn diwedd 2000 | APC, ymgynghorwyr |
| 3. Lleihau'r niwed a wneir i'r Parc gan weithio mwynau, tra'n cyflawni gorchwylion APC fel ACM | i) Datblygu a gweithredu polisïau yn y CDU | APC |
| | ii) Trafod gyda chwmnïau mwynau gynllun CCCh i leihau chwarela mewn parciau cenedlaethol | APC, cwmnïau mwynau |
| | iii) Cydlynu ag ACM o fewn y rhanbarth | APC, ACM |
| 4. Atal niwed i'r Parc oherwydd gwaredu | i) Datblygu a gweithredu polisïau yn y CDU | APC |

| | | |
|---|---|---|
| gwastraff a hyrwyddo ailgylchu | ii) Hyrwyddo ailgylchu ar bob lefel | AU, APC |
| 5. Gweithredu system effeithiol o reolaeth a gorfodaeth datblygu | i) Gweithredu ar reolaeth datblygiad | APC |
| | ii) Gweithredu argymhellion ymgynghorwyr ar orfodaeth fel bo adnoddau'n caniatáu | APC |
| 6. Gwella dylunio, effeithiolrwydd ynni a'r defnydd o ddeunyddiau mewn adeiladau newydd | i) Cyhoeddi Canllaw Dylunio a Llawlyfr Dylunio Ffenest Siop yng nghyfnod y Cynllun | APC, CCGC |
| | ii) Chwilio o ddifrif am ffynonellau carreg adeiladu a llechi yng nghyfnod y Cynllun | APC |
| | iii) Cyhoeddi canllawiau ar gynaladwyedd yng nghyfnod y Cynllun | APC |
| 7. Cynyddu cyfranogiad, dealltwriaeth a boddhad y cyhoedd yng ngwasanaeth cynllunio APC | i) Parhau i gynnwys y cyhoedd yn natblygiad y CDU a pholisi | APC |
| | ii) Cynhyrchu nodiadau cynghori cynllunio newydd a diwygiedig fel bo'r angen | APC |
| | iii) Cynnal y canolfannau cynghori cynllunio | APC |
| | iv) Adolygu'r Siarter Gwasanaethau Cynllunio yng nghyfnod y Cynllun | APC |
| | v) Dyfeisio rhaglen addysgiadol gyfredol ar gyfer cynghorwyr cymuned ac eraill | APC |
| 8. Datblygu system fonitro ar gyfer gwasanaethau cynllunio APC | i) Cadw golwg ar y Siarter Gwasanaethau Cynllunio a monitro barn y cyhoedd | APC |
| | ii) Monitro perfformiad rheolaeth datblygiad | APC, CCC |
| | iii) Cael lluniau o'r awyr o'r Parc yn ystod cyfnod y Cynllun er mwyn helpu gorfodi a monitro | APC |

**PYNCIAU parh.**

II. **Canllawiau strategol rhanbarthol.** Bydd y canllawiau sy'n cael eu paratoi ar sail ranbarthol gan ACLl yng Nghymru yn darparu cyd-destun ehangach ar gyfer y CDU. Byddant yn helpu i leihau anghysonderau rhwng cynlluniau awdurdodau cyfagos, ac yn helpu i gynllunio cyfleusterau fydd yn gwasanaethu'r rhanbarth cyfan.

III. **Materion CDU**. Bydd CDU APC yn cynnwys yr un materion ag unrhyw GDU AU. Ymdrinnir â'r rhai sy'n gysylltiedig â swyddogaethau statudol APC mewn penodau eraill yn y Cynllun hwn: ynghylch tai, gweler y bennod Cymunedau lleol; ynghylch cyflogaeth, gweler y penodau Cymunedau lleol, Twristiaeth a Ffermio a choedwigaeth; ynghylch ffyrdd a thrafnidiaeth gweler y bennod Trafnidiaeth. Materion eraill i'r CDU fydd mwynau a gwastraff, siopau, ysgolion, iechyd a thelathrebu.

IV. **Cyrff cyhoeddus.** Mae AP, ymgymerwyr statudol a darparwyr telathrebu ymhlith y cyrff cyhoeddus y mae rheidrwydd arnynt o dan Ddeddf yr Amgylchedd i gymryd amcanion parciau cenedlaethol i ystyriaeth. Bydd APC yn pwyso arnynt trwy ei ymgynghoriadau CDU i gydnabod hyn, ac i fabwysiadu ei ddibenion yn unol â hyn, hyd

V. **Gweithio mwynau**. Mae'r llywodraeth yn benderfynol o roi gwarchodaeth bellach i barciau cenedlaethol rhag chwareli a mwyngloddiau brig, ac mae'n datgan bod yn rhaid i geisiadau mwyngloddio mewn parciau cenedlaethol gael eu harchwilio yn y modd mwyaf trwyadl. Bydd y CDU yn adlewyrchu hyn. Croesewir ymrwymiad Cymdeithas Cynnyrch Chwareli i leihau pwysau am ddatblygu. Cred yr APC na ddylid gofyn i barciau cenedlaethol gyfrannu'n gymesur i fanciau tir rhanbarthol. Bydd y CDU yn cynnwys adfer pyllau a

VI. **Gwaredu gwastraff**. Unig swyddogaeth APC yn hyn yw fel ACLl. Bydd angen cydlynu'n agos â'r AU, sy'n gyfrifol am gasglu gwastraff, ac AA, sy'n rheoli gwaredu gwastraff, wrth ddatblygu'r CDU. Bydd APC yn tynnu sylw at gyfleoedd i hybu ailgylchu.

VII. **Rheolaeth a gorfodaeth datblygiad.** Fel ACLl, mae APC yn penderfynu ar geisiadau cynllunio o fewn y Parc, yn unol â deddfwriaeth, rheoliadau a chanllawiau'r llywodraeth. Mae hon yn swyddogaeth statudol ac yn rhan bwysig o'i waith. Bydd gorfodi rheolaeth cynllunio'n bwnc trafod pwysig yn ystod cyfnod y Cynllun hwn yn dilyn adroddiad ar orfodaeth a monitro mewn parciau cenedlaethol a gomisiynwyd gan GCGC, y Comisiwn Cefn Gwlad, a'r CAPC.

VIII. **Dylunio a deunyddiau**. Mae dulliau adeiladu o wahanol ganrifoedd i'w gweld yng ngwneuthuriad yr adeiladau hþn ledled y Parc. Mae angen i'r rhain gael eu gwarchod, ac i ddyluniadau datblygiadau newydd adlewyrchu elfennau priodol. Mae angen ffynonellau o garreg adeiladu a llechi, fel nad yw hen waliau ac ysguboriau'n cael eu hysbeilio. Gall teiliau carreg artiffisial fod yn well na llechi ar rai adeiladau gwledig sydd heb eu rhestru. Gall hyn olygu fod angen cymhorthdal. Dylai APC ddarparu canllawiau wedi'u diweddaru ar ddyluniad a deunyddiau adeiladau yn y Parc Cenedlaethol. Mae hefyd angen canllawiau i alluogi ymgeiswyr i gynyddu i'r eithaf effeithiolrwydd ynni eu cynigion, a lleihau'r deunyddiau a ddefnyddir a'r gwastraff a gynhyrchir.

IX. **Cynnwys y cyhoedd.** Mae swyddogaeth APC fel ACLl yn rhoi iddo broffil uchel yn y gymuned leol, ac mae'n ceisio cynnwys y cyhoedd cymaint â phosib wrth ddatblygu polisi cynllunio. Mae'r Siarter Gwasanaethau Cynllunio'n dangos sut mae APC yn ceisio gwneud rheolaeth cynllunio a'i holl wasanaethau cynllunio yn fwy derbyniol i'r defnyddiwr. Mae'r system gynllunio yn gymhleth, ac mae gan APC ran yn y gwaith o'i hesbonio hi i gynghorau cymuned ac eraill.

**MONITRO A GWERTH GORAU**

18.5 Mae APC yn monitro boddhad y cyhoedd gyda'i wasanaeth cynllunio, ac mae perfformiad rheolaeth datblygiad ac ystadegau'n cael eu monitro gan y Swyddfa Gymreig. Byddai set newydd o ffotograffau o'r awyr yn ddefnyddiol er mwyn darparu darlun o ddatblygiad o fewn y Parc, ac fel sylfaen cymhariaeth ar gyfer monitro a gorfodi.

18.6 Mae rheolaeth a gorfodaeth datblygiad ymhlith y gwasanaethau a ddaw o dan yr arolygon gwasanaethau Gwerth Gorau a gynhelir yn ystod 2000/1, yn unol â'r rhaglen Gwerth Gorau.

# 19 CYNLLUNIAU RHEOLI ARDAL

19.1 Mae adran gyntaf Cynllun Rheoli y Parc Cenedlaethol yn cynnwys nodau, amcanion a gweithredoedd APC ynglþn â phob agwedd ar ei waith. Bydd yr ail adran yn cynnwys set o 11 cynllun rheolaeth ardal (CRhA) ar gyfer y Parc, trwy ba rai y bydd gweledigaeth APC ar gyfer y Parc yn cael ei llunio'n fanwl. (Gweler map 1.) Gan gymryd i ystyriaeth hunaniaeth arbennig a nodweddion pob ardal, ac edrych ar ei bywyd a'i hanghenion rheolaeth fel cyfanwaith, byddant yn casglu ynghyd y dulliau gweithredu o'r adran gyntaf, strategaethau eraill fel y Cynllun Lleol Gweithredu ar Fioamrywiaeth (CLlGF) a gwaith cyrff eraill, i ffurfio cynlluniau rheolaeth manwl gyda thargedau wedi eu costio.

19.2 Bydd y CRhA yn cynnwys data, a systemau monitro a fydd yn rhan annatod ohonynt. Unwaith y byddant yn eu lle, byddant yn ffurfio sylfaen rhaglenni gwaith rheolaeth APC, ac yn cael eu diweddaru'n gyson. Bydd hyn yn ffactor allweddol wrth baratoi ceisiadau am adnoddau.

19.3 Gwnaed y gwaith cychwynnol ar gyfer y CRhA ym 1997, pan gynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd cyhoeddus ledled y Parc, er mwyn cael barn trigolion y Parc ac ymwelwyr ar bynciau o bwysigrwydd a phryder. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei hymgorffori yn y CRhA, sy'n cael eu paratoi mewn rhaglen dreigl dros y tair blynedd hyd 2002. Y gyntaf ar y rhestr yw sgarp gogleddol y Mynyddoedd Duon (Ardal 9), y cyhoeddwyd drafft cychwynnol ohono ym mis Mai 1999.

19.4 Lluniwyd yr ardaloedd CRhA yn bennaf ar sail nodweddion tirlun, gan ddefnyddio methodoleg a ddatblygwyd i rannu'r Parc i nifer hawdd ei drin o ardaloedd rhesymol cydryw. Ni ddylid ystyried eu terfynau yn ddigyfnewid: os bydd addasiad yn gwneud synnwyr i ddibenion rheolaeth, gellir gwneud yr addasiad hwnnw.

## DISGRIFIADAU O'R ARDALOEDD CYNLLUNIAU RHEOLAETH

### Ardal 1: Godre'r Mynydd Du

Ardal yw hon o gefnau cyfochrog GDdn/DOr o Anticlein Tywi, uchder 80-400m. Mae terfyn y Parc Cenedlaethol yn ffurfio ei ffin orllewinol a gogleddol, ac i'r de-ddwyrain mae terfyn amlwg y tir comin ar y Mynydd Du. Yn y gogledd-ddwyrain mae terfyn yr ardal yn dilyn y ffin rhwng Sir Gaerfyrddin a Phowys rhwng terfynau'r Parc a'r tir comin. Mae'r llinell hon yn cyfateb yn fras i'r cefn deuddðr rhwng Gwydderig ac Wysg.

Gan mwyaf, tir amaethyddol sydd wedi ei amgáu, coetiroedd a thir wedi ei fforestu, gydag ychydig o aneddiadau bychain a geir yn yr ardal hon.

### Ardal 2: Mynydd Du

Mae'r ardal hon yn cynnwys tir comin mynyddig y Mynydd Du sy'n cael ei bori'n helaeth a Fforest Fawr y Gorllewin, yn ogystal â rhai ardaloedd cyfagos o weundiroedd ar yr ymylon dwyreiniol a deheuol. Uchder 250-800m. Mae tarren sy'n wynebu'r gogledd o Hen Dywodfaen Coch (yn y gogledd-ddwyrain) a chreigiau Carbonifferaidd (yn y gorllewin), gyda golethr wedi ei dyrannu tua'r de. Mae naws ddiarffordd iawn i'r ardal, heb unrhyw aneddiadau ac ychydig iawn o ffyrdd.

### Ardal 3: Blaenau cymoedd Aman a Thawe

Mae tair rhan amlwg i'r ardal hon. Mae ardal o ffermydd bychain a rhimyn trefol ar hyd terfyn dde-orllewinol y Parc, o dan derfyn y tir comin (Ardal 2) yn nyffrynnoedd Aman, Twrch a Thawe. Mae rhai ardaloedd o weundir sydd heb fod yn gomin wedi eu gosod yn ardal 2. Mae'r rhan hon yn gwahanu lle mae terfyn y comin yn

Mae pen dwyreiniol y rhan gyntaf yn ymestyn tua'r gogledd i gynnwys ail ran yr ardal, y tir wedi ei amgáu ym mlaen Cwm Tawe. Mae gwrthgyferbyniad rhwng y gweundir yn Ardal 2 ar y llethrau gorllewinol uwch a'r tir amaethyddol islaw, felly mae rhai ardaloedd o weundir sydd heb fod yn gomin wedi eu cynnwys yn Ardal 2.

Mae trydydd ran Ardal 3 yn ymestyn tua'r dwyrain o Gwm Tawe ar draws ardaloedd o weundir eang a fforestydd conifferaidd ar uchderau o hyd at 500m rhwng cymoedd Tawe a Nedd. Mae'r creigiau Calchfaen Carbonifferaidd, Grut Melinfaen a haenau glo yn y rhan hon yn ei chysylltu â gweddill Ardal 3, mewn cyferbyniad

Mae Ardal 3 yn cynnwys tystiolaeth o weithgaredd diwydiannol, allgloddio a chludo mwynau, ac mae'r ddwy ran

### Ardal 4: Blaen Dyffryn Wysg

Mae'r ardal hon yn cynnwys dyffryn Afon Wysg a'i hisafonydd deheuol, o'i cefn deuddðr gyda Gwydderig tua'r dwyrain bron cyn belled ag Aberhonddu. Yma mae terfyn y Parc, sy'n ffurfio ymyl ogleddol yr ardal, yn croesi cefn deuddðr Wysg i ddalgylch afon Gwy. Terfyn deheuol yr ardal yw'r rhimyn o dir comin, neu o dir agored ar Fan Frynych ac Ystad Cnewr. Uchder 100-450m.

Tir amaethyddol wedi ei amgáu yw'r ardal hon, gyda chominoedd ar bennau'r bryniau rhwng y dyffrynnoedd. Mae ffermydd 'model' cynnar wedi gadael caeau mawr hirsgwar, tra byddai gan ystadau hŷn erddi a pharcdiroedd. Mae blociau mawr o fforest o gwmpas Cronfa Ddŵr Wysg yn y gorllewin. Mae'r dyffryn wedi bod yn llwybr cysylltu ers adeg y Rhufeiniaid o leiaf. Mae ei aneddiadau'n cynnwys Aberhonddu, ar groesfan bwysig

**Ardal 5: Y rhanbarth Carbonifferaidd canolog**

Mae'r ardal hon yn ymestyn o gymoedd Nedd a Mellte i'r dwyrain ar draws cwm Cynon i Afon Taf, rhwng y gweundiroedd Hen Dywodfaen Coch a'r cominoedd yn Ardal 6 a therfyn deheuol y Parc. Ar draws blaenddyfroedd Hepste nid yw'r terfyn gydag Ardal 6 wedi ei diffinio'n dda gan fod y ddaeareg wedi ei chuddio gan glai clogfaen. Mae'r ardal yn cynnwys llawer o Goedwig Coed y Rhaeadr yn y de-orllewin, ac yn y de-ddwyrain y coedwigoedd i'r gorllewin o Daf Fawr ger cronfa ddŵr Llwyn-onn, lle mae'n ymgyffwrdd ag Ardal 7.

Mae hon yn ardal gymhleth yn ddaearyddol, yn bennaf o Galchfaen Carbonifferaidd a Grut Melinfaen gyda llawer o nodweddion carst. Caiff ei thorri gan afonydd yn llifo tua'r de, rhai drwy goridorau tanddaearol a cheunentydd dyfnion gyda rhaeadrau. Mae tir pori comin a choedwigoedd conifferaidd helaeth ar y llwyfandiroedd, a thir amaethyddol wedi ei amgáu yn y dyffrynnoedd. Mae gweithfeydd mwynol a diwydiannol neu eu holion yn amlwg ar hyd yr ymyl ddeheuol. Uchder 100-450m.

**Ardal 6: Bannau Brycheiniog a'r Fforest Fawr**

Dyma graidd y Parc Cenedlaethol, gyda'i darren drawiadol o Hen Dywodfaen Coch yn rhedeg o'r gorllewin i'r dwyrain o Fan Gihirych i Tor y Foel trwy Pen-y-Fan, pwynt uchaf y Parc ar 886m. Mae dyffrynnoedd rhewlifol yn rhedeg tua'r gogledd o'r sgarp, ac mae'r golethrau deheuol yn cael eu dyrannu gan flaenddyfroedd Nedd, Taf Fawr a Thaf Fechan. Ar ei ben dwyreiniol, torrir y llethr gan afon Caerfanell sy'n llifo tua'r gogledd-ddwyrain.

Terfyn gorllewinol yr ardal yw'r toriad yn y darren rhwng Fan Gihirych a Bannau Brycheiniog (Ardal 2). Ei ymyl ddeheuol yw'r ffin rhwng yr Hen Dywodfaen Coch a'r creigiau Carbonifferaidd yn Ardaloedd 5 a 7. Mae'r terfyn gydag Ardal 4 tua'r gogledd yn dilyn ffens yr ucheldir. Yn y gogledd-ddwyrain lle mae ffens yr ucheldir yn uwch i fyny'r llethr, mae'r ardal yn ymgyffwrdd ag ardal 8, gwaelod dyffryn Wysg, sy'n cael ei ddiffinio fel coridor cul. Mae'r terfyn rhwng ardaloedd 4 ac 8 felly'n dilyn yn fras gyfuchlin 200m.

Tir comin yw'r ardal yn bennaf, gyda glaswelltiroedd asid sy'n cael eu pori'n eang a pheth rhostir cor-lwyni, sy'n bwysig o safbwynt adar, ac ar gyfer hamdden. Mae rhai dyffrynnoedd yn cynnwys cronfeydd dŵr, ac mae blociau mawr o goedwigoedd conifferaidd yn ymestyn i fyny'r llethrau. Yn y dwyrain mae'r ardal yn cynnwys ucheldir amaethyddol a choedydd.

**Ardal 7: Llwyfandiroedd y de-ddwyrain**

Ardal yw hon yn bennaf o greigiau Carbonifferaidd ar hyd ymyl ddeheuol y Parc. Mae ei therfyn gorllewinol gydag Ardal 5 yn cynnwys y tir wedi ei amgáu yn nyffryn Taf. Ymhellach i'r dwyrain, mae'r ardal yn cynnwys llwyfandiroedd a llethrau calchfaen a grut melinfaen a sgarpiau Mynydd Llangynidr a Mynydd Llangatwg, gan ddilyn terfyn y tir comin, a gorffen ar hyd ffordd Blaenau'r Cymoedd ar ochr ogleddol Ceunant Clydach. Uchder 250-600m.

Gweundir yw'r ardal hon yn bennaf, gyda thirlun calchfaen nodweddiadol a dim cyrsiau dŵr o bwys ar wahân i ddyfroedd isaf Taf Fawr a Thaf Fechan. Mae chwarelu – presennol ac yn y gorffennol – yn elfen amlwg yn y tirlun, ac mae systemau ogofeydd o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae aneddiadau yng nghymoedd Taf Fawr a Thaf Fechan, ac yng Ngheunant Clydach.

**Ardal 8: Dyffryn Wysg isaf**

Mae'r ardal hon yn cynnwys dyffryn afon Wysg a rhannau isaf ei his-ddyffrynnoedd o fan ychydig o dan Aberhonddu i derfyn y Parc yn y Fenni. Mae rhai o lethrau'r dyffryn yn serth, yn codi i ucheldiroedd Bannau Brycheiniog (Ardal 6) a Mynydd Llangynidr-Llangatwg (Ardal 7) tua'r de, a'r Mynyddoedd Duon (Ardal 10) tua'r gogledd-ddwyrain. Yn gyffredinol, mae ei derfyn yn dilyn toriad y llethr, lle mae'r tir yn mynd yn fwy serth wrth godi tua ffens yr ucheldir. Fodd bynnag, cydnabyddir peth anghysonderau er mwyn cadw cyfanrwydd ardaloedd cyfagos, lle mae cefn deuddŵr neu fath gwahanol o graig yn nodweddion diffiniol.

Wedi eu gwahanu oddi wrth brif ran Ardal 8 gan Ardal 10, sy'n cyrraedd terfyn y Parc o gwmpas y Fenni, mae gwaelodion dyffrynnoedd Honddu a Gofenni a mynydd Ysgyryd, sy'n gorwedd rhwng Ardal 10 a therfyn dwyreiniol y Parc. Cynhwyswyd yr ardal hon gan fod ei chymeriad iseldir dyffryn afon yn nes o ran priodoleddau i ddyffryn Wysg nag i'r Mynyddoedd Duon gerllaw.

Ar wahân i'r Ysgyryd a Bryn Buckland, tir wedi ei amgáu yw'r ardal hon yn gyfan gwbl. Mae ynddi beth dir amaethyddol mwyaf ffrwythlon y Parc, gyda thir âr a thir pori wedi ei wella, ac ychydig iawn o dir heb ei wella. Mae llawer o goetiroedd llydanddail bychain, coedwigaeth ar Fryn Buckland ar Myarth ac amryw o ardaloedd parcdir. Mae afon Wysg yn nodwedd bwysig.

Mae'r ardal wedi ei phoblogi'n helaeth, ac yn cynnwys pentrefi mawr Crughywel, Gilwern a Gofilon a phentrefi llai a mân bentrefi. Mae wedi ei chyfaneddu ers dyddiau cyn-hanes ac mae ganddi lwybrau trafnidiaeth yn cynnwys ffordd Rufeinig, Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu, cyn reilffordd a'r A40T.

**Ardal 9: Godreon gogleddol y Mynyddoedd Duon**

Mae'r ardal hon yn ymestyn o'r Gelli Gandryll i Langors, ac o derfyn gogledd-orllewinol y Parc i ffens yr ucheldir o dan darren y Mynyddoedd Duon. Mae'r rhan fwyaf o'r ardal yn ffurfio llwyfandir o dan y darren, wedi ei dyrannu'n ddwfn i ffurfio'n esgeiriau, gan afonydd yn llifo tua'r gogledd-orllewin. Yn y de mae basn Llyn

Mae ychydig o gominoedd bychain ar yr esgeiriau ac ardal fwy yn nwyrain basn llyn Syfaddan. Tir amaethyddol yw'r rhan fwyaf o'r ardal, gyda choetiroedd llydanddail a chonifferaidd ar ymylon serth y dyffrynnoedd. Mae'r Llyn a'r tir o'i gwmpas yn gynefinoedd gwlyptir pwysig. Mae'r ardal yn cynnwys trefi'r Gelli Gandryll a Thalgarth, a Llangors ac amryw o bentrefi llai.

**Ardal 10: Y Mynyddoedd Duon**

Mae'r ardal hon yn cynnwys bloc cyfan y Mynyddoedd Duon, gyda'i lethr yn wynebu tua'r gogledd-orllewin a'i esgeiriau hir deheuol. Mae'r rhain yn amgylchynu dyffrynnoedd Rhiangoll, Grwyne Fechan, Grwyne Fawr a Honddu. Terfyn y Parc a ffin Cymru yw ei ymyl ddwyreiniol, a'i ben draw gogledd-orllewinol yw ffens yr ucheldir o dan y llethr. Tua'r gorllewin, mae'r ardal yn cynnwys allgreigiau Mynydd Troed, Pen Tir a Chefn Moel. Yn nyffryn Wysg, mae'r ffin gydag Ardal 8 yn rhedeg ar hyd godre'r llechwedd serth. Yn y de-ddwyrain, mae'r ardal yn ymestyn ar draws dyffryn Grwyne i gynnwys Mynydd Pen-y-fal a Bryn Arw.

Mae bron i ddeuparth o'r ardal yn dir comin agored gyda grug a gweiriau garw, a golygfeydd eang. Mae dros draean wedi ei amgáu, gyda blociau mawr o fforest gonifferaidd yn ogystal â thir amaethyddol yn y dyffrynnoedd dyfnion. Y prif aneddiadau yw Cwmdu, Llanbedr a Llangenni.

**Ardal 11: Esgair Blorenge**

Mae'r ardal hon yn cynnwys pen draw de-ddwyreiniol y Parc, o Geunant Clydach i lawr i Bontypwl. Mae terfyn y parc yn ffurfio ymyl ddeheuol a gorllewinol yr ardal, a'i ymyl ddwyreiniol tua'r gogledd i'r Fenni. Lle mae terfyn y Parc yn gadael y gamlas, mae terfyn yr ardal yn dilyn ymyl y tir comin o gwmpas hyd at Geunant Clydach, lle mae'n ymuno ag Ardal 7 ar hyd Ffordd Blaenau'r Cymoedd.

Mae'r ardal yn cynnwys esgair serth ei hochrau o dir comin agored gydag ardaloedd coediog, fforestydd a thir amaethyddol islaw. Yn y gogledd mae cyn chwareli ac adfeilion diwydiannol, o ganlyniad i fwyngloddio, prosesu a chludo haearn, calchfaen a glo.

## BYRFODDAU

| | |
|---|---|
| AA | Asiantaeth yr Amgylchedd |
| AACCC | Adran Amaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| ACA | Ardal cadwraeth arbennig |
| ACLl | Awdurdod Cynllunio Lleol |
| ACM | Awdurdod Cynllunio Mwynau |
| ADBaB | Ardaloedd 'dan bwysau' a 'bregus' |
| ADC | Asiantaeth Datblygu Cymru |
| AFfCG | Asiantaeth Ffermio a Chadwraeth Gwledig |
| AL21 | Agenda Leol 21 |
| AP | Awdurdod Priffyrdd |
| APC | Awdurdod y Parc Cenedlaethol |
| AU | Awdurdod Unedol |
| BCC | Bwrdd Croeso Cymru |
| CAAA | Canolfan addysg awyr agored |
| CAPC | Cymdeithas Awdurdodau Parciau Cenedlaethol |
| CBHC | Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru |
| CC | Y Comisiwn Coedwigaeth |
| CCC | Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| CCCh | Cymdeithas Cynnyrch Chwareli |
| CCGC | Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| CChC | Cyngor Chwaraeon Cymru |
| CGGP | Cymdeithas Geffylau Gwledydd Prydain |
| CDU | Cynllun Datblygu Unedol |
| CLlAA | Cynllun Lleol Asiantaeth yr Amgylchedd |
| CLlGF | Cynllun Lleol Gweithredu ar Fioamrywiaeth |
| CMA | Cymdeithas Mannau Agored |
| CCOC | Cyngor Crwydro Ogofâu Cambrian |
| CPCAAA | Cymdeithas Penaethiaid Canolfannau Addysg Awyr Agored |
| CRhA | Cynllun Rheoli Ardal |
| CRhPC | Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol |
| CSP | Cyngor Sir Powys |
| CTLl | Cynllun Trafnidiaeth Lleol |
| CyC | Cymdeithas y Cerddwyr |
| DC-WW | Dŵr Cymru-Welsh Water |
| FfDdLlC | Ffordd a ddefnyddir fel llwybr cyhoeddus |

| | |
|---|---|
| GDDG | Gweithredu dros Dwristiaeth Gymunedol |
| GGD | Grðp Gweithredu ar Dwristiaeth |
| GYFH | Grðp Ymgynghorol ar Fynediad a Hamdden |
| HG | Heneb gofrestredig |
| HTC | Hawl tramwy cyhoeddus |
| ICOMOS | International Council on Monuments and Sites |
| Map Ad3 | Map Cadwraeth Adran 3 |
| MC | Menter Coedwigaeth |
| MM | Meithrin Mynydd |
| RAC | Y Clwb Moduro Brenhinol |
| RSPB | Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar |
| SDGBRh | Safleoedd daearegol a geomorffolegol o bwys rhanbarthol |
| SDdGA | Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig |
| UE | Undeb Ewropeaidd |
| WA | Y Weinyddiaeth Amddiffyn |
| YA | Ymddiriedolaeth Archeolegol |
| YC | Ymddiriedolaeth Coetiroedd |
| YG | Ymddiriedolaeth Genedlaethol |
| YN | Ymddiriedolaethau Natur |